# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD IAU, 2AIL GORFFENNAF, 2026**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Hybrid - Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac ar Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 24 Mehefin 2026)

**Ian Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

www.gwynedd.llyw.cymru

**DYDD MERCHER, 24 MEHEFIN 2026**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 2 GORFFENNAF 2026**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod aml-leoliad o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.30 y.h., DYDD IAU, 2AIL GORFFENNAF, 2026 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, CAERNARFON LL55 1SH / RHITHIOL AR ZOOM**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



<u>Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth</u>

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Grwp Llafur / Rhydfrydol – Ystafell Ogwen

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 5 - 16

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2026 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.18 o'r Cyfansoddiad.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2025/26** 17 - 45

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** 46 - 66

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2025/26** 67 - 114

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETH DEMOCRATIAETH 2025/26** 115 - 128

I gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth.

**11. DATGANIAD CYNGOR GWYNEDD YNGHYLCH HYBU AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH** 129 - 134

I gyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, Cyfreithiol a’r Gymraeg

**12. POLISI ADRODD CYFRINACHOL ("CANU'R GLOCH") AELODAU** 135 - 145

I gyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, Cyfreithiol a’r Gymraeg

**13. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD ADRAN 22 - POLISI CANU'R GLOCH - STAFF** 146 - 147

I gyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

**14. TROTHWYON CAFFAEL AC ADDASIADAU I'R RHEOLIADAU GWEITHDREFN CONTRACTAU** 148 - 152

I gyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, Cyfreithiol a’r Gymraeg.

**15. RHYBUDDION O GYNNIG**

**RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD HUW ROWLANDS**

Yn unol â’r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd dan Adran 4.19 o’r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Huw Rowlands yn cynnig fel a ganlyn:-

**Gofynnir i Gyngor Gwynedd gysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn:-**

1. **Mynegi pryder fod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ddarostyngedig i fesurau arbennig ers 11 mlynedd.**

2. **Holi pa gamau a pha ymdrechion fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd er mwyn gwella’r ddarpariaeth iechyd yng Ngogledd Cymru i bobl Gwynedd**.

**CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR 14/05/2026**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elin Walker Joes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:**
Craig ab Iago, Menna Baines, Stephen Churchman, Wendy Cleaver, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Gwilym Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Anwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R. Medwyn Hughes, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dewi Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Llio Elenid Owen, Geraint Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Elfed P Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Ioan Thomas, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Sian Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Sioned Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

**1. CADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd dau enw am y gadair, sef y Cynghorydd Elin Walker Jones a'r Cynghorydd Beth Lawton.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Elin Walker Jones yn Gadeirydd am 2026/27.**

Darllenodd a llofnododd y Cynghorydd Elin Walker Jones ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2026/27 ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr.

**2. IS-GADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd dau enw am yr is-gadeiryddiaeth, sef y Cynghorydd Elfed P Roberts a'r Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths yn Is-gadeirydd am 2026/27.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Anwen Davies, Alan Jones Evans, Gareth Coj Parry, Glyn Daniels a Gwion Emyr.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2026 fel rhai cywir.

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorwyr canlynol: Anne Lloyd Jones, Beth Lawton, Annwen Hughes, Dafydd Davies, Wendy Cleaver, Elwyn Edwards, Elwyn Jones, Linda Morgan, Elfed Williams a John Pughe Roberts ar gyfer eitem 11 – Ardoll Twristiaeth. Roedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddynt adael ar gyfer yr eitem.

**6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawyd y Cynghorydd Louise Hughes ac Arwyn Herald Roberts yn ôl wedi cyfnod o waeledd.

Llongyfarchwyd yr holl Aelodau Seneddol a gafodd eu hethol yn etholiad Senedd Cymru wythnos diwethaf, ac yn benodol llongyfarch Beca Brown sydd wedi camu i lawr o'i rôl fel Cynghorydd Llanrug, ynghyd â chyn aelodau'r Cyngor hwn Sian Gwenllian a Mair Rowlands. Nodwyd y bydd Isetholiad yn cael ei gynnal yn Llanrug yn ystod yr wythnosau nesaf.

Tynnwyd sylw fod y Cyngor wedi arwyddo a lansio Siarter Twf y Gymraeg yn y Gwaith ar y cyd gyda TUC Cymru, Unsain, GMB a Unite. Eglurwyd mai'r Cyngor yw'r Cyngor cyntaf yng Nghymru i wneud hyn. Mynegwyd llongyfarchiadau ar y cynllun blaengar sy'n profi'r cyd-weithio llwyddiannus rhwng y Cyngor a'r undebau llafur yng Ngwynedd.

Nodwyd llongyfarchiadau i:

- Glwb Peldroed Caernarfon ar ennill Cwpan Cymru yn ddiweddar.
- I ddisgyblion Ysgol Glan y Môr ac Ysgol y Moelwyn am ddod yn gyntaf ac ail mewn cystadleuaeth Tasty Careers yn dilyn mentora gan Tom o Swig Smoothies.

Dymunwyd pob lwc i'r holl blant a phobl ifanc ar draws y sir a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ddiwedd y mis.

**7. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**8. CWESTIYNAU**

*(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)*

**(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Jina Gwyrfai**

Mater o bryder i lawer ohonom yw'r cynnydd amlwg yn nifer dysgwyr yn ein hysgolion sy'n cael eu diarddel oherwydd ymddygiad annerbyniol, peryglus neu'n fygythiol. Serch hynny, mae'n statudol bod pob plentyn yn derbyn addysg hyd at 16 oed. Rhywbeth dros dro yw diarddel i fod, felly, ac y mae amrywiaeth o strategaethau gan yr Adran Addysg- ar y cyd efo Asiantaethau eraill- i ddelio gyda'r dysgwyr hyn, a'r nod o alluogi'r dysgwyr i ddychwelyd i ysgol a pharhau i dderbyn addysg a fydd yn eu harfogi i'r dyfodol.

A fedrwch amlinellu'r holl strategaethau sydd ar gael yng Ngwynedd i ddelio gyda'r bobl ifainc hyn; a hefyd darparu data i ddangos a) faint yw'r broblem, a b) pha mor effeithiol yw'r ddarpariaeth bresennol ?

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Cynghorydd Dewi Jones**

Ymatebwyd drwy nodi ei fod yn rhannu'r pryder a bod ymddygiad anerbyniol a pryderus ar draws sir. Mynegwyd fod cefnogaeth angen ei roi i'r plant sydd methu ymdopi yn yr ysgol am amryw reswm, ond pwysleisiwyd mai nifer bychan yw'r rhain. Amlygwyd fod arwydd o oleuni gyda niferoedd sy'n cael ei gwahardd yn lleihau a bod ffordd newydd yr adran o edrych ar

gynhwysiad wedi cyfrannu at hyn. Tynnwyd sylw at y ddwy ganolfan sydd yn Llanwnda ac yn Nyffryn Nantlle i gefnogi'r bobl ifanc. Eglurwyd fod 220 o bobl ifanc yn agored i wasanaethau, a bod mwy o achosion wedi cau eleni na sydd wedi ei hagor. Nodwyd fod y broblem bell o gael ei datrys ond ei fod yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

**Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Jina Gwyrfai**

Diolchwyd am yr ateb, ond un peth bach i godi, y plant sydd ar amserlen rhan amser gofynnwyd beth sy'n digwydd gweddill yr amser a pwy sy'n gyfrifol am eu gofal tra mae rhiant yn gorfod gweithio.

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Cynghorydd Dewi Jones**

Nodwyd fod nifer o wasanaethau ar gael a bod pob achos yn cael ei drin yn unigol. Ategwyd fod gweithwyr yn gweithio gyda phlant a theuluoedd er mwyn dod o hyd i'r datrysiad addas i'r achos yn unigol. Ategwyd fod achosion weithiau yn cymryd amser i sicrhau fod y plant yn ôl mewn amser llawn amser.

**(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

Mae Cymdeithasau Tai yn ddiweddar wedi cael neu yn ceisio caniatâd am godi nifer o dai di gynsail mewn ceisiadau unigol ym mhentrefi Dwyfor, Botwnnog (18), Trefor (20), Nefyn (20), Chwilog (25), Ffor (27), Abererch (24), a hynny yn wyneb gwrthwynebiad lleol o ddatblygiadau sydd tu hwnt i raddfa sy'n addas i faint y pentrefi ac sy'n dyblu nifer y tai cymdeithasol yno dros nos ac yn her i hyfywedd y Gymraeg. Oes yna unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y Cyngor yn awr yn gwrando a'u bod ddim yn gwbl glustfyddar i'r lleisiau lleol rheini, yn enwedig pan fo'r cynghorau cymuned wedi gwrthwynebu'r ceisiadau a phan fo deisebau efo dros 150 o enwau wedi eu hel?

**Ateb yr Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, Y Cynghorydd Paul Rowlinson**

Mae'n ofynnol fod y pwyllgor cynllunio yn gwneud penderfyniadau o fewn fframwaith cyfreithiol. Golygai hyn ddyfarnu ceisiadau yn unol â'r cynllun datblygu oni bai fod ystyriaethau materol cynllunio yn nodi fel arall. Rhaid hefyd sicrhau fod y canfyddiadau yma yn rhesymol a gyda seiliau tystiolaeth eglur.

Nid yw nifer neu darddiad cefnogaeth neu wrthwynebiad yn ei hun yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

Fodd bynnag, rhoddir sylw llawn i ystyriaethau cynllunio perthnasol a ddaw i'r amlwg o sylwadau a dderbynnir mewn ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio, gan gynnwys sylwadau gan y cyhoedd, y Cyngor Cymuned ac ymgynghorai eraill.

Mae datblygiadau tai fforddiadwy yn rhan allweddol o Gynllun Gweithredu Tai'r Cyngor sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet, gyda'r nod o ddatblygu 700 o dai fforddiadwy erbyn diwedd oes y Cynllun 2020/21-2028/29. Mae Gwynedd mewn argyfwng tai, ac mae datblygiadau tai fforddiadwy yn ymateb i angen sylweddol sydd wedi'i adnabod ar draws y sir, gyda 4,107 o unigolion ar y gofrestr dai ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn llwyddo i ddenu oddeutu £13m o grant bob blwyddyn, sy'n galluogi i'r Cyngor roi opsiynau tai i'r rheiny sydd mewn angen cartref trwy gydweithio'n agos gyda'r Cymdeithasau Tai fel rhan o Bartneriaeth Dai llwyddiannus y Cyngor.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Rhys Tudur**

O ystyried bod y Gymraeg yn iaith leiafrifol sydd o dan bwysau'r iaith fwyaf grymus yn y byd a bod codi stadau o 15 - 20 tŷ ar y tro mewn pentrefi bach yn ormod o her i hyfywedd y

Gymraeg, ar allu i graffu ieithyddol, a bod canran siaradwyr Cymraeg y sir wedi gostwng yr un adeg a'r Cynllun Datblygu Lleol a bod deisebau Cynghorau Cymuned yn unfrydol yn gwrthwynebu a lleisio'r pryder ieithyddol. A ydym yn dweud fod barn y deisebau, Cynghorau Cymuned a Chynghorwyr lleol oll yn hollol anghywir ac yn amherthnasol, neu a yw'r Cyngor am sicrhau ein bod am gael data iaith ar gyfer rhestrau aros ac ein bod am newid y Cynllun Datblygu fel mai ond mewn amgylchiadau hynod eithriadol y ceir codi 15 - 20 o dai mewn pentrefi bach.

**Ateb yr Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, Y Cynghorydd Paul Rowlinson**

Ymatebwyd drwy bwysleisio fod gweithredoedd y Cyngor wedi ei seilio ar ffeithiau a thystiolaeth, a bod rôl gan Gynghorwyr i ddangos arweiniad i gyfleu'r ffeithiau i'r cyhoedd fel bod barn gyhoeddus yn gorffwys ar seiliau cadarn. Mynegwyd fod llawer o bobl ddim yn awyddus i gael tai cymdeithasol yn ei hardaloedd ond fod dyletswydd ar y Cyngor i ddiwallu'r angen, ac mae dros 4 mil o bobl ar restrau aros tai cymdeithasol. Nodwyd fod y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi'r nifer o bobl sydd yn aros ymhob ardal, a bod effaith cadarnhaol ieithyddol wedi bod hyd yma o ganlyniad i Gynllun Datblygu Tai. Ychwanegwyd fod adroddiad a aeth i'r Pwyllgor Iaith yn dangos fod canran uwch o siaradwyr Cymraeg i'w gweld yn y stadau newydd o'i gymharu â chymunedau o'u hamgylch. Nodwyd nad oes modd gofyn cwestiynau am iaith yn rhan o'r broses o ddyrannu tai yn unol â rheoliadau. Mynegwyd balchder o weld arweinyddiaeth newydd yn Llywodraeth Cymru a fydd gobeithio yn deddfu i gael cartref i bawb a chodi miloedd o dai cymdeithasol newydd er mwyn i'r afael ac yr argyfwng tai.

**(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Gruffydd Williams**

Gofynnais yn flaenorol os oedd y Cyngor, yn dilyn y ffaith bod erthygl 4 wedi ei ddiddymu gan lys o ganlyniad i'r hyn sydd wedi dyfarnu'n gynnyrch camarweiniol gan y Cyngor hwn, am ymddiheuro i ymgyrchwyr a fu frwydro mor galed i gael erthygl 4 mewn grym, a ni fu ymddiheuriad. Erbyn hyn, mae'r hawl i'r Cyngor i apelio wedi ei wrthod. A yw'r Cyngor felly o'r diwedd am ymddiheuro i ymgyrchwyr tros erthygl 4, gwladgarwyr, ieithegwr a threthdalwyr, yn dilyn y ffaith bod hi'n nawr yn glir fod diffyg yn y gwaith papur allweddol wedi achosi i Erthygl 4 gael ei ddiddymu a bod arian wedi ei wastraffu am swm o dros hanner miliwn.

**Ateb yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Craig ab Iago**

Diolchwyd am y cwestiwn a nododd nad oedd wedi newid ei feddwl. Tywyswyd drwy'r daith o ran Erthygl 4 o'r camau cyntaf o greu adroddiad o waith mewnol a oedd yn edrych ar effaith ail gartrefi ac eiddo gwag,i ymgyrch cyhoeddus a amlygodd y broblem ymhellach, i'r Erthygl yn dod i rym, i herio cyfreithiol, i golli'r her cyfreithio ac i golli'r apêl. Amlygwyd fod y Barnwr wedi nodi nad oedd y dogfennau a gyflwynwyd yn ddigon clir ac eglur ac felly bod y penderfyniad wedi ei ddiddymu. Ategwyd fod y penderfyniad ddim o ganlyniad i ddiffyg tystiolaeth nac yr angen lleol i weithredu ond yn hytrach diffiniad a defnydd o eiriau a oedd yn creu'r penderfyniad.

Mynegodd nad oedd am ymddiheuro ac nad oedd yn deall pwy y buasai yn ei helpu.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Gruffydd Williams**

O ystyried yr ateb ar anallu parhaus i ymddiheuro a hefyd y gwastraff ariannol sylweddol a gododd yn sgil y papurau a ddyfarnwyd yn gamarweiniol, methiant y Cyngor i nodi yn ffurfiol ble yn union y bu'r methiant yn y broses oruchwylio a pha lefel o oruchwyliaeth sefydliadol ddylai fod wedi sicrhau cywirdeb y papurau er mwyn atal y gwastraff hwn rhag digwydd ac wrth fod y llys apêl a'r uchel lys wedi dyfarnu yn erbyn y Cyngor yn y mater hwn, a bod ateb yr aelod cabinet yn gyndyn o roi ffocws ar ffeithiau'r Cyngor. A yw'n credu fod dyfarniad y llysoedd yn anghywir, bod y Cyngor yn gwybod yn well 'na'r barnwr, os nad yw'n credu hynny pa bryd mae am ymddiheuro?

**Ateb yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Craig ab Iago**

Mynegwyd nad oedd yn rhan o'i swydd i anghytuno a'r Barnwr, ond ei swydd yw cynorthwyo pobl leol i fyw yn eu cymunedau. Fel aelod Cabinet ar y pryd, roedd yn ymwybodol o beth oedd y penderfyniad ond fod barn y Barnwr yn anghytuno. Mynegwyd nad yw ymddiheuro am gynorthwyo neb, a chredai nad oedd yn wastraff amser gan ei fod yma i gynorthwyo pobl i fyw yn eu cymunedau, i fod yn arloesol ac i flaenoriaethu anghenion lleol.

**9. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028 – ADOLYGIAD 2026/27**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor yr adroddiad gan nodi fod y cynllun yn fap a fydd yn arwain y ffordd i ble mae'r Cyngor yn dymuno ei fod. Pwysleisiwyd fod y blaenoriaethau yn cynnwys Gwynedd gyfartal, lewyrchus, ofalgar, ac effeithlon. Tynnwyd sylw penodol at flaenoriaeth newydd Gwynedd Gyfartal. Amlygwyd ei fod rhoi'r egwyddor o drin pawb yn deg wrth wraidd popeth a bod prosiectau megis Merched mewn Arweinyddiaeth yn mynd i weithredu i fynd i'r afael a'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar gyfloedd pobl.

Eglurwyd bod y Cynllun wedi ei fabwysiadu pum mlynedd yn ôl, a gyda'r byd yn newid mor gyflym ei bod yn naturiol i adolygu a diweddaru'r Cynllun. Nodwyd fod gweithdai wedi ei gynnal ddechrau'r flwyddyn gydag Aelodau Cabinet er mwyn cytuno ar addasiadau cyn rhannu ar holl aelodau i dderbyn eu sylwadau. Ymhelaethwyd drwy nodi fod nifer o'r sylwadau ac awgrymiadau wedi eu hymgorffori yn y cynllun.

Tynnwyd sylw at faes blaenoriaeth Gwynedd Yfory, gan bwysleisio ei bwysigrwydd i sicrhau'r cychwyn gorau i blant a phobl ifanc Gwynedd. Ynghyd a hynny ychwanegwyd ei fod yn holl bwysig fod Gwynedd yn sir sy'n blentyn cyfeillgar ac yn sir trawma wybodus a diolchwyd i'r Is-Arweinydd am ei arweiniad yn y maes.

Amlygwyd prosiect newydd ym mlaenoriaeth Gwynedd Gymraeg, sef 'Nol i Wynedd' sydd a'i nod o gryfhau poblogaeth Gwynedd er mwyn cyfrannu at gymunedau bywiog a thwf yn nefnydd y Gymraeg.

Nodwyd fod Cynllun Ymateb: Cyfiawnder drwy ein Dewrder wedi ei gynnwys ar ddechrau'r Cynllun er mwyn tanlinellu'r ffaith fod y gwaith hwn yn ymrwymiad parhaus. Diolchwyd i'r holl aelodau, gweithlu'r Cyngor, partneriaid a chymunedau am weithio yn galed dros y sir a'r trigolion.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd balchder drwy gyflwyno'r flaenoriaeth newydd, a'i fod yn gam ymlaen er mwyn gwneud pethau yn wahanol, i wrando ar leisiau trigolion a bod penderfyniadau yn cael ei gwneud gyda phawb mewn golwg ac nid y mwyafrif bob amser. Tynnwyd sylw at y gwaith sydd yn cael ei wneud i greu sir plentyn cyfeillgar gydag ymwybyddiaeth trawma a fod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar blant y Gwynedd. Pwysleisiwyd fod gwaith wedi ei wneud ond fod mwy i'w wneud. Mynegwyd fod gweledigaeth Llechen Lan yn amlygu'r awydd sydd gan y Cyngor o feddwl a buddsoddi yn y dyfodol, gydag un uchelgais sef i sicrhau'r gwasanaeth gorau i bobl Gwynedd.

Amlygwyd blaenoriaeth Gwynedd Ofalgar sydd a'r ffocws o wella gwasanaethau gofal a hybu annibyniaeth i bobl fregus o fewn eu cymunedau. Ategwyd fod y buddsoddiad a'r datblygiadau i greu gwasanaethau modern yn holl bwysig, ond hynny drwy'r cyd-weithio cyson holl bwysig gyda phartneriaid i ddarparu'r gofal gorau. Diolchwyd i holl staff gofal a holl ofalwyr y sir.

Mynegwyd fod gwasanaethau megis gofal oedolion a phlant ac addysg yn wasanaethau drud i'w rhedeg, ac mai yma mae mwyafrif o gyllideb y Cyngor yn cael ei wario. Croesawyd adolygiad i'r Gwasanaethau Ieuenctid, sydd wedi derbyn toriad enbyd dros y blynyddoedd

diwethaf, gan amlygu ei fod yn waith ataliol holl bwysig a gobeithio y bydd modd ail fuddsoddi yn dilyn yr adolygiad.

Cefnogwyd y gwaith o fod yn sir trawma ymwybodol a’r Cynllun Awtistiaeth yn benodol, gan fod trawma yn effeithio plant tu hwnt i’r maes gofal yn unig. Ychwanegwyd o ran y cynllun Awtistiaeth, ei bod yn anodd cael diagnosis ond wedi hynny bod angen cymorth i gael y gefnogaeth arbenigol gywir gan fod y sbectrwm mor eang.

Pwysleisiwyd yr angen i’r cynllun fod yn fwy ‘na geiriau a bod angen gweld cynllun gweithredu ynghyd a sicrhau fod digon o arian i gefnogi’r holl gynlluniau.

Nodwyd fod nifer o ddeunydd da i’w gweld yn y Cynllun hwn, er hynny fod angen cynnwys Erthygl 4, gan fod y mater wedi costio cymaint i’r Cyngor a bod angen amlinellu beth aeth o’i le. Yn yr un modd, ychwanegwyd fod rhoi lle i’r adroddiad ymarferiad diogelu plant ar ddechrau’r adroddiad yn ddi-chwaeth a bod gwendidau’r Cyngor yn cael ei gyfleu yn gryfderau.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Adolygiad 2026/27**

## 10. STRATEGAETH DATBLYGU ECONOMAIDD NEWYDD I WYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned gan nodi fod y strategaeth wedi ei ddatblygu gan fod y Cabinet wedi adnabod bwlch o beidio cael un ddogfen sydd yn adnabod dymuniadau pobl y Sir ar gyfer economi ac i osod cyfeiriad ar gyfer datblygu’r economi. Ategwyd fod ariannu ar gyfer y maes datblygu’r economi yn gynyddol ansicr a bod pwyslais Llywodraeth Cymru wedi bod ar gyfer cydweithio rhanbarthol, a bod buddsoddiad wedi ei weld ar draws y gogledd ond dim cynlluniau cyffelyb ar gyfer Gwynedd. Nodwyd fod ansicrwydd parhaus am yr economi yn fyd-eang a bod awyrgylch tymhestlog yng Nghymru yn benodol.

Amlygwyd fod agweddau positif a chryf am economi Gwynedd megis potensial o fewn mentrau sydd eisoes yn bodoli, diweithdra yn isel a lefelau cymwysterau’r gweithlu yn uchel. Mynegwyd mai pwrpas y strategaeth oedd adnabod lle mae modd gwella, ac amlygwyd meysydd megis llai o bobl mewn oed gwaith yn gweithio, cyflogau isel, gormod o waith rhan-amser a tymhorol a diffyg amrywiaeth diwydiannau.

Manylwyd fod y broses o ddatblygu’r strategaeth wedi bod yn feintiol ac yn cynnwys ymchwil desg sylweddol gyda mewnbwn gan ystod o randdeiliad o’r sector preifat, cyhoeddus a trydydd sector. Amlygwyd fod mewnbwn wedi ei dderbyn gan Cynghorwyr drwy’r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

Nodwyd yr awydd i gael economi sy’n rhoi cyfle i bawb wireddu eu llawn botensial gydag economi sy’n cryfhau cyfoeth naturiol a diwylliannol y sir. Pwysleisiwyd ei fod yn gyfle cyffroes i wneud Gwynedd yn gyrchfan rhagoriaeth mewn diwydiannau wrth barhau i feithrin ac ychwanegol at sectorau traddodiadol fel amaeth a thwristiaeth. Mynegwyd y weledigaeth o gael economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy’n cryfhau'r Gymraeg, creu cyfleoedd newydd a chyfrannu at lesiant. Tywyswyd drwy’r tair thema sydd wedi ei adnabod Mentergarwch, Pobl a Lles.

Eglurwyd er mwyn gweithredu’r strategaeth eu bod yn awyddus ffurfio Fforwm Economaidd a fydd wedi’i seilio ar y grŵp ymgynghorol llwyddiannus a lywiodd gwaith y Gronfa Ffyniant Cyffredin. Ymhelaethwyd y bydd hyn yn sicrhau llais i rannau gwahanol o Wynedd er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth o’r amrywiaeth ar draws y sir. Nodwyd mai'r Fforwm a fydd yn llunio'r Cynllun Cyflawni’r flynyddol, a bydd fframwaith monitro a gwerthuso yn fodd o fesur llwyddiant yn erbyn gweithgareddau.

Rhoddwyd cyfle i’r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cefnogwyd y strategaeth gan groesawu strategaeth dda i ddenu buddsoddiad i'r sir, nodwyd ei fod yn gychwyn ardderchog ac yn edrych ymlaen at weld y targedau i weld beth sydd yn dod ohoni.

Croesawyd y strategaeth gan edrych ymlaen at weld y Cynllun Cyflawni. Mynegwyd siom o glywed am Uchelgais Gogledd Cymru yn tynnu allan o gynllun Glynllifon, ond amlygwyd yr angen am ddatblygiad yn ne'r Sir.

Gofynnwyd faint o rym fydd gan y Fforwm a beth fydd y drefn monitro er mwyn sicrhau dyraniad gwastad ar draws y sir, ac a fydd Cynghorwyr yn rhan o'r monitro. Nodwyd y bydd monitro yn rhagweithiol i ddatblygiad prosiectau a bydd gwaith yn cael ei gyfeirio at graffu. Eglurwyd y bydd y Fforwm yn rhoi arweiniad ar draws y sir. Gofynnwyd bod adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i ddangos dyraniad traws sirol.

Amlygwyd Hwb Trawsfynydd, a diolchwyd am y gwaith sydd yn digwydd tu ôl i'r llen. Gwahoddwyd yr holl aelodau i weld y gwaith dymchwel sydd yn mynd rhagddi ac i weld y cynlluniau newydd sydd i'r safle.

Holwyd am sefyllfa Llanbedr ac os yw'r les bellach yn nwylo pobl leol. Eglurwyd fod y Llywodraeth wedi ei roi i gwmni Preifat, ond fod trafodaethau yn parhau o ran y les yn y tymor hir.

Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau fod yr adran Gynllunio yn cefnogi'r economi, a'r angen i weithio yn draws adrannol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu 'Gwynedd 2035: Economi Sy'n Gweithio i Bawb' yn strategaeth datblygu economaidd i Wynedd.**

## 11. ARDOLL YMWELWYR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned gan nodi'r rheswm dros ystyried Ardoll Ymwelwyd yw sicrhau bod y sector dwristiaeth yn cyfannu'n deg at gostau'r pwysau mae'n ei greu ar wasanaethau lleol, yr amgylchedd, y Gymraeg a chymunedau'r sir. Ychwanegwyd fod yr ardoll yn fodd o ail-fuddsoddi yn yr economi ymweld er lles trigolion a busnesau lleol.

Amlygwyd y sefyllfa bresennol, sef fod miliynau o ymweliadau a Gwynedd bob blwyddyn yn creu pwysau cynyddol ar wasanaethau lleol mewn cyfnod ble mae cyllidebau dan straen. Yn ôl Llywodraeth Cymru, nodwyd fod yr ardoll yn ateb posib gan ei fod yn gofyn am gyfraniad bach gan ymwelwyd dros nos i'w ail fuddsoddi'n lleol, gyda rheolaeth a thryloywder lleol. Pwysleisiwyd nad yw'r cynnig yn ddatblygiad gwrth dwristiaeth, ond yn hytrach ceisio rheoli a chryfhau'r economi mewn ffordd gynaliadwy yn y tymor hir. Ategwyd fod nifer o ffyrdd o fesur yr economi ymweld, a bod rhain i'w gweld yn yr asesiadau effaith, yn rhoi maint gwahanol ar economi Gwynedd ac felly yn effeithio ar asesiadau ardrawiad effaith.

Tynnwyd sylw at y sylwadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a oedd yn cynnwys yr angen am ymgynghoriad trylwyr yn cael ei gynnal ac ymrwymiad pendant ar wariant yr arian.

Mynegwyd fod proses fanwl y bydd i'w fabwysiadu os yn dymuno'r ardoll, a nodwyd mai'r gyfradd genedlaethol yw 75c heb gynnwys TAW ar gyfer y raddfa isaf (sy'n cynnwys meysydd gwersylla a hosteli) a £1.30 heb gynnwys TAW ar yfer y raddfa uchaf. Nodwyd y bydd disgwyl i bawb sy'n aros dros nos dalu'r ardoll ond fod eithriadau yn bodoli. Eglurwyd fod y Cyngor wedi ystyried y potensial o gyflwyno ardoll er nifer o flynyddoedd, gyda gwaith ymchwil Elwa o Dwristiaeth o 2018 wedi amlygu'r ardoll fel y ffynhonnell fyddai'n dod a'r mwyaf o incwm i Wynedd i fuddsoddi yn yr economi ymweld.

Esboniwyd mai'r gofyn heddiw yw penderfynu os dylid gweithredu trefn ymgynghori gyhoeddus, a bydd y canlyniadau yn derbyn ystyriaeth pan fydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Cyngor Llawn. Amlygwyd fod y Cyngor yn cyd-weithio'n agos a Chonwy ac Ynys Môn ar gynnal ymchwil asesiadau effaith, a bod trafod wedi bod gyda Chyngor Caerdydd sydd wedi penderfynu mabwysiadu ardoll yn dilyn proses ymgynghori.

Nodwyd fod yr asesiadau effaith wedi'u datblygu dan arweiniad Llywodraeth Cymru, a nodwyd fod yr asesiad yn nodi y gellid gweld ar ei waethaf golli 50 o swyddi neu greu 21 o swyddi ar ei orau. O ran y refeniw, mynegwyd ei fod yn amrywio o £2.4m wrth ddefnyddio un set o ddata i dros £12m os defnyddir un arall. Rhagwelir felly y bydd y swm yn uwch nac yr hyn sydd wedi ei nodi yn y Cynnig Ardoll.

Eglurwyd fod y drefn o ymgynghori wedi'i osod yn y ddeddf, ac mae'n gosod allan yn glir lle gellir buddsoddi incwm yr ardoll, ynghyd a'r angen i sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll ar lefel awdurdod lleol. Amlygwyd fod y cynnig yn amlygu y dylai incwm gael ei fuddsoddi mewn prosiectau a gweithgareddau sy'n cyd-fynd ag egwyddorion economi ymweld cynaliadwy Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 megis gwella toiledau, cludiant cyhoeddus a chefnogi digwyddiadau.

Mynegwyd os bydd cefnogaeth, y bwriad yw cynnal proses ymgynghori ar 20fed o Fai am gyfnod o wyth wythnos cyn dychwelwyd yn ôl i'r Cyngor Llawn ar 24 Medi. Pwysleisiwyd na wneir unrhyw benderfyniad terfynol ar fabwysiadu'r Ardoll tan ar ôl y broses ymgynghori.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd dealltwriaeth o'r buddiannau fydd o gael ardoll, a chytunwyd ar syniad mewn egwyddor ond manylwyd fod pryderon yn ogystal megis sut i'w orfodi. Nodwyd er bod yr adroddiad yn amlygu sut y bydd yn dod ag arian i mewn nad yw'r adroddiad yn dangos sut y gall weithio heb ddod ag effaith negyddol ar dwristiaeth yn y sir. Mynegwyd fod twristiaeth a'r maes lletygarwch yn effeithio ar lot o fusnesau a bod cyflwyno'r ardoll yn gallu bod yn risg o leihad mewn busnes. Pwysleisiwyd y dylid dal yn nol er mwyn gweld beth yw'r effaith ar siroedd eraill a chasglu data cyn gwneud penderfyniad.

Atgoffwyd mai penderfynu ar fynd i ymgynghoriad mae'r adroddiad heddiw er mwyn sicrhau fod lleisiau yn cael ei glywed, gan drigolion, gan bobl sy'n gweithio yn y maes twristiaeth ac yn berchnogion busnesau. Mynegwyd fod twristiaeth yn cael effaith ar feysydd megis yr iaith ac y buasai hyn yn rhoi mewnbwn i'r costau yn lleol, ond amlygwyd nad yw hyn yn rhan o'r penderfyniad heddiw.

Pwysleisiwyd fod llawer o ymgynghoriadau yn cael ei gynnal gan y Cyngor. Ychwanegwyd fod treth ar ystafelloedd yn barod yn 20% i fusnesau ac felly oes angen codi mwy. Mynegwyd fod yr economi yn fregus yn barod ac felly bod angen bod yn ofalus nad oes negeseuon gwrth dwristiaeth yn cael ei rhannu.

Cyfeiriwyd fod twristiaeth yn lleihau yn y sir ar hyn o bryd o ganlyniad i benderfyniadau megis codi treth busnes ac erthygl 4, a bod angen dal yn ôl a chael cyfnod i sefydlogi. Tynnwyd sylw at wledydd tramor ble mae treth lletygarwch oddeutu 7% ac felly yn llawer is 'na Gwynedd, a bod angen data pellach.

Mynegwyd ei bod yr amser iawn i ymgynghori a tynnwyd sylw at Gaeredin sydd ar ardoll uchaf yn Ewrop. Amlygwyd fod nifer ymwelwyr wedi codi oherwydd bod yr arian wedi ei fuddsoddi i wella'r ddinas. Datganwyd fod hwn yn gyfle i wella profiad ymwelwyr a thrigolion.

Croesawyd yr ymgynghoriad ond amlygwyd nad oedd yr adroddiad yn amlygu gor-dwristiaeth sydd yn y sir. Ymhelaethwyd fod manteision o'r arian yn cael ei ddefnyddio i liniaru'r effaith negyddol ar gymunedau a bod angen buddsoddi mewn twristiaeth ond heb annog mwy o dwristiaeth. Mynegwyd yr angen i eirio'r ymgynghoriad yn dda a gofynnwyd pwy fydd yn

craffu ar y geiriad ei hun. Ymatebodd y Swyddog Monitro drwy nodi'r broses yn unol â'r ddeddf.

Amlygwyd fod heriau yn amlwg gyda thwristiaeth ond fod elfennau positif drwy'r bwrlwm mae'n ei greu a rhaid ymfalchïo fod ymwelwyr ar draws y byd yn ymweld a'r sir. Mynegwyd fod potential gyda'r ardoll i fuddsoddi'r arian i gefnogi busnesau a'i fod yn gyfle cyffroes i'w wario mewn ffordd gynaliadwy ac i sicrhau fod trigolion yn gallu mwynhau byw yn yr ardal.

Cefnogwyd y penderfyniad gan nodi bydd pobl ei ward yn hapus o weld yr arian yn dod i mewn i fuddsoddi i wella cyfleusterau ac y dylid cymryd mantais i godi safonau ac i blismona unigolion sy'n amharchu'r ardal.

O ran y data, nodwyd nad oes data ar gael yn lleol er mwyn gweld beth yw effaith yr ardoll ond fod data o wledydd eraill y gellir ei ddefnyddio. Amlygwyd os yn dal yn ôl ac yn disgwyl i weld canlyniadau mewn siroedd cyfagos gall fynd yn broses hir oherwydd prosesau'r ddeddf. Mynegwyd y bydd yr ymgynghoriad yn creu data o farn pobl leol a busnesau a fydd yn cael ei ddefnyddio i wneud y penderfyniad ym mis Medi.

Gofynnwyd i bobl Gwynedd, os yn cael ei gytuno heddiw, i ymateb i sicrhau fod lleisiau yn cael eu clywed.

Cefnogwyd y syniad mewn egwyddor ond fod angen bod yn gwbl glir i drethdalwyr. Mynegwyd pwysigrwydd cyplysu'r penderfyniad hwn ynghyd ac Erthygl Pedwar a'r Premiwm, gan sicrhau nad oes sgil effeithiau sydd heb eu rhagweld yn taro pobl leol yn negyddol. Pwysleisiwyd yr angen i fod yn ofalus wrth gyflwyno, ond efallai ei fod yn ffordd decach o gynyddu incwm nac yw'r premiwm.

Holwyd beth oedd y risg o'i oedi am flwyddyn, ymatebwyd drwy nodi nad yw oedi am newid y sefyllfa o ran data gan fod cyfnod paratoi o flwyddyn cyn mynd yn weithredol ac felly ni fydd data ychwanegol ar gael.

Gofynwyd pe bai'r dreth yma yn cael ei roi ar bobl leol yn ogystal, be fyddent yn mynd i aros yn rhan arall o'r sir ar eu gwyliau. Ymatebwyd drwy nodi ei fod yn dreth a fydd yn cael ei roi ar unrhyw un sydd yn aros yng Ngwynedd dros nos.

Cynigwyd gohirio'r eitem oherwydd efallai y bydd bwlch yn yr ymgynghoriad, a bydd modd dadansoddi'r data Conwy a Môn er mwyn cael mwy o wybodaeth. Eglurwyd y bydd modd cymryd amser er mwyn sicrhau fod ymgynghoriad Gwynedd yn gywir. Pleidleisiwyd ar y cynnig, a bu i'r cynnig syrthio felly pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol.

**PENDERFYNWYD**

1. **I gyhoeddi Adroddiad Cynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd;**
2. **I gytuno i gynnal ymgynghoriad ar y Cynnig i gyflwyno Ardoll yn unol â'r rhestr ymgynghoron ym mharagraff 5.4 a 5.5 o'r adroddiad yma;**
3. **I hysbysu Awdurdod Cyllid Cymru, yn unol â'r statud, o'r bwriad i ymgynghori ar gyflwyno'r Ardoll.**

## 12. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth gan nodi ei bod yn ofynnol i gyflwyno adroddiad yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor. Amlygwyd nad oes newid sylweddol wedi ei wneud o ran y cydbwysedd gwleidyddol ac felly dim ond newidiadau bychain sydd i'w penderfynu o ran trefniadau pwyllgorau.

**PENDERFYNWYD cytuno i:**

- **fabwysiadu'r rhestr o bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol fel y nodwyd yn Atodiad A, ynghyd â mabwysiadu'r dyraniad seddau a'r uwch gyflogau a nodwyd yn yr atodiad.**
- **ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol**
- **mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn: Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi - Grŵp Plaid Cymru**

**Pwyllgor Craffu Cymunedau - Grŵp Annibynnol**
**Pwyllgor Craffu Gofal 0 Grŵp Annibynnol**

## 13. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH 2026/27

Gwahoddwyd y Cyngor i benodi cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar gyfer 2026/27.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am 2026/27.**

## 14. PENODI AELODAU I'R PWYLLGOR SAFONAU – ARGYMHELLION Y PANEL CYFWELD

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro yn argymell i'r Cyngor benodi Carys Edwards a Neil Hawkins yn Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o 6 blynedd.

**PENDERFYNWYD penodi Carys Edwards a Neil Hawkins yn Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o 6 blynedd.**

## 15. RHYBUDD O GYNNIG

(A) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Einir Williams o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i heiliwyd.

Mynegwyd cefnogaeth frwd i'r cynnig gan aelodau gan nodi:

- Fod y mater yn agos at galon nifer o Aelodau.
- Derbyniwyd enghreifftiau o enwau hanesyddol sydd á gwreiddiau dwfn mewn chwedlau, daearyddiaeth a hanes Cymru. Nodwyd yr angen i'w cadw drwy'r mapiau.
- Amlygwyd fod enwau tai yn diflannu yn ogystal ag bod angen ymrwymiad gan y Cyngor i beidio bod yn rhagrithiol ac i ddefnyddio cyfeiriadau Cymraeg mewn gohebiaeth.
- Talwyd teyrnged i ŵr a oedd wedi brwydro yn galed am y mater hwn sef diweddar Eilian Williams, Dyffryn Peris, a diolchwyd iddo am ei waith.
- Pwysleiswyd fod yr enwau yma yn rhan o ddiwylliant Cymru, ac mae wir angen eu cadw.
- Cytunwyd i ychwanegu cymal i alw ar awdurdodau eraill ar draws Cymru ddilyn y cynnig hwn.
- Amlygwyd fod y Cyngor yn gwneud gwaith yn cael ei wneud ers blynyddoedd i geisio dylanwadu ar Lywodraeth Cymru a bod gwaith wedi ei wneud i gadw enwau llefydd Cymraeg.
- Mynegwyd nad oes gan Lywodraeth Cymru bŵer uniongyrchol ar y mater hwn ond gobeithiwyd y byddant yn edrych ar fater yn ddifrifol a rhoi pwysau ar yr AO i sicrhau eu bod ar fapiau.
- Cynnig gwelliant – fod y Cyngor hwn yn galw ar Swyddog Monitro i anfon memorandwm arddel enwau Cymraeg yn unig. Ymatebwyd drwy nodi fod enwau strydoedd yn swyddogol ac felly fod ffiniau cyfriethiol, ond y bydd y Cyngor pan yn bosib yn arddel yr enw Cymraeg ac i withio y ffiniau cyfriethiol gymaint a sydd yn bosib.

- Addewidwyd y bydd y Cyngor wrth ysgrifennu at yr Arolwg Ordnans yn gofyn am gyfarfod swyddogol i drafod y mater.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Dwi eisiau mynegi pryder dwfn ac angerddol ynghylch polisi presennol yr Arolwg Ordnans (AO) sy'n arwain at ddileu, tanseilio ac anwybyddu enwau lleoedd Cymraeg sydd wedi bod yn rhan o'n tirwedd ers canrifoedd.**
**Ar hyn o bryd, mae mapiau Arolwg Ordnans yn:**

- **Disodli enwau Cymraeg hanesyddol â ffurfiau Saesneg nad oes ganddynt sail na thraddodiad, e.e. *The Mushroom Garden* am Goed Cerrig y Frân, *Heather Terrace Path* am Lwybr Gwregys.**
- **Rhoi enwau Saesneg ochr yn ochr ag enwau Cymraeg, gan greu'r argraff bod yr enwau Cymraeg yn ddewisol neu'n eilradd, e.e. *Cwm Cneifion / Nameless Cwm*, *Bala Lake / Llyn Tegid*. 'Snowdon/Yr Wyddfa (er gwaethaf y ffaith nad yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn defnyddio'r enw *Snowdon* bellach.)'**

**Mae'r Cyngor hwn yn beirniadu'r arferion hyn, gan eu bod yn cyfrannu'n uniongyrchol at golli enwau Cymraeg, ac felly'n tanseilio ein hiaith, ein hanes a'n hunaniaeth genedlaethol. Pan fo'r Arolwg Ordnans yn mabwysiadu enw Saesneg, mae'n ymddangos ar wefannau, arwyddion, cyhoeddiadau, a'r cyfryngau ac o ganlyniad, mae'r enw Cymraeg yn cael ei wthio i'r cysgod.**

**Mae hyn yn digwydd hyd yn oed ymhlith siaradwyr Cymraeg ifanc, sydd yn aml yn cael eu harwain i gredu mai'r enw Saesneg yw'r "safonol". Dyma sut mae iaith yn cael ei gwanhau, nid mewn un ergyd, ond mewn mil o gamau bach.**

**Mae enwau lleoedd Cymraeg yn rhan o'n DNA diwylliannol. Maent yn adrodd hanes y tir, y bobl, y chwedlau, y gwaith, y bywyd. Nid oes gan neb hawl i'w dileu na'u disodli.**

**Felly, dwi eisiau rhoi cynnig i'r cyngor hwn heddiw ein bod ni yn :**

1. **Ysgrifennu at yr Arolwg Ordnans i alw arnynt i roi diwedd ar y polisi niweidiol presennol, ac i fabwysiadu egwyddor glir a syml a defnyddio enwau lleoedd tirweddol Cymraeg yn unig ar fapiau yng Nghymru.**
2. **Galw ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd yn ffurfiol ac i sicrhau bod yr Arolwg Ordnans yn parchu ac yn diogelu enwau Cymraeg hanesyddol.**
3. **Galw ar weddill Awdurdodau Cymru i ddilyn y cynnig hwn.**

**Nid yw hyn yn fater o fapiau yn unig. Mae'n fater o hunaniaeth, parch a chyfiawnder diwylliannol.**

(B) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan yr Arweinydd y Cyngor o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i heiliwyd. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Mae'r Cyngor yn nodi llofruddiaeth yr Aelod Seneddol, Jo Cox ar 16/06/2016, ddeng mlynedd yn ôl eleni. (Bu i'r AS David Amess hefyd gael ei lofruddio ar 15/10/2021).**

**Mewn byd sy'n gynyddol dreisgar ac ymosodol, trist yw'r ffaith bod aelodau etholedig, o bob plaid ac ar bob lefel o lywodraeth, yn gynyddol agored i sarhad a chamdriniaeth. Dengys ymchwil diweddar fod 72% o Gynghorwyr wedi dioddef ryw fath o fygythiad - boed yn eiriol neu'n waeth - yn ystod y 12 mis diwethaf.**

**Mae'r Cyngor hwn yn credu nad oes lle i ymddygiad bygythiol na threisgar mewn gwleidyddiaeth. Mae Cynghorwyr Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i fodelu'r safonau uchaf o barch a chwrteisi wrth ymwneud â'n gilydd ac â'r cyhoedd, ac rydym yn dymuno i'r un parch gael ei ddangos tuag atom.**

**Galwn ar aelodau'r Cyngor hwn ac aelodau Cynghorau Cymuned a Thref drwy Wynedd i gefnogi ymgyrch Un Llais Cymru, NALC a SLCC "Adduned Parch a Chwrteisi".**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30yp a daeth i ben am 5:20yp.

______________________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Y Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **2 Gorffennaf 2026** |
| **Pwnc** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2025/26** |
| **Awdur** | **Mr Hywel Eifion Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau** |
| **Swyddog Perthnasol** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |

**Cefndir**

**1.** Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol, sydd wedi ei sefydlu i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd.

**2.** Ers sawl blwyddyn bellach mae'r Pwyllgor wedi bod yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i egluro'r hyn y mae'n ei wneud ac i hyrwyddo ei waith, ac yn ei gyflwyno'n ffurfiol i gyfarfod o'r Cyngor Llawn. Erbyn hyn mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi cyflwyno dyletswydd statudol ar y pwyllgor i gyhoeddi adroddiad blynyddol ac ar yr awdurdod i'w ystyried.

**3.** Mae'r Pwyllgor felly yn cyflwyno'r adroddiad hwn i sylw'r Cyngor. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei osod ar dudalen y pwyllgor ar wefan y Cyngor ac yn cael ei gylchredeg i gynghorau cymuned a thref Gwynedd.

**Argymhelliad**

**4.** Derbyn yr adroddiad

**<u>Sylwadau Swyddogion Statudol</u>**

**Swyddog Monitro**

Swyddog Cyfrifol

**Prif Swyddog Cyllid**

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol

# PWYLLGOR SAFONAU

# CYNGOR GWYNEDD

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# 2025 – 2026

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

Mae safonau mewn bywyd cyhoeddus yn bwnc sy'n cael cryn sylw ar hyn o bryd gan bwysleisio pwysigrwydd ymddygiad unigolion ar gyfer cynnal hyder y cyhoedd yn y modd y gwneir penderfyniadau ar eu rhan gan eu cynrychiolwyr etholedig. Rwyf yn hyderus y gall y pwyllgor hwn barhau i roi cymorth ac arweiniad i aelodau Cyngor Gwynedd ac aelodau'r cynghorau cymuned, tref a dinas o fewn y sir.

Hoffwn hefyd gymryd y cyfle yma i ddiolch i Aled Jones a Sonal Khade. Daeth eu haelodaeth i ben yn ystod y flwyddyn, ac yn achos Aled, roedd hynny ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth i'r Pwyllgor, yn cynnwys cyfnod fel yr Is-gadeirydd. Mae'n bleser ar yr un pryd croesawu aelodau newydd i'r Pwyllgor sef Carys Edwards a Neil Hawkins a benodwyd fel Aelodau Annibynnol yn ddiweddar.

**Hywel Eifion Jones**

**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau**

## RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

Mae cefnogi a hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad yn rhan greiddiol o’r gwaith yma. Cyflawnir hyn drwy gyfuniad o fod ar gael i gynghori , cyngor rhagweithiol a hyfforddi. Yn fy marn i mae hyfforddiant a dealltwriaeth o’r Cod Ymddygiad yn rhoi sylfaen i aelodau fod yn gyfarwydd â hanfodion y Cod. Mae hyn yn arbennig o amgylch y darpariaethau buddiannau personol, lle maen nhw’n codi a sut i ymateb. Nid yn unig o safbwynt priodoldeb ond hefyd o safbwynt cefnogi paratoi yn briodol ar gyfer cyfarfodydd a gweithredu eich swyddogaethau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag mae’n siomedig nodi eto fod nifer o aelodau yn parhau heb fynychu'r cyrsiau llawn sydd wedi eu cynnal. Bydd angen rhoi ystyriaeth I'r gyfundrefn hyfforddi Cod Ymddygiad wth baratoi am etholiad 2027 .

Yn y pen draw, consensws ynghylch y math o Gyngor yr ydym am ei weld a gweithio ynddo sy'n cynrychioli'r sylfaen orau. Nid yw diwylliant o briodoldeb yn llyffetheirio dadl wleidyddol iach a grymus. Ond, mae yn rhoi hyder i’r cyhoedd ynglŷn â’r math o ansawdd y llywodraethant sydd yng Ngwynedd. Mae hyn yn cefnogi canolbwyntio ein gwaith ar ymyriadau, arweiniad a chefnogaeth sy'n datblygu ac yn cynnal y safonau a ddisgwylir.

**Iwan Evans**

**Swyddog Monitro**

**Cyngor Gwynedd**

## CYFLWYNIAD

Sefydlwyd y Pwyllgor yn 2001 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Gwna hyn mewn sawl ffordd:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau
- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.
- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd
- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

## YR ADRODDIAD BLYNYDDOL

Diwygiwyd Deddf Llywodraeth Leol 2000 gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gan ei gwneud yn ddyletswydd statudol bellach i bwyllgorau safonau adrodd i'w awdurdod, cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, mewn perthynas â'r flwyddyn honno (h.y. y cyfnod o 12 mis yn gorffen ar 31 Mawrth).

Rhaid i'r adroddiad ddisgrifio sut y mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi eu gweithredu yn ystod y flwyddyn, gan yn benodol gynnwys crynodeb o :

- Yr hyn sydd wedi'i wneud i gyflawni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol a roddwyd i'r pwyllgor gan Ddeddf 2000

- Adroddiadau ac argymhellion a wneir neu a gyfeirir at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Camau a gymerwyd gan y pwyllgor ar ôl iddo ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath;

- hysbysiadau a roddir i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru

Rhaid i adroddiad gan bwyllgor safonau cyngor sir hefyd gynnwys:

- Asesiad y pwyllgor o'r graddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd statudol mewn perthynas â safonau ymddygiad.

Gall yr adroddiad gynnwys:

- Argymhellion i'r awdurdod ynghylch unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn cysylltiad ag ef.

Rhaid i'r awdurdod ystyried pob adroddiad blynyddol a wneir gan ei bwyllgor safonau cyn diwedd 3 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r awdurdod yn derbyn yr adroddiad.

# AELODAU'R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor neu lywodraeth leol ('Aelodau Annibynnol'). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau'r cynghorau cymuned ('Aelod Pwyllgor Cymunedol'), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ddod o blith yr Aelodau Annibynnol.

## Aelodau Annibynnol

**Hywel Eifion Jones (aelod ers 2019, Cadeirydd)**

Wedi'i eni a'i addysgu yn Nyffryn Clwyd, roedd Eifion yn uwch reolwr gyda Banc Barclays yn gwasanaethu 34 mlynedd mewn nifer o ganghennau ledled Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae wedi ymgymryd â llawer o swyddogaethau gwasanaeth cyhoeddus gan gynnwys Cynghorydd Sir gyda Chyngor Ynys Môn ac aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae'n Ynad ar fainc Gogledd Orllewin Cymru, yn aelod o Fyrddau Pensiwn Gwynedd, Betsi Cadwaladr ac Adra. Mae hefyd yn aelod o Banel Dyfarnu Cymru sy'n penderfynu honiadau o dorri'r cod ymddygiad gan aelodau etholedig Cynghorau Sir a Chymuned.

**Mark Jones (aelod ers Rhagfyr 2022, Is-Gadeirydd)**

Mae Mark yn byw ym Mangor ac yn gyn swyddog heddlu gyda 30 mlynedd o brofiad mewn amrywiaeth o rolau, gan gynnwys fel Pennaeth Safonau Proffesiynol Heddlu Gogledd Cymru. Gwasanaethodd fel Llywodraethwr Cymunedol ac Is-gadeirydd yn Ysgol Glanadda am 20 mlynedd. Mae hefyd yn gyn-gadeirydd Adra, lle mae'n parhau i wasanaethu fel aelod o'r Bwrdd.

**Non Gibson (aelod ers 2025)**

Mae Non yn byw ym Methel, Arfon gyda dros 23 o flynyddoedd o brofiad fel yn yr Heddlu gan gwblhau ei gyrfa fel rhingyll. Mae wedi gweithio ar ystod o faterion a

Chadeirio Tîm Ymyrraeth Cynnar ynghyd a gweithio ar faterion aml asiantaeth ac wrth gwrs profiad o weithio o fewn y gyfundrefn cyfiawnder .

**Aled Jones (aelod o 2016 - 2026)**

Brodor o Lanbedr Pont Steffan, Ceredigion yn wreiddiol yw Aled. Astudiodd radd mewn Cymraeg a Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl graddio ym 1999, symudodd i Gaernarfon i weithio gyda chwmni cyfieithu Cymen a daeth yn gydberchennog ar y cwmni yn 2007. Bellach mae'n cyflogi tîm o bron 30 aelod staff a dros 20 o gyfieithwyr llawrydd eraill. Mae'n byw ym Mangor gyda Tegwen a'r plant, Cai a Beca. Yn ddiweddar, cwblhaodd gwrs Arweinyddiaeth a Rheoli Lefel 5 yr ILM ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor ac Abertawe. Nod y rhaglen yw creu amgylchedd i alluogi arweinwyr i ddatblygu busnesau arloesol a meithrin sgiliau arwain o'r radd flaenaf. Yn rhinwedd ei swydd fel cyfieithydd ar y pryd, mae ganddo brofiad helaeth o fynychu cyfarfodydd ar bob lefel o lywodraethiant, o'r Undeb Ewropeaidd i gyngor cymuned, felly mae mewn sefyllfa dda i arsylwi ar ymddygiad a safonau gan adnabod yr arferion gorau.

**Sonal Khade (aelod Mai – Hydref 2025)**

Mae Sonal yn byw ym Mhwllheli a gyda chefndir mewn cyllid a rheolaeth cytundebau yn y sector gyhoeddus. Bellach yn hunan gyflogedig. Mae wedi gweithio ar lefel uchel o fewn llywodraeth leol ac iechyd gan arwain ar brosiectau a materion archwilio.

## Penodi Aelodau Annibynnol Newydd

Daeth tymor swydd Aled Jones i ben yn ystod y flwyddyn ar ôl cyfnod o 10 mlynedd o wasanaeth i'r Pwyllgor. Yn ogystal â hyn fe gamodd Sonal Khade yn ôl o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Hysbysebwyd y swyddi gweigion yn unol â'r darpariaethau statudol a derbyniwyd tri chais.

Sefydlwyd Panel Penodi, a oedd yn cynnwys Mr Eifion Jones , Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, y Cynghorydd Cymuned Richard Parry Hughes (Aelod Cymunedol o'r Pwyllgor Safonau), Cynghorwyr Gwynedd Cyng. Ioan Thomas Cadeirydd y Cyngor a'r Cynghorydd Anne Lloyd Jones Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth a Mr Griffith Jones fel aelod lleyg statudol .

Bu'r Panel, gyda chefnogaeth a chyngor y Swyddog Monitro, yn cyfweld â'r ymgeiswyr ac ar ôl ystyried y meini prawf a nodir yn y fanyleb person ar gyfer y rôl, argymhellodd y Panel benodi Carys Edwards a Neil Hawkins . Cadarnhawyd y penodiadau gan gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 14 Mai 2026.

**Carys Edwards**

Mae Carys sydd yn byw yn Parc , y Bala wedi bod mewn swyddi uwch-swyddog Yng Nghyngor Ynys Môn a Llywodraeth Cymru. Mae eisoes yn gwasanaethau fel aelod lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae hefyd wedi treulio cyfnod ar fwrdd rheoli Grŵp Cynefin a Bwrdd Rheoli bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr fel cynghorydd annibynnol.

**Neil Hawkins**

Mae Neil yn byw ym Mangor a gyda chefndir ym maes addysg ac elusennol Hyd at 2021 roedd yn Bennaeth Coleg Concord, ysgol ryngwladol . Cadeiriodd yr Elusen "Humanists UK" hyd 2025 ac mae yn gwasanaethu fel Cadeirydd elusennau "Befrienders Worldwide" a "Tough to Talk" , elusennau atal hunanladdiad.

## Aelod Pwyllgor Cymunedol

**Cynghorydd Richard Parry Hughes (aelod ers 2017)**

Magwyd Richard ar fferm yn Llanaelhaearn ac aeth i Ysgol Ramadeg Pwllheli, Coleg Amaethyddol Glynllifon ,a Choleg Seale Hayne (Prifysgol Plymouth) . Mae ganddo ôl radd mewn Rheolaeth Fferm. Bu yn gweithio i bartneriaeth filfeddygon yn Chwilog am dair blynedd ac yn ddarlithydd rhan amser yng Ngholeg Glynllifon, cyn prynu fferm Penfras Uchaf Llwyndyrys lle bu ei deulu yn denantiaid arni am dros dri chan mlynedd. Mae'n briod ac Eleri ac mae ganddynt dri mab. Yn gyn arweinydd Cyngor Gwynedd, mae yn dal i ffermio. Mae ganddo brofiad helaeth o bwyllgorau gan ddal swyddi fel cadeirydd Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru cyn ymgymryd â chael ei ethol fel aelod o gyrff cyhoeddus. Bu yn aelod o Gyngor Sir Gwynedd o 1992 hyd 1996 ac yn aelod o Gyngor Gwynedd o 1996 i 2008. Bu'n arwain Cyngor Gwynedd o 2003 i 2008 a hefyd yn lefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar yr Amgylchedd a

Chynllunio yn ystod y cyfnod yma. Mae'n aelod brwd o Gwmni Drama Llwyndyrys a chefnogwr amryw o gymdeithasau eraill lleol megis, Antur Aelhaearn a Chyfeillion Eglwys Carnguwch. Mae'n gweithio'n wirfoddol fel gweithiwr achos i'r Farm Community Network . Mae'n aelod o Gyngor Cymuned Llannor ers 1992.

## Aelodau Cyngor Gwynedd

**Cynghorydd Beth Lawton (aelod ers 2017)**

Mae Beth yn byw ym Mryncrug ac yn berchen ffatri leol. Mae'n Gynghorydd Sir dros ardal Bro Dysynni sydd yn cynnwys pentrefi Bryncrug, Abergynolwyn a Llanegryn. Mae hefyd yn Gynghorydd Cymuned ac yn gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn. Mae'n weithgar ar sawl pwyllgor yn y gymuned yn cynnwys Carnifal Abergynolwyn, Ffair Wledig Bryncrug, Pwyllgor Apêl Ysbyty Tywyn a llawer eraill. Mae yn aelod o Ferched y Wawr ac yn arwain yn Eisteddfod Abergynolwyn. Mae yn aelod o Bwyllgor Craffu Gofal a Thai a Phwyllgor Craffu Addysg ac Economi Cyngor Gwynedd ac wedi bod yn Gadeirydd ar y ddau bwyllgor ers bod yn aelod. Mae hefyd yn gyfarwyddwr a Chadeirydd Cwmni Hamdden Byw'n Iach.

**Cynghorydd Anne Lloyd-Jones (aelod ers 2017)**

Mae Anne yn byw ac yn rhedeg busnes twristiaeth fferm yn Nhywyn, ac mae wedi cynrychioli Tywyn ar Gyngor Gwynedd ers 1995 a chyn hynny roedd yn aelod o Gyngor Dosbarth Meirionnydd am wyth mlynedd.

Etholwyd hi gyntaf fel aelod Gyngor Tref Tywyn yn 1985 a bu'n Faer yn 1991 , ac eto yn 2004 a bu'n Gadeirydd Cyngor Gwynedd yn 2009. Mae hi'n gyn Gadeirydd pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ac aelod sefydlol o Gartrefi Cymunedol Gwynedd.

Roedd hi'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Meirionnydd, ac yn Gadeirydd presennol Cronfa Apêl Ysbyty Tywyn a'r Cylch.

Mae hi'n aelod ac yn gyn-gadeirydd Ysgol Penybryn ac yn aelod ar gorff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Tywyn.

Roedd Anne yn Gadeirydd Twristiaeth Canolbarth Cymru rhwng 2001-2016, yn aelod sefydliadol ac yn gyn-lywydd a Thrysorydd Clwb Inner Wheel Tywyn a bu'n Drysorydd cangen leol yr NSPCC ers 1989.

Mae Anne yn briod â John ac mae ganddyn nhw dair merch a dwy wyres sy'n efeilliaid.

**Cynghorydd Dewi Owen (aelod ers 2022)**

Mae Dewi yn ffermio yn Aberdyfi, ac wedi bod yn Gynghorydd Sir dros Aberdyfi a Phennal ers pymtheg mlynedd, ac ar Gyngor Cymuned Aberdyfi ers pum mlynedd ar hugain. Cafodd ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd yn 2014. Mae Dewi wedi bod yn Gadeirydd ar sawl pwyllgor craffu, ac ar hyn o bryd yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar Gyngor Gwynedd, ac wedi ymuno gyda'r Pwyllgor Safonau ers 2022.

Mae Dewi yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Tywyn, ac yn aelod o sawl pwyllgor lleol, fel Sioe Sir Meirion, Undeb Amaethwyr Cymru ac 'Aberdyfi Advertising & Improvements Committee.

## Y Swyddog Monitro

Mae Swyddog Monitro'r Cyngor, Iwan Evans, ynghyd a swyddogion o'r Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Democrataidd yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau yn ei waith. Mae gan y Swyddog Monitro rôl statudol i sicrhau bod y Cyngor, ei aelodau a'i swyddogion yn gweithredu yn briodol ac yn gyfreithlon.

**Manylion Cyswllt**

- Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro. E-bost: IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru Ffôn (01286) 679015
- Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau a Dirprwy Swyddog Monitro. E-bost: sionhuws@gwynedd.llyw.cymru Ffôn: (01286) 679168

# GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2025 - 2026

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol dros y flwyddyn (ceir rhaglen waith lawn y Pwyllgor yn yr **Atodiad 1**):

## Achosion fu gerbron y Pwyllgor

Ni chyfeiriwyd adroddiad ar gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad at y pwyllgor gan yr Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn.

## Cwynion eraill

Hysbysir y Pwyllgor hefyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon ar y cwynion hynny na chyfeirir at y Pwyllgor am benderfyniad, a cheir crynodebau ohonynt yn **Atodiad 2.**

## Goddefebau

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

NI dderbyniwyd cais a oddefeb yn ystod y flwyddyn

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol Cymru

Mae Fforwm Genedlaethol Pwyllgorau Safonau Cymru bellach wedi ei sefydlu, er mwyn rhannu arfer da a chydlynu ymarfer a chreu rhwydwaith cymorth ar gyfer cadeiryddion. Mae cadeiryddion holl bwyllgorau safonau Cymru yn mynychu'r cyfarfodydd ynghyd â chynrychiolaeth o Swyddogion Monitro i ddarparu cyngor proffesiynol. Darperir yr ysgrifenyddiaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## Cefnogaeth i Aelodau Cynghorau Cymuned , Tref a Dinas

Mae 3 elfen o gefnogaeth y gellir ei gynnig i aelodau a chlercod cynghorau cymuned ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad:

1. **Cygor ar faterion penodol** - drwy gysylltu gyda'r Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro.

2. **Gwefan Cyngor Gwynedd** - Tudalen Pwyllgor Safonau yn cynnwys o wybodaeth a chanllawiau yn ogystal â dolenni i wefannau eraill defnyddiol.

3.**Hyfforddiant** - y bwriad yw cynnal hyfforddiant rhithiol ar ffurf 'webinar'. Byddai hyn yn creu adnodd y gallai aelodau ei wylio pan yn gyfleus iddynt yn hytrach na gorfod dibynnu ar sesiynau mewn mannau ac ar amseroedd penodol.

## Dyletswydd Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol

Mae adran 52A(1)(a) Deddf 2000 (fel y diwygiwyd gan Deddf 2021) yn ei gwneud yn ofynnol i arweinydd a grŵp gwleidyddol sy'n cynnwys aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp. Diffinnir "grŵp" at y diben hwn fel 2 neu fwy o aelodau sy'n rhoi hysbysiad i'r Swyddog Priodol eu bod yn dymuno cael eu trin fel grŵp at ddibenion gofynion cydbwysedd gwleidyddol a dyrannu seddi ar Bwyllgorau'r Cyngor.

Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn glir nad yw'r ddyletswydd hon yn gwneud arweinwyr grŵp gwleidyddol yn atebol am ymddygiad eu haelodau, gan fod ymddygiad yn fater o gyfrifoldeb unigol. Fodd bynnag, mae ganddynt rôl resymol i gymryd camau o ran cynnal safonau, gosod esiampl, defnyddio eu dylanwad i hyrwyddo a diwylliant cadarnhaol, bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo safonau ymddygiad uchel yn eu grŵp a mynd i'r afael â materion cyn gynted ag y byddant yn codi. Petai arweinydd grŵp gwleidyddol yn methu ag ymwneud gyda'r ddyletswydd newydd mewn ffordd ystyrlon, gellir bosib ystyried ei bod yn dod ag anfri ar eu swydd , ac yn debygol o fod yn torri'r Cod.

Mae adran 62(3) o Ddeddf 2021 yn diwygio adran 54 o Ddeddf 2000 i ymestyn y swyddogaethau Pwyllgor Safonau i gynnwys monitro cydymffurfiaeth gan arweinwyr gwleidyddol grwpiau sydd â'r ddyletswydd newydd i hyrwyddo a chynnal safonau

ymddygiad uchel gan aelodau o eu grŵp. Dylai arweinwyr grwpiau a'r Pwyllgor Safonau gytuno ar ffurf ac amlder adroddiad o bob arweinydd grŵp i'r Pwyllgor, a fyddai wedyn yn ystyried pob adroddiad a Rhoi adborth i arweinwyr y grŵp. Rhaid i'r Pwyllgor Safonau hefyd ddarparu cyngor a hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau ar y ddyletswydd newydd. Ar ddechrau pob Tymor Cyngor dylai hyn ddigwydd o fewn chwe mis i'r etholiad a dylid ei adolygu o leiaf bob blwyddyn. Mae'r canllawiau hefyd yn awgrymu y gallai'r Pwyllgor Safonau gwrdd â grŵp arweinwyr o bryd i'w gilydd i adolygu trefniadau.

Ym Mis Tachwedd 2023, cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ag arweinwyr y tri grŵp gwleidyddol ar y Cyngor - Plaid Cymru , Grŵp Annibynwyr a Rhyddfrydwyr/Llafur i gytuno sut y dylid monitro'r ddyletswydd hon a natur ac amlder y wybodaeth y dylid ei chyflwyno i'r Pwyllgor. Dyma bellach yw sail cynnal a monitro'r drefn.

Yn ystod y flwyddyn yma llwyddwyd i gynnal cyfarfod rhwng yr Arweinyddion Grwpiau a'r Swyddog Monitro. mae'r drefn wedi ei chynnal eleni eto. Mae'r berthynas weithio gyda phob Arweinydd yn gadarnhaol a chefnogol . Er bod y sefyllfa ynglŷn â mynychu hyfforddiant yn siomedig gellir bod yn hyderus fod yr Arweinyddion yn gwerthfawrogi ac wedi cefnogi ymdrechion i gyfarch y mater yma. Mae'r berthynas gadarnhaol yma yn rhoi hyder y gellir adeiladu ymhellach ar fanteision y drefn newydd.

Atodiad 1

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2025-2026

**9 Mehefin 2025**

- Hunan Asesiad o waith y Pwyllgor yn ystod 2024/25
- Hyfforddiant Cynghorau Cymuned
- Cymeradwyo adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2024/25
- Adroddiad ar Ddatgan Buddiannau Personol mewn Cyfarfodydd
- Adroddiad rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau
- Ystyried penderfyniad yr Ombwdsmon ar gŵyn yn erbyn Cynghorydd Cymuned

**3 Tachwedd 2025**

- Adroddiad ar y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch
- Adroddiad ar y Drefn Ddatrys Fewnol
- Ystyried Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2024/25
- Cofnodion Fforwm Cenedlaethol Pwyllgorau Safonau
- Adroddiad rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau

**23 Chwefror 2026**

- Adroddiad ar Aelodaeth y Pwyllgor Safonau
- Rhaglen Waith Arfaethedig 2026 -2027
- Adroddiad rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau
- Diwygiadau Egwyddorion a Chod Ymddygiad Aelodau
- Adroddiad ar Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch Aelodau

# Atodiad 2

## PENDERFYNIADAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

**Crynodeb o adroddiad a gyhoeddwyd o dan adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 Rhif Achos: 202501611**

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cyn-Aelod ("y Cyn-Aelod") o gyngor cymuned ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod"). Honnwyd bod y Cyn-Aelod wedi methu â datgan buddiant mewn cyfarfod o'r Cyngor ym mis Mawrth 2025, ynglŷn â'i chysylltiad ag ysgol ("yr Ysgol") ac elusen ("yr Elusen").

Dechreuodd Swyddfa'r Ombwdsmon ymchwiliad i ystyried paragraffau 11(1) a 12(1) (buddiannau personol a rhagfarnllyd) o'r Cod. Cafwyd gwybodaeth gan y Cyngor a'r Elusen. Darparwyd sylwadau gan y Clerc, yr Achwynydd a'r Cyn-Aelod. Ymddiswyddodd y Cyn-Aelod o'r Cyngor yn ystod yr ymchwiliad.

Canfu'r ymchwiliad fod y Cyngor wedi gwneud rhoddion blynyddol i'r Elusen (a gefnogodd yr Ysgol) yn 2024 a 2025, ac roedd y Cyn-Aelod wedi bod yn weithiwr i'r Ysgol ac yn ymddiriedolwr yr Elusen ar y pryd. Canfuwyd, er bod y Cyn-Aelod wedi datgan diddordeb ynglŷn â'r mater yn 2024, roedd wedi methu â gwneud hynny am yr un mater yn 2025 ac felly, gallai fod wedi torri paragraffau 11(1) a 12(1) o'r Cod. Canfuwyd hefyd, fodd bynnag, nad oedd ei phresenoldeb yn effeithio ar ganlyniad y penderfyniadau a wnaed, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o fudd ariannol uniongyrchol neu arall i'r Cyn-Aelod a dim tystiolaeth o niwed i un arall oherwydd ei bod yn rhan o'r cyfarfodydd.

Canfu'r Ombwdsmon o ystyried y ffeithiau ynghylch y busnes sy'n cael ei ystyried, bod y toriadau yn ymddangos yn dechnegol eu natur. Felly, ar y cyd, gan ystyried natur gyfyngedig y mater, diffyg hyfforddiant neu fwriad, cyngor anghywir ac ymddiswyddiad y Cyn-Aelod, roedd yr Ombwdsmon yn fodlon nad oedd unrhyw doriadau a awgrymwyd yn ddigon difrifol i gyfiawnhau cyfeirio at y Pwyllgor Safonau er budd y cyhoedd.

Canfu'r Ombwdsmon nad oedd angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r materion a ymchwiliwyd.

**Penderfyniad a ddyroddwyd o dan baragraff 69(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000**

**Rhif Achos: 202506877**

**Crynodeb o'r gŵyn**

Honnwyd gan aelod o'r cyhoedd ("yr Achwynydd") fod yr Aelod wedi torri'r Cod trwy bostio datganiadau sy’n creu casineb ac ofn ar y cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â mewnfudo.

**Sut rydyn ni'n penderfynu a ddylid ymchwilio**

Er mwyn penderfynu a ddylid ymchwilio i dorri'r Cod Ymddygiad ("y Cod"), rydym yn cymhwyso prawf 2 gam. Yn gyntaf, rydym yn ystyried a oes tystiolaeth i awgrymu y gallai torri'r Cod fod wedi digwydd. Yn ail, rydym yn ystyried a yw er budd y cyhoedd i ymchwilio i'r materion y cwynwyd amdanynt. Rydym yn ystyried nifer o ffactorau budd y cyhoedd megis:

- difrifoldeb yr ymddygiad honedig
- a yw'r aelod wedi camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth neu wedi ceisio ennill, drostynt eu hunain neu eraill, ar draul cyhoeddus
- a oes angen ymchwiliad i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig
- a yw ymchwiliad yn gymesur yn yr amgylchiadau neu a fyddai, os caiff ei brofi, atgyfeirio at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn briodol.

**Fy Mhenderfyniad**

**(1) A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai fod wedi bod yn torri'r Cod Ymddygiad.**

Darparodd yr Achwynydd ddogfennaeth ategol sy'n cynnwys sgrinluniau o 2 bost cyfryngau cymdeithasol a wnaed gan yr Aelod. Mae eu natur a chynnwys yn ymwneud â mewnfudo anghyfreithlon ac maent yn amlwg wedi'u hanelu at y Cyngor a'r Heddlu.

Wrth asesu cwynion yn y Cod, mae angen ystyried natur yr honiadau a wnaed yn erbyn yr Aelod y cwynwyd amdanynt, yng nghyd-destun y dyletswyddau a'r rhwymedigaethau a osodir arnynt o dan y Cod ar gyfer aelodau etholedig/cyfetholedig. Mae'r Cod fel arfer ond yn berthnasol pan fo aelod o gyngor yn cyflawni swyddogaethau fel cynghorydd neu'n ceisio dibynnu mewn rhyw ffordd ar eu statws fel cynghorydd. Mae hyn yn berthnasol oherwydd, yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd a chyd-destun y sylwadau a wnaed, mae'n ymddangos bod yr Aelod yn gweithredu mewn rôl swyddogol mewn o leiaf un o'r postiadau cyfryngau cymdeithasol.

Cydnabyddir bod yr Achwynydd o'r farn bod sylwadau'r Aelod yn creu casineb ac ofn. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y postiadau yn cynrychioli barn yr Aelod. Nid yw'r sylwadau wedi'u cyfeirio at unigolyn penodol ac yn canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn y mae'n credu, y dylai'r Cyngor a'r Heddlu fod yn ei wneud am fewnfudo anghyfreithlon. Mae gan yr Aelod hawl i gynnal a rhannu ei farn, hyd yn oed os nad yw eraill yn cytuno, neu'n wir, yn cael eu tramgwyddo ganddynt.

Mae Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("ECHR") (fel y'i hymgorfforwyd yn Neddf Hawliau Dynol 1998) yn ymwneud â rhyddid mynegiant. Mae'n nodi:

"1. Mae gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant. Bydd yr hawl hon yn cynnwys rhyddid i gynnal barn ac i dderbyn a rhannu gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth gan awdurdod cyhoeddus a waeth beth fo'u ffiniau.

2. Gall arfer y rhyddid hyn, gan ei fod yn cario dyletswyddau a chyfrifoldebau, fod yn ddarostyngedig i'r fath ffurfioldeb, amodau, cyfyngiadau neu gosbau a ragnodir gan y gyfraith ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd... er mwyn atal anhrefn neu droseddu, er mwyn diogelu iechyd neu foesau, er mwyn diogelu enw da neu hawliau eraill".

Mae Erthygl 10 yn hawl gymwys ac felly gellir cyfyngu ar yr hawl i ryddid mynegiant trwy osod sancsiynau mewn perthynas â darpariaethau a ragnodir gan y gyfraith, fel y rhai a gynhwysir yn y Cod, ar yr amod bod y cyfyngiadau'n angenrheidiol ac yn gymesur ac yn dilyn nod cyfreithlon.

Mae hyn yn golygu, hyd yn oed pe bai torri'r Cod yn cael ei brofi mewn perthynas ag unrhyw beth yr honnir bod yr Aelod wedi'i ddweud, er mwyn cyfiawnhau sancsiynau, byddai angen iddo fod yn ymyrraeth gymesur â hawl yr Aelod i ryddid mynegiant. Mae cyfraith achos ar y mater hwn wedi canfod bod ymyrraeth o'r fath yn debygol o fod yn gymesur dim ond os yw'r iaith a ddefnyddir yn hynod ddifrifol.

Wedi dweud hynny, nid yw hawl Aelod i ryddid mynegiant yn absoliwt a rhaid ei gydbwyso yn erbyn yr angen i amddiffyn hawliau a buddiannau eraill. Nid yw'r egwyddorion cyfreithiol ar y mater hwn yn darparu ffiniau clir ar gyfer yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol, ac mae'n rhaid ystyried pob achos ar ei rinweddau ei hun. Nid yw rhyddid mynegiant yn ddiderfyn a pho waethaf yw'r ymddygiad dan sylw, y mwyaf yw'r cyfiawnhad i gyfyngu ar fynegi gan ddefnyddio darpariaethau'r Cod.

Mae sylwadau'r Aelod yn ymwneud â mater gwleidyddol ac felly mae'n debygol y byddai gan yr Aelod fwy o amddiffyniad o dan Erthygl 10. Yn yr achos hwn mae'n annhebygol y byddai postiadau'r Aelod yn cael eu hystyried yn ddigon difrifol fel y byddai ymchwiliad a/neu sancsiwn yn cael ei ystyried yn ymyrraeth gymesur â hawl yr Aelod i ryddid mynegiant.

Disgwylir safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr lleol yng Nghymru. Rhaid i gynghorwyr gydbwyso eu hawl i ryddid mynegiant gyda'u cyfrifoldebau i gynnal parch ac uniondeb. Rhaid i gynghorwyr drin eraill gyda pharch ac osgoi ymosodiadau personol, aflonyddu neu sylwadau gwahaniaethol. Er bod y sylwadau'r Aelod wedi achosi rhywfaint o bryder i'r Achwynydd, nid yw'r dystiolaeth a ddarperir yn arwydd o ymddygiad gwarthus neu sarhaus a fyddai'n awgrymu torri'r Cod a/neu gyfiawnhau ymyrraeth â hawl yr Aelod i leferydd gwleidyddol ar yr achlysur hwn.

**(2) A oes angen ymchwiliad er budd y cyhoedd**

Nid yw'r ymddygiad y cwynwyd amdano yn bodloni cam cyntaf y prawf, fel y nodir uchod, felly, nid oes angen ystyried ail gam y prawf.

**Canlyniad**

Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.

**Penderfyniad a ddyroddwyd o dan baragraff 69(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000**

**Rhif Achos: 202508404**

**Crynodeb o'r gŵyn**

Honnwyd bod yr Aelod yn ystod cyfarfod y Cyngor, wrth drafod diweddariad ar fusnes lleol a'i Bwyllgor Ymddiriedolaeth, wedi gwneud sylwadau camarweiniol a chynhyrfus am Ymddiriedolwr ("yr Achwynydd").

Sut rydyn ni'n penderfynu a ddylid ymchwilio

Er mwyn penderfynu a ddylid ymchwilio i dorri'r Cod Ymddygiad ("y Cod"), rydym yn cymhwyso prawf 2 gam. Yn gyntaf, rydym yn ystyried a oes tystiolaeth i awgrymu y gallai torri'r Cod fod wedi digwydd. Yn ail, rydym yn ystyried a yw er budd y cyhoedd i ymchwilio i'r materion y cwynwyd amdanynt. Rydym yn ystyried nifer o ffactorau budd y cyhoedd megis:

• difrifoldeb yr ymddygiad honedig

• a yw'r aelod wedi camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth neu wedi ceisio ennill, drostynt eu hunain neu eraill, ar draul cyhoeddus

• a oes angen ymchwiliad i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig

• a yw ymchwiliad yn gymesur yn yr amgylchiadau neu a fyddai, os caiff ei brofi, atgyfeirio at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn briodol.

**Fy Mhenderfyniad**

**(1) A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai fod wedi torri'r Cod Ymddygiad**

Mae'r Achwynydd yn honni bod y sylwadau a wnaed gan yr Aelod yn ystod cyfarfod y Cyngor ar 10 Rhagfyr 2025 yn gamarweiniol. Yn benodol, cododd yr Achwynydd bryderon bod yr Aelod wedi dweud 'a letter has been sent to [the trustees] explanation the issues in simple terms, that every person would under stand'. Fodd bynnag, barn yr Achwynydd oedd bod y llythyr y cyfeiriodd yr Aelod ato yn dechnegol iawn, cyfreithiol ac yn gofyn am ddehongliad arbenigol. Mynegodd yr Aelod hefyd y farn bod yr Achwynydd wedi costio miloedd o bunnoedd i'r Cyngor mewn ffioedd cyfreithiol. Dywedodd yr Achwynydd fod hyn yn anghywir ac yn faleisus.

Mae gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant o dan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sydd wedi'i ymgorffori yng nghyfraith y DU gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Efallai y bydd yn ddefnyddiol esbonio, wrth weithredu fel aelod etholedig a mynegi safbwyntiau gwleidyddol neu gynnal busnes gwleidyddol, bod rhyddid mynegiant aelod yn cael ei amddiffyn uwch, yn fwy felly nag aelod cyffredin o'r cyhoedd. Ymhellach, fel gwleidyddion, mae'n debygol y bydd aelodau yn cael eu hamddiffyn hyd yn oed lle gall yr iaith a ddefnyddir ganddynt fod yn ymfflamychol, ar yr amod bod y ffocws ohono yn wleidyddol. Nid yw sylwadau gwleidyddol wedi'u cyfyngu i siambr y Cyngor a gallant gynnwys sylwadau y gall aelodau eu gwneud yn gyffredinol am bolisïau eu hawdurdod neu bolisïau'r llywodraeth. Mae mynegiant gwleidyddol yn ymestyn i bob mater o weinyddiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw hawl aelod i ryddid mynegiant yn absoliwt ac mae'n rhaid ei gydbwyso yn erbyn yr angen i amddiffyn hawliau a buddiannau eraill. Nid yw'r egwyddorion cyfreithiol ar y mater hwn yn darparu ffiniau clir ar gyfer yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol, ac mae'n rhaid ystyried pob achos ar ei rinweddau ei hun. Nid yw rhyddid mynegiant yn ddiderfyn a pho fwyaf difrifol yw'r ymddygiad dan sylw, y mwyaf yw'r cyfiawnhad i gyfyngu ar fynegi gan ddefnyddio darpariaethau'r Cod.

Nid wyf yn argyhoeddedig bod y sylwadau yn annheg ac wedi niweidio enw da yr Achwynydd, mae'n ymddangos i mi eu bod yn cynrychioli barn yn hytrach na datganiad o ffaith. Rwy'n credu y gellir ystyried sylwadau o'r fath yn rhesymol fel mynegiant gwleidyddol ac felly byddai'n elwa o fwy o ryddid mynegiant.

Gan werthfawrogi bod yr Achwynydd yn anghytuno â'r sylwadau a wnaed, nid ydynt yn ddigon difrifol nac anghymesur fel bod cyfyngiad yn angenrheidiol i amddiffyn hawliau a buddiannau eraill. Mae beirniadaeth ac anghytuno safbwyntiau yn rhan o ddisgwrs ddemocrataidd ac nid yw, ynddo'i hun, yn gyfystyr â methiant i drin rhywun gyda pharch. Mae gan yr Aelod hawl i gael a rhannu ei farn, hyd yn oed os nad yw eraill yn cytuno, neu'n wir, yn cael eu tramgwyddo ganddynt. Nid yw'n anghyffredin i aelodau etholedig ddweud pethau y gall eraill eu hystyried yn anghwrtais neu'n sarhaus, fodd bynnag, nid pwrpas y Cod yw atal rhyddid lleferydd a mynegiant cadarn gwahaniaethau gwleidyddol. Dywedodd yr Achwynydd ei fod o'r farn bod sylw'r Aelod yn ddifrïol, fodd bynnag, mae hyn yn fater cyfreithiol a byddai angen i'r Achwynydd ofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch honiadau o ddifrïo.

Nid yw tystiolaeth wedi'i darparu i gadarnhau'r gŵyn, ac ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio oni bai bod tystiolaeth weddol gryf i awgrymu y gallai'r aelod dan sylw fod wedi torri'r Cod.

**(2) A oes angen ymchwiliad er budd y cyhoedd**

Nid yw'r ymddygiad y cwynwyd amdano yn bodloni cam cyntaf y prawf, fel y nodir uchod, felly, nid oes angen ystyried ail gam y prawf.

**Canlyniad**

Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.

**Cwyn 202407933**

Bod aelod o gyngor tref wedi gwneud adroddiad ffug i'r Heddlu am yr Achwynydd.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio. Nid oedd yr aelod yn gweithredu fel aelod ar y pryd. Ystyriwyd ymhellach a allai fod wedi dwyn anfri. Daeth yr heddlu i'r casgliad bod tystiolaeth annigonol ac nad oeddent am fynd ar drywydd y mater. Nid oedd unrhyw awgrym na chasgliad felly bod yr adroddiad a wnaed yn ffug neu'n wastraff amser yr Heddlu.

**Cwyn 202408934**

Bod aelod o gyngor tref wedi ffugio cofnodion yn sgil ei chyflogaeth. Honnwyd hefyd ei bod wedi methu a datgan buddiant pan drafodwyd ariannu cynllun lleol.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio. Nid oedd yr aelod yn gweithredu yn rhinwedd ei swyddogaeth fel aelod ac nid oedd tystiolaeth wedi ei gyflwyno i awgrymu bod yr ymddygiad honedig, oedd heb ei brofi, wedi dwyn anfri ar y cyngor. Ni chyflwynwyd tystiolaeth chwaith i gefnogi'r honiad bod yr aelod wedi methu datgelu buddiant.

**Cwyn 202409315**

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd, bod aelod o gyngor tref wedi ymddwyn mewn modd ymosodol mewn cyfarfod gyda staff busnes lleol ac hefyd wedi methu datgelu bod gan aelod arall fuddiant personol mewn cysylltiad â'r busnes yng nghyfarfod blynyddol y cyngor. Hefyd honnwyd ei fod, mewn cyfarfod gwahanol, wedi gwneud cwynion blinderus i HMRC am y cwmni. Yn olaf honnwyd bod yr aelod wedi bod yn gweiddi a rhegi ar glerc y cyngor.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio. Ni chyflwynwyd tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r honiadau.

**Cwyn 202409316**

Bod aelod o gyngor tref yn ceisio niweidio cwmni lleol drwy gamddefnyddio ei swydd fel cynghorydd. Honnodd yr Achwynydd fod yr Aelod wedi aflonyddu ar staff ac wedi ceisio eu cael i adael eu swyddi. Honnwyd hefyd fod yr Aelod wedi gwneud cwynion maleisus a blinderus am y cwmni i Adnoddau Naturiol Cymru a'i fod wedi rhoi adroddiadau negyddol am y busnes yng nghyfarfodydd y Cyngor, tra'n methu ag adrodd ar newyddion cadarnhaol.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad. Ni chyflwynwyd tystiolaeth i gefnogi'r gŵyn, ac ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio oni bai bod tystiolaeth weddol gref i awgrymu y gallai'r aelod dan sylw fod wedi torri'r Cod. Cyfrifoldeb yr Achwynydd yw darparu tystiolaeth uniongyrchol i gefnogi eu cwyn.

**Cwyn 202307896 a 202310159**

Bod cyn-aelod o gyngor tref wedi methu â datgan buddiant mewn perthynas â chyfres o gyfarfodydd cyngor a oedd yn ystyried Ymddiriedolaeth

**Penderfyniad**

Canfu'r ymchwiliad nad oedd y Cyn-Aelod wedi datgan buddiant oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â nifer o gyfarfodydd y Cyngor ac wedi cymryd rhan a phleidleisio mewn trafodaethau. Canfu'r ymchwiliad, fodd bynnag, fod ffactorau yn lliniaru'r sefyllfa oherwydd cymhlethdodau'r sefyllfa. Yn arwyddocaol, roedd yr Aelod wedi cael ei benodi gan ei gyd-gynghorwyr i weithredu fel cynrychiolydd y Cyngor i'r Ymddiriedolaeth ac wedi gwneud hynny am nifer o flynyddoedd heb godi unrhyw bryderon. Ymddiswyddodd y Cyn-Aelod yn ystod yr ymchwiliad.

Wrth bwyso'r ffactorau hyn, roedd yr Ombwdsmon o'r farn nad fyddai cyfeirio’r mater yn gymesur. Fodd bynnag, nododd y byddai'r penderfyniad yn cael ei gofnodi ac os bydd y Cyn-Aelod yn dychwelyd i'w swydd, bydd yn cael ei ystyried mewn unrhyw achosion yn y dyfodol y gall yr Ombwdsmon eu hystyried, pe bai cwynion yn cael eu derbyn yn y dyfodol.

**Cwyn 202310160**

Bod aelod o gyngor tref wedi methu â datgan buddiant mewn perthynas â chyfres o gyfarfodydd cyngor a oedd yn ystyried Ymddiriedolaeth.

**Penderfyniad**

Canfu'r ymchwiliad nad oedd yr Aelod wedi datgan buddiant ac wedi cymryd rhan mewn trafodaethau a phleidleisio mewn materion yr oedd ganddi ddiddordeb oedd yn rhagfarnu. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod yr Aelod wedi dangos edifeirwch os oedd hi'n anghywir i beidio â datgan diddordeb a bod hyn yn dangos bod yr aelod wedi myfyrio ar y mater ac wedi dysgu. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn, na fyddai cyfeirio’r mater yn gymesur. Fodd bynnag, roedd yr Ombwdsmon o'r farn y dylai'r Aelod ymgymryd â hyfforddiant ar y Cod gan roi sylw arbennig i fuddiannau personol a rhagfarnllyd. Argymhellodd yr Ombwdsmon fod yr Aelod yn ymgymryd â hyfforddiant o'r fath o fewn 3 mis.

**Cwynion 202501037 & 202501067**

Honnwyd bod yr Aelod wedi methu â datgan buddiant yn briodol mewn perthynas â'i chysylltiad ag is-gwmni i Ymddiriedolaeth. Honnwyd hefyd mai'r Aelod yw Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth a’i bod wedi cymryd ran mewn pleidlais i benodi ei hun yn Gyfarwyddwr. Honnwyd hefyd bod yr Aelod, ar sawl achlysur, wedi camddefnyddio ei safle ar yr Ymddiriedolaeth i ymyrryd â dyletswyddau'r Achwynydd a dyletswyddau cyngor tref arall i graffu ar gyfrifon yr is-gwmni.

**Penderfyniad**

Cadarnhaodd yr Aelod ei bod wedi cael ei phenodi i'r Ymddiriedolaeth fel aelod o'r cyhoedd, nad oedd ei phenodiad fel Ymddiriedolwr yn gysylltiedig â'i rolau fel Cynghorydd, ac nad yw erioed wedi cyfeirio at ei swydd fel Cynghorydd mewn cyfathrebu nac yn ei rôl fel Ymddiriedolwr. Mae'n ymddangos bod yr Aelod felly yn gweithredu yn ei rhinwedd bersonol a phreifat.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i chyflwyno i awgrymu bod yr Aelod wedi camddefnyddio ei sefyllfa.

**Cwyn 202502340**

Honnwyd bod yr Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod") trwy:

• Fethu â datgan buddiant yn ystod cyfarfodydd y Cyngor a darparu gwybodaeth ffug a chamarweiniol am fuddiant honedig yn ystod cyfarfod y Cyngor

• Methu â darparu ymateb i 6 cwestiwn a ddarparwyd gan yr Achwynydd.

• Sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Penderfyniad**

Cyflwynwyd tystiolaeth annigonol mewn perthynas â methiant honedig yr Aelod i ddatgan buddiant yn briodol, ac nid oedd yr honiad wedi'i gefnogi. Ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio oni bai bod tystiolaeth weddol gref y gallai'r aelod dan sylw fod wedi torri'r Cod. Yn ogystal, roedd y Cyn-Aelod wedi ymddiswyddo o'r Cyngor ac

yn unol â hynny, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai unrhyw ymchwiliad yn gymesur er budd y cyhoedd.

Amlinellodd y Clerc, yn ei gohebiaeth i'r Achwynydd, fod aelodau'r Cyngor yn teimlo bod yr ohebiaeth wedi cael ei thrafod yn ystod cyfarfodydd y Cyngor. Wedi dweud hynny, nid yw'r methiant i ymateb i gwestiynau yn ddigon difrifol i fod gyfystyr â thorri'r Cod. Efallai y bydd y methiant honedig i ymateb yn cael ei ystyried yn anghwrtais, ond nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i argyhoeddi bod ymddygiad o'r fath mor ddifrifol fel ei fod gyfystyr â thorri'r Cod neu i warantu ymchwiliad er budd y cyhoedd.

Roedd y sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol wedi'u dyddio ar ôl ymddiswyddiad y Cyn-Aelod ac felly ni chawsant eu gwneud ar adeg pan oedd y Cyn-Aelod yn gynghorydd. Yn unol â hynny, roeddynt y tu allan i gwmpas y Cod.

**Cwyn 202502339**

Honnwyd bod yr Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad trwy:

• Methu â datgan buddiant yn ystod cyfarfodydd y Cyngor a darparu gwybodaeth ffug a chamarweiniol am y buddiant honedig yn ystod cyfarfod y Cyngor.

• Methu â darparu ymateb i 6 cwestiwn a ddarparwyd gan yr Achwynydd.

• Recordio cyfarfod o'r Cyngor yn gyfrinachol a heb ganiatâd.

• Postio sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol

**Penderfyniad**

Nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i darparu i ddangos bod yr Aelod wedi datgelu gwybodaeth mewn perthynas â'r mater dan sylw ac ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio oni bai bod tystiolaeth weddol gref y gallai'r Aelod fod wedi torri'r Cod.

Mae sgrîn luniau a ddarparwyd yn dangos bod yr Aelod wedi rhyngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol gyda'r Aelod o'r Cyhoedd a'i gŵr. Cadarnhaodd yr Aelod ei fod yn byw mewn pentref bach lle mae pawb yn adnabod ei gilydd. Heb wybodaeth ynglŷn ag agosatrwydd y cyfeillgarwch, ni allai'r Ombwdsmon benderfynu'n gadarn a oes tystiolaeth sy'n awgrymu torri'r Cod gan yr Aelod. Ar ben hynny, er bod yr Aelod o'r Cyhoedd wedi'i ddogfennu fel un a siaradodd yn ystod cyfarfod y Cyngor, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod yr Aelod wedi cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais neu drafodaeth

Amlinellodd y Clerc, yn ei gohebiaeth i'r Achwynydd, fod aelodau'r Cyngor yn teimlo bod yr ohebiaeth wedi cael ei thrafod yn ystod cyfarfodydd y Cyngor. Wedi dweud hynny, nid yw'r methiant i ymateb i gwestiynau yn ddigon difrifol i fod gyfystyr â thorri'r Cod. Efallai y bydd y methiant honedig i ymateb yn cael ei ystyried yn anghwrtais, ond nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i argyhoeddi bod ymddygiad o'r fath gyfystyr â thorri'r Cod neu yn gwarantu ymchwiliad er budd y cyhoedd. Mae unrhyw gytundeb neu anghytundeb â'r ffordd y mae'r Aelod yn delio â materion lleol yn fater i'r etholwyr lleol ei benderfynu drwy'r broses ddemocrataidd.

Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor yn dangos bod y mater o recordio wedi'i drafod gan y Cyngor Llawn a chytunwyd na fyddai'r Aelod yn recordio cyfarfodydd o hyn ymlaen heb ganiatâd y Cyngor cyfan ac y byddent yn "dechrau o'r newydd gyda llechen lân". O ystyried y cofnodion sy'n dangos bod y mater wedi'i ddwyn i sylw'r Aelod ac o ystyried bod y mater wedi ei drin a'i ddatrys gan y Cyngor, ni chafodd yr Ombwdsmon ei argyhoeddi y byddai ymchwiliad yn gymesur neu er budd y cyhoedd. Ni chafodd yr Ombwdsmon ei argyhoeddi bod digwyddiad ynysig sydd wedi cael sylw gan y Cyngor yn cynrychioli ymddygiad digon difrifol i fod yn awgrymu torri'r Cod gan yr Aelod.

Gwnaed y sylwadau gan yr Aelod ar Facebook gan ddefnyddio ei enw personol ac ni allai'r Ombwdsmon weld bod unrhyw gyfeiriad at ei rôl fel aelod etholedig nac at y Cyngor.

Ni chafodd yr Ombwdsmon ei argyhoeddi bod sylw'r Aelod yn awgrymu ymddygiad fyddai'n dwyn anfri o dan y Cod, yn enwedig o ystyried hawl yr Aelod i ryddid mynegiant. O dan Erthygl 10 o'r Confensiwn Hawliau Dynol Ewropeaidd, mae gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant. Er y gallai post yr Aelod ar y cyfryngau cymdeithasol a'r sylw cysylltiedig fod wedi bod yn ddi-chwaeth ac efallai wedi achosi tramgwydd i'r Achwynydd, nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i argyhoeddi bod sylwadau'r Aelod yn ddigon sarhaus neu warthus i awgrymu torri'r Cod

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Y CYNGOR LLAWN** |
| DYDDIAD: | **2 GORFFENNAF 2026** |
| PWNC: | **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2025-26** |
| AWDUR: | **CARYS EDWARDS, CADEIRYDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2024-26** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |

---

**1.** Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn bwyllgor statudol. Cyflwynir gerbron y Cyngor llawn yr adroddiad blynyddol sy'n cwmpasu gwaith y Pwyllgor dros y flwyddyn 2025/26, gan amlygu sut mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol, a sut mae'n ychwanegu gwerth i drefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd.

**2.** Dyma'r pedwerydd tro i adroddiad blynyddol o'r fath gael ei baratoi, yn unol ag argymhelliad cryf CIPFA. Ymhellach, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod disgwyliad ar y Pwyllgor adrodd ar ganlyniadau ei waith mewn meysydd penodol (fel amlinellir ym mharagraff 8 o'r adroddiad Blynyddol), ac ystyrir fod yr adroddiad hwn yn cyflawni'r gofyn hynny.

**3**. Mae canllawiau CIPFA yn nodi:

***"Dylai'r pwyllgor baratoi adroddiad blynyddol sy'n rhoi sicrwydd i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu ei fod yn cyflawni ei bwrpas ac yn gallu dangos ei effaith".***

**4.** Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ystyried yr adroddiad drafft yn ei gyfarfod ar 21 o Fai ac yn cyflwyno'r adroddiad hwn i sylw'r Cyngor. Mae sylwadau aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod wedi cael eu hymgorffori yn y fersiwn a gyflwynir i'r Cyngor.

**Argymhelliad**

**5.** Derbyn yr adroddiad.

**Atodiad:**
Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2025-26

---

**Sylwadau Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**
Rwy'n croesawu yr adroddiad ar waith y Pwyllgor .

**Prif Swyddog Cyllid**
Swyddog Cyfrifol

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

**CYNGOR GWYNEDD**

**2025-26**

**RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno crynodeb o waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2025/26, a darparu tystiolaeth bosibl o effaith gwaith y Pwyllgor ar drefniadau llywodraethu, rheoli risg ac atebolrwydd Cyngor Gwynedd.

Mae'n fraint i mi gyflwyno adroddiad blynyddol arall y Pwyllgor. Er bod yr adroddiad yn bodloni gofynion statudol, fy ngobaith yw ei fod yn mynd y tu hwnt i fod yn ymarfer o "dicio blwch", ac yn rhoi darlun clir a gonest i'r darllenydd o rôl y Pwyllgor, a'r gwahaniaeth y gall Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cadarn ei wneud i wella trefniadau'r Cyngor a chryfhau hyder y cyhoedd.

Fel pob awdurdod lleol a chorff cyhoeddus, mae Cyngor Gwynedd yn parhau i wynebu heriau sylweddol. Yn ystod 2025/26, bu pwysau parhaus ar gyllidebau gwasanaethau statudol, yn enwedig ym maes gofal, ynghyd ag ansicrwydd ehangach yn y sefyllfa ariannu genedlaethol. O fewn y cyd-destun heriol hwn, rwy'n credu bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor, sydd yn destun craffu parhaus gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, wedi parhau i ddangos gwydnwch. Mae gwaith y Pwyllgor wedi rhoi her briodol pan fo angen, ond hefyd cefnogaeth adeiladol i'r Weithrediaeth a'r uwch-reolwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau anodd ar ran pobl Gwynedd.

Mae'r heriau ariannol hyn wedi golygu bod rôl y Pwyllgor o ran craffu ariannol wedi bod yn arbennig o ganolog yn ystod y flwyddyn. Rwy'n falch bod y Pwyllgor wedi parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth graffu ar y gyllideb, monitro gorwariant, herio defnyddio cronfeydd wrth gefn, ac asesu risgiau i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor yn y tymor canolig a'r tymor hir, gan wneud hynny bob amser gyda budd y trethdalwr mewn golwg.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r holl swyddogion, yr Aelodau Etholedig a'r Aelodau Lleyg am eu hymrwymiad a'u cyfraniad drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gwaith yma'n dibynnu ar gydweithio effeithiol ac ar berthnasau gwaith agored ac adeiladol. Roedd 2025/26 yn flwyddyn o gryfhau a sefydlogi aelodaeth y Pwyllgor, ac rwy'n croesawu'r cyfraniad gwerthfawr gan Aelodau presennol a newydd fel ei gilydd.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Mai 2025 a Mai 2026. Wrth gloi fy rhagair, hoffwn hefyd gydnabod bod y flwyddyn wedi dilyn cyfnod o golled sylweddol i'r Pwyllgor. Roedd marwolaeth y diweddar Sharon Warnes a'r Cynghorydd Rob Triggs yn ystod y flwyddyn flaenorol yn dal yn amlwg yng nghof y Pwyllgor. Roedd eu cyfraniad i waith y Pwyllgor yn sylweddol, ac mae eu hymroddiad i wasanaeth cyhoeddus yn parhau i'n hysbrydoli wrth i ni barhau â'n gwaith.

**Mrs Carys Edwards**

**Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn chwarae rôl allweddol barhaus wrth sicrhau trefn effeithiol ar gyfer llywodraethu da. Prif bwrpas y pwyllgor yw darparu sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylcheddau rheoli cysylltiedig; cynnal craffu annibynnol ar berfformiad ariannol ac anariannol yr awdurdod i'r graddau y mae'n effeithio ar ei amlygiad i risg neu'n gallu tanseilio'r amgylchedd rheoli; a goruchwylio'r trefniadau ar gyfer y broses adrodd ariannol.

2. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'r Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylw dyledus i ganllawiau a safonau a gyhoeddir gan amrywiol gyrff a sefydliadau allanol perthnasol, gan gynnwys CIPFA.

3. Yn ôl Datganiad Sefyllfa CIPFA i Bwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2022), diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw:

   *Darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar ddigonolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheoli. Mae rôl y pwyllgor yn sicrhau bod digon o sicrwydd ynghylch risg a rheolaeth lywodraethu ac felly yn rhoi mwy o hyder i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu bod y trefniadau hynny'n effeithiol.*

**CYFNOD YR ADRODDIAD**

4. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu gwaith y Pwyllgor am y cyfnod rhwng cyfarfod blynyddol y Cyngor ar 22 Mai 2025 a'r cyfarfod blynyddol ar 1 Mai 2026. Cynhaliwyd 6 cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod cyfnod dan sylw:

   22 Mai 2025

   11 Medi 2025

   9 Hydref 2025

   13 Tachwedd 2025

   15 Ionawr 2026

   3 Chwefror 2026

**AELODAETH Y PWYLLGOR**

5. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys 12 Cynghorydd ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ynghyd a chwe 'aelod lleyg', sef person nad yw'n aelod o awdurdod lleol. Serch hynny, roedd nifer o seddi gwag ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

6. Roedd presenoldeb yr aelodau yn y cyfarfodydd fel a ganlyn:

**Cadeirydd (Aelod Lleyg)**

| | 22/05/2025 | 11/09/2025 | 09/10/2025 | 13/11/2025 | 15/01/2026 | 03/02/2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Carys Edwards | x | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ |

**Is-gadeirydd (Aelod Lleyg)**

| | 22/05/2025 | 11/09/2025 | 09/10/2025 | 13/11/2025 | 15/01/2026 | 03/02/2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhys Parry | x | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Cynghorwyr**

| | 22/05/2025 | 11/09/2025 | 09/10/2025 | 13/11/2025 | 15/01/2026 | 03/02/2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyng. Elfed Wyn ap Elwyn | ✓ | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ |
| Cyng. Menna Baines | x | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ |
| Cyng. Meryl Roberts | ✓ | x | x | ✓ | ✓ | x |
| Cyng. Huw Rowlands | ✓ | x | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Elwyn Jones | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Edgar Owen | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Arwyn Herald Roberts | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Richard Glyn Roberts | x | x | ✓ | ✓ | ✓ | x |
| Cyng. Angela Russell | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | x |
| Cyng. Rob Triggs[1] | x | | | | | |
| Cyng. Dafydd Meurig | x | ✓ | x | x | | |
| Cyng. Ioan Thomas | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Wendy Cleaver | | | x | x | x | x |
| Cyng. Geraint Wyn Parry | | | | | ✓ | ✓ |

[1] Bu farw Cyng. Rob Triggs ym mis Mai, 2025.

**Lleyg**

| | 22/05/2025 | 11/09/2025 | 09/10/2025 | 13/11/2025 | 15/01/2026 | 03/02/2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hywel Eifion Jones | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ | ✓ |
| Dr Peter Barnes[2] | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Dewi E Lewis[2] | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Paul Millar Mills[2] | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

[2] Wedi eu penodi ar 3 Gorffennaf 2025.

**SWYDDOGAETHAU'R PWYLLGOR**

7. Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Rhan 6, Pennod 2 rhaid i Gyngor Gwynedd sefydlu pwyllgor llywodraethu ac archwilio gyda rhai swyddogaethau mandadol, ac mae ganddo hefyd yr hawl i gyflawni unrhyw swyddogaethau addas eraill.

8. Mae Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd yn pennu’r canlynol fel swyddogaethau’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

**Swyddogaeth na all fod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth**

Y ddyletswydd i gymeradwyo datganiad awdurdod o'i gyfrifon, ei incwm, a'i wariant a'i fantolen neu ei gofnod o dderbyniadau a thaliadau (yn ôl fel y digwydd) yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

**Swyddogaethau mandadol o dan fesur llywodraeth leol (Cymru) 2011**

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol canlynol o dan Adran 81 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y diwygiwyd) :

(a) arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,

(b) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod,

(c) adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a llywodraethu corfforaethol,

(ch) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,

(d) adolygu ac asesu gallu’r awdurdod i ymdrin â chwynion mewn modd effeithiol

(e) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â gallu’r awdurdod i ymdrin â chwynion mewn modd effeithiol.

(f) arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac

(g) adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.

(ng) Gweithredu swyddogaethau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym Mhennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad prif gynghorau a’u llywodraethu).

**Swyddogaethau Eraill**

Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau canlynol :-

(i) hybu rheolaeth fewnol, gan sefydlu amserlen i adolygu rheolaeth, datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll ac adolygu gweithdrefnau cyllidol;

(ii) canolbwyntio adnoddau archwilio'r Cyngor trwy gytuno ar gynlluniau archwilio a monitro darpariaeth archwilio;

(iii) monitro perfformiad archwilio trwy sicrhau gwaith swyddogion o fewn amserlenni, sicrhau bod adroddiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi yn brydlon ac yr ymatebir iddynt yn yr un modd, monitro cwblhau'r cyfrifon a sicrhau y gweithredir argymhellion archwilio;

(iv) ystyried sylwadau a phryderon am wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan y swyddogion o'r Cyngor neu Archwilio Cymru a monitro ymateb a gweithrediad ar argymhellion neu ganfyddiadau'r adroddiadau.

## GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2025/26

**Adolygu a chymeradwyo'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod**

9. Yn y cyfarfod ar 22 Mai 2025, cymeradwyodd y Pwyllgor gyfrifon terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, oedd yn cwmpasu Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2024/25 yn ogystal â'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 (yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru).

10. Cyflwynwyd Datganiad o Gyfrifon drafft Cyngor Gwynedd yn amodol ar archwiliad 2024/25 i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ar 11 Medi 2025. Nid oes gofyn statudol i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn drafft o'r Datganiad o Gyfrifon. Er hynny, ystyrir bod cyflwyno'r datganiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn, ac yn gyfle i'r Aelodau holi swyddogion ariannol am y cynnwys ac arfogi eu hunain gyda gwybodaeth berthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun. Yn ystod y drafodaeth bu'r Pwyllgor yn herio'r swyddogion Cyllid ar wahanol agweddau o'r cyfrifon, yn enwedig o ran sefyllfa gorwariant gwasanaethau, cynaliadwyedd cronfeydd wrth gefn, a chadernid y trefniadau ariannol.

11. Cyflwynwyd y Cyfrifon Terfynol am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, ynghyd â'r archwiliad perthnasol, i gyfarfod y Pwyllgor ar 13 Tachwedd 2025. Ar ôl ystyried adroddiad Archwilio Cymru ar y cyfrifon (adroddiad "ISA 260"), penderfynodd y Pwyllgor:

- Derbyn a chymeradwyo Adroddiad 'ISA 260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd
- Derbyn a chymeradwyo Datganiad o'r Cyfrifon 2024/25 (ôl-archwiliad)
- Awdurdodi Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor, ynghyd â Phennaeth y Gwasanaeth Cyllid, i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth yn electroneg
- Llongyfarch y swyddogion ar eu gwaith o sicrhau casgliad archwiliad diamod
- Diolch i Archwilio Cymru am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth broffesiynol.

**Arolygu materion ariannol yr awdurdod, craffu arnynt, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion**

<u>Cynllun Ariannol Tymor Canolig</u>

12. Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i'r Pwyllgor ar 9 Hydref 2025, mewn ymateb i'r heriau ariannol parhaus sy'n wynebu'r Cyngor. Pwrpas y cynllun yw gosod allan y rhagolygon am sefyllfa ariannol y Cyngor dros y tair blynedd ariannol nesaf, gan gyflwyno rhagdybiaethau allweddol ynghyd â chynigion i fynd i'r afael â'r bwlch ariannol sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Amlygwyd bod y Cynllun yn ddogfen fyw sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd wrth i wybodaeth newydd ddod i law, a bod unrhyw newidiadau'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried.

13. Adroddwyd fod y Cabinet wedi penderfynu parhau i gomisiynu'r Prif Weithredwr i arwain ar gyfres o fesurau a phecynnau gwaith er mwyn paratoi ar gyfer cyfarch y bwlch ariannol sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Roedd y gwaith yn cynnwys ystyried opsiynau ar gyfer ariannu gwasanaethau, adnabod cyfleoedd arbedion ac effeithlonrwydd, a rhoi darlun cliriach o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor yn y tymor canolig, er mwyn cefnogi penderfyniadau strategol mewn cyfnod ariannol heriol. Ategwyd y byddai'r cynllun yn parhau i gael ei adolygu wrth i ragolygon ariannu cenedlaethol a lleol esblygu.

14. Ar ôl herio'r swyddogion a'r Aelod Cabinet am gynnwys y Cynllun, yn enwedig ynghylch rhagdybiaethau ariannu, lefel y risgiau ariannol, a'r goblygiadau i wasanaethau statudol, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r risgiau perthnasol sy'n deillio o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a chefnogi'r trefniadau llywodraethu a'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y Cabinet.

Gwariant Refeniw

15. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn adroddiadau rheolaidd ar sefyllfa ariannol yr awdurdod yn ystod 2025/26. Cyflwynwyd adroddiad Alldro Refeniw ar y Cyfrifon Terfynol 2024/25 i gyfarfod y Pwyllgor ar 22 Mai 2025 er mwyn galluogi'r Pwyllgor i dderbyn gwybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2024/25, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau. Roedd yr adroddiad yn manylu ar wariant y Cyngor yn 2024/25, sefyllfa alldro tanwariant neu orwariant yr adrannau unigol, a'r rhesymau dros hynny. Diolchwyd am yr adroddiad a chydnabuwyd bod y cyfnod yn un heriol iawn i wasanaethau. Cafwyd trafodaeth eang lle mynegwyd pryder penodol am lefel gorwariant parhaus mewn gwasanaethau statudol, yn enwedig ym maes gofal, a'r goblygiadau hirdymor i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Nododd y Pwyllgor fod derbyn adroddiadau parhaus ar y sefyllfa yn fuddiol, ond mynegwyd pryder bod risg sylweddol i'r gorwariant waethygu yn y tymor canolig a'r tymor hwy, yn enwedig yn sgil pwysau demograffig a galw cynyddol.

16. Yn ogystal ag ystyried y sefyllfa alldro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cynhaliwyd adolygiadau ffurfiol o sefyllfa'r gyllideb refeniw yn ystod 2025/26, gan gynnwys adolygiad diwedd Awst 2025 ac adolygiad diwedd Tachwedd 2025. Cyflwynwyd yr adroddiadau hyn i'r Pwyllgor yn y cyfarfodydd priodol er mwyn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf, y risgiau ariannol perthnasol, a'r rhagolygon hyd ddiwedd y flwyddyn. Ar yr achlysuron hyn penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiadau, nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, a bu i'r Pwyllgor gyd-dynnu gyda'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Cabinet ar gyfer ymdrin â'r gorwariant a ragwelwyd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan bwysleisio'r angen am fonitro parhaus a chamau lliniaru realistig.

17. Ymhlith y materion a godwyd yn ystod y trafodaethau hyn roedd yr angen i'r Cabinet barhau i herio amserlen a chynnydd y gwaith a gomisiynwyd gan y Prif Weithredwr er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r gorwariant parhaus ac eithriadol yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Tynnodd y Pwyllgor sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y gwaith hwn yn ei le, ac yn ddigon cadarn, er mwyn cefnogi gosod cyllidebau realistig gan y Cabinet. Yn ystod 2025/26, mynychodd Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyfarfodydd y Pwyllgor i roi cyd-destun ac eglurhad pellach ar y prif benawdau cyllidebol, gan fanylu ar y pwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu'r gwasanaeth a'r camau sydd ar waith i liniaru'r risgiau hynny.

18. Nodwyd hefyd fod y defnydd parhaus o gronfeydd wrth gefn yn parhau i achosi pryder gan y Pwyllgor. Pwysleisiwyd, er bod cronfeydd wrth gefn yn chwarae rhan bwysig wrth reoli pwysau tymor byr ac ymateb i sefyllfaoedd eithriadol, fod angen sicrhau bod unrhyw ddefnydd ohonynt yn briodol, wedi'i dargedu, ac yn canolbwyntio ar ymateb i angen pendant, yn hytrach na chuddio problemau strwythurol hirdymor o fewn cyllidebau gwasanaethau.

Rhaglen Gyfalaf

19. Ar 22 Mai 2025, cyflwynwyd Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2025) Rhaglen Gyfalaf 2024/25 i'r Pwyllgor. Prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ynghyd â chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt Rhaglen Gyfalaf y Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â llithriadau amserlenni, dibyniaeth ar grantiau allanol, a chynaliadwyedd y rhaglen yn y tymor canolig.

20. Cyflwynwyd adroddiadau ar adolygiad diwedd Awst 2025 o'r Rhaglen Gyfalaf i'r Pwyllgor ar 9 Hydref 2025, ac ar adolygiad diwedd Tachwedd 2025 i'r cyfarfod ar 15 Ionawr 2026, er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf, ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet. Ar yr achlysuron hyn penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiadau, gan nodi'r sefyllfa a chefnogi'r trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli a monitro gwariant cyfalaf y Cyngor.

Rhaglen Arbedion

21. Ynghlwm â'r adolygiad o sefyllfa'r gyllideb refeniw, derbyniodd y Pwyllgor hefyd adroddiadau penodol yn ystod 2025/26 ar allu'r Cyngor i wireddu ei gynlluniau arbedion. Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion i'r Pwyllgor yn y cyfarfodydd ar 9 Hydref 2025 a 15 Ionawr 2026, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried y cynnydd a wnaed, adnabod risgiau cyffredinol sy'n deillio o unrhyw lithriadau, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt Trosolwg yr Arbedion.

22. Awgrymodd y Pwyllgor barhau i ddatblygu ffyrdd cliriach a mwy defnyddiol o gyflwyno gwybodaeth am arbedion, gan bwysleisio gwerth gwahaniaethu'n glir rhwng y sefyllfa hanesyddol a'r sefyllfa ddiweddaraf, er mwyn gallu adnabod risgiau i'r sefyllfa gyfredol yn fwy effeithiol. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'r arbedion "haws" eisoes wedi'u gwireddu, ac felly bod yr arbedion sydd angen eu cyflawni yn y dyfodol agos yn fwy heriol. O ganlyniad, nodwyd yr angen i sicrhau bod amserlenni realistig ar gyfer gweithredu, a bod adrannau'n cael cyfle i gynllunio'n fwy strategol i'r tymor canolig a'r tymor hir. Er yr heriau hyn, cydnabuwyd bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn fanwl ac wedi'i chyflwyno mewn modd dealladwy, gan gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei rôl lywodraethu.

23. Oherwydd y bwlch ariannol sylweddol y mae'r Cyngor yn parhau i'w wynebu dros y blynyddoedd nesaf, bu'n angenrheidiol datblygu cynlluniau arbedion pellach ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 ymlaen. Cyflwynwyd adroddiad gan Arweinydd y Cyngor i gyfarfod y Pwyllgor ar 3 Chwefror 2026, oedd yn cyflwyno cyfres o arbedion arfaethedig i gefnogi gosod cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried priodoldeb y broses o adnabod yr arbedion, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet eu hystyried cyn dod i benderfyniad yn y cyfarfod ar 10 Chwefror 2026. Roedd y Pwyllgor yn glir nad ei rôl oedd mynegi barn ar faint yr arbedion na rhinweddau'r cynigion unigol, ond yn hytrach sicrhau bod y Cabinet yn glir o'r ffeithiau, y risgiau a'r goblygiadau sy'n gysylltiedig â'r cynigion, fel bod unrhyw benderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth gadarn. Penderfynodd y Pwyllgor:

- Bod camau rhesymol, o dan amgylchiadau ariannol heriol, wedi'u cymryd i lunio'r Cynllun Arbedion
- Bod yr arbedion a gynnigwyd yn rhesymol ac, ar y cyfan, yn gyraeddadwy
- Bod y risgiau a'r goblygiadau sy'n deillio o'r penderfyniadau'n glir
- Bod yr adroddiad yn ddigonol i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad gwybodus

• Cyflwyno sylwadau'r drafodaeth i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo'r Cynllun Arbedion yn cyfarfod ar 10 Chwefror 2026
• Croesawu'r cyfle i fynychu gweithdai rhannu gwybodaeth fel rhan o'r broses graffu.

24. Yn ogystal â hynny, gofynnodd y Pwyllgor i'r Cabinet ystyried adolygu trefniadau ymgynghori cyhoeddus yn y dyfodol, er mwyn rhoi cyfle i drigolion fynegi barn ar lefelau treth a'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, yn ogystal ag annog rhagor o ymdrech i resymoli gwasanaethau a nodi cyfleoedd pellach ar gyfer effeithlonrwydd, lle y bo'n briodol.

<u>Rheolaeth Trysorlys</u>

25. Yn unol â threfniadau llywodraethu da â gofynion statudol, mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithgareddau Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod 2025/26. Ar ôl derbyn diweddariad chwarterol ar 22 Mai 2025, cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor ar 11 Medi 2025 ar wir ganlyniadau Rheolaeth Trysorlys y Cyngor 2024/25, yn erbyn y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ym Mawrth 2024. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd diweddariad chwarterol Rheolaeth Trysorlys i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ar 9 Hydref 2025, ynghyd ag adolygiad canol blwyddyn Rheolaeth Trysorlys 2025/26 i gyfarfod 13 Tachwedd 2025. Pwrpas yr adroddiadau hyn oedd diweddaru'r Pwyllgor ar weithgarwch gwirioneddol Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, a rhoi sicrwydd bod y trefniadau'n parhau i gydymffurfio â Chod Ymarfer CIPFA.

<u>Gosod Cyllideb</u>

26. Wrth agosáu at ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar Gyllideb 2026/27 yn y cyfarfod ar 3 Chwefror 2026, er mwyn craffu ar y wybodaeth cyn i'r Cabinet argymell cyllideb 2026/27 i'r Cyngor Llawn. Rôl y Pwyllgor yn y cyd-destun hwn oedd craffu ar y wybodaeth a gyflwynwyd, gan sicrhau bod y Cabinet a'r Cyngor Llawn yn glir o'r ffeithiau, y rhagdybiaethau ariannol a'r risgiau cysylltiedig, fel bod unrhyw benderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth gadarn. I gynorthwyo'r gwaith hwn, cafodd Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg y Pwyllgor gyfle i fynychu sesiwn friffio ar y sefyllfa ariannol gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid yn ystod diwedd Ionawr 2026.

27. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'i atodiadau, penderfyniad y Pwyllgor oedd derbyn yr adroddiad, nodi'r cynnwys, derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol, a chyflwyno sylwadau o'r drafodaeth i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo Cyllideb 2026/27 yn y cyfarfod ar 10 Chwefror 2026.

28. Hefyd yn y cyfarfod ar 3 Chwefror 2026, bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Gyfalaf 2026/27 (yn cynnwys y Strategaethau Buddsoddi a Benthyg), er mwyn nodi ac ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r strategaeth cyn ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn. Nodwyd bod y cyflwyniad a dderbyniodd aelodau'r Pwyllgor gan Arlingclose, ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, yn hynod ddefnyddiol wrth gefnogi dealltwriaeth yr Aelodau o'r strategaeth. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol, a chefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r Strategaeth Gyfalaf i'r Cyngor Llawn i'w chymeradwyo ym Mawrth 2026.

**Hybu rheolaeth fewnol; Adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a llywodraethu corfforaethol, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion**

Adroddiadau Archwilio Mewnol

29. Pwrpas Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ydi "Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor ar amgylchedd rheoli a threfniadau llywodraethu'r Cyngor drwy adrodd yn annibynnol ac yn wrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae archwilio mewnol yn cryfhau gallu'r sefydliad i greu, diogelu a chynnal gwerth drwy ddarparu sicrwydd, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad annibynnol, gwrthrychol ac ar sail risg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Rheolwyr".

30. Mae adroddiadau archwilio mewnol yn arf pwysig felly i alluogi'r Pwyllgor i gyflawni ei swyddogaeth o adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau a rheolaeth fewnol.

31. Mae mwyafrif adroddiad Archwilio Mewnol yn gosod canlyniad y gwaith i un o bedwar categori o lefel sicrwydd, fel dangosir yn y tabl isod:

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

32. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2024/25 i gyfarfod y Pwyllgor ar 22 Mai 2025. Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2024/25, roedd y Rheolwr Archwilio o'r farn bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol, o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol trefniadau llywodraethu'r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

33. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ar waith Archwilio Mewnol yn ystod 2025/26. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor ar 11 Medi 2025, yn rhoi diweddariad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod cynnar o'r flwyddyn ariannol. Amlygwyd bod nifer sylweddol o archwiliadau wedi'u cwblhau o dan Gynllun Gweithredol 2025/26, gyda'r canlyniadau'n dangos cymysgedd o lefelau sicrwydd.

34. Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor ar 9 Hydref 2025 yn diweddaru'r Aelodau ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd ddiwedd Medi 2025. Nodwyd bod cynnydd da wedi'i wneud o ran cwblhau archwiliadau, gyda rhai yn derbyn lefelau "sicrwydd uchel" a "sicrwydd digonol", ond hefyd

nifer o achosion ble nodwyd “sicrwydd cyfyngedig”, yn enwedig mewn meysydd gwasanaeth sensitif megis gofal preswyl a gwasanaethau cefnogol.

35. Cyflwynwyd adroddiad ychwanegol i gyfarfod y Pwyllgor ar 3 Chwefror 2026, yn cwmpasu gwaith Archwilio Mewnol hyd 25 Ionawr 2026. Amlygwyd bod nifer sylweddol o archwiliadau cynllun gweithredol 2025/26 wedi eu cwblhau, gyda’r canlyniadau’n adlewyrchu heriau parhaus mewn cydymffurfiaeth â phrosesau, yn hytrach nag absenoldeb trefniadau rheoli ffurfiol.

36. Rhoddwyd sylw manwl i’r holl adroddiadau hyn gan y Pwyllgor. Lle nodwyd lefel sicrwydd cyfyngedig, gwnaethpwyd cais am wybodaeth ddilynol, eglurhad pellach ac amserlenni gweithredu priodol, er mwyn galluogi’r Pwyllgor i gyflawni ei ddyletswyddau llywodraethu a sicrhau bod camau gwella priodol yn cael eu cymryd gan yr Adrannau perthnasol.

37. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn gynnwys yr adroddiadau Archwilio Mewnol, nodi’r wybodaeth a gyflwynwyd, a phwysleisio’r angen am gynnydd mesuradwy yn y meysydd ble nodwyd gwendidau parhaus. Tynnwyd sylw at werth galw materion penodol gerbron y Gweithgor Gwella Rheolaethau lle bo’n briodol.

38. Yn ystod cyfarfod 3 Chwefror 2026, cafwyd trafodaeth fanwl ar sefyllfa gwasanaethau gofal preswyl, gyda mewnbwn gan swyddogion perthnasol, yn cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr Corfforaethol. Ymhlith y materion a godwyd gan Aelodau roedd:

- Yr angen i sicrhau cyllidebau digonol a rheolaeth well dros wariant.
- Pryderon ynghylch gwendidau gweinyddol a chydymffurfiaeth reolaethol o fewn rhai darpariaethau.
- Yr angen am ddata rheolaethol dibynadwy i fonitro perfformiad a gwariant.
- Sicrhau bod llwyddiant gwelliant yn cael ei fesur ac yn weladwy dros amser.
- Y gofyn am adroddiadau dilynol clir ar gynnydd a chanlyniadau.

39. Penderfynwyd derbyn a nodi’r cynnydd hyd yma, cefnogi’r camau gweithredu a gytunwyd gan y gwasanaethau perthnasol, a chadarnhau bod angen diweddariad pellach yn ystod y flwyddyn ganlynol er mwyn rhoi sicrwydd bod gwelliannau’n cael eu gwreiddio a bod y risgiau a nodwyd gan Archwilio Mewnol yn cael eu lliniaru’n effeithiol.

<u>Adroddiadau Archwilwyr Allanol</u>

40. Cyflwynwyd adolygiad o’r Cynllun Dirprwyo i’r Pwyllgor yn ystod ei gyfarfod ar 11 Medi 2025, gyda’r bwriad o ystyried a chefnogi diwygiadau arfaethedig i’r trefniadau dirprwyo i swyddogion mewn perthynas â chaffael a gwaredu eiddo. Trafododd y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig, gan ystyried y goblygiadau llywodraethu a’r angen am gydbwysedd priodol rhwng hyblygrwydd gweithredol a threfniadau goruchwylio. Roedd y Pwyllgor yn fodlon cefnogi’r diwygiadau a chytunodd i’w hargymell i’r Cyngor Llawn i’w cymeradwyo, gan nodi bod y newidiadau’n cryfhau eglurder a chydymffurfiaeth o fewn y Cynllun Dirprwyo.

41. Ar 22 Mai 2025, cyflwynodd Archwilio Cymru adroddiadau i’r Pwyllgor yn rhan o’i waith archwilio allanol. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys adroddiadau cenedlaethol yn ymwneud â defnydd effeithiol o adnoddau a threfniadau llywodraethu, ynghyd ag adroddiadau oedd yn berthnasol i Gyngor

Gwynedd. Cyflwynwyd ymatebion rheolwyr oedd yn amlinellu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion, ac roedd y Pwyllgor yn fodlon gyda chynnwys yr ymatebion hyn.

42. Cyflwynwyd diweddariad ar Fenter Twyll Cenedlaethol 2024-25 i'r Pwyllgor yng nghyfarfod ar 13 Tachwedd 2025, gan amlinellu cynnwys yr ymarfer a'r trefniadau sydd mewn lle i adnabod ac atal twyll. Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth a gyflwynwyd, cynnig sylwadau ar y dull gweithredu a'r canfyddiadau cychwynnol, ac roedd yn fodlon derbyn yr adroddiad. Nodwyd bod y Fenter yn chwarae rôl bwysig wrth gryfhau trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a sicrwydd y Cyngor, a chytunodd y Pwyllgor i gadw goruchwyliaeth briodol dros unrhyw gamau dilynol sy'n deillio o'r gwaith.

43. Yn ystod 2025/26, ystyriodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nifer o faterion yn ymwneud â Threth Cyngor fel rhan o'i rôl sicrwydd dros reolaeth ariannol a refeniw'r Cyngor. Yn y cyfarfod ar 13 Tachwedd 2025, cyflwynwyd adroddiad ar Gyfraddau Casglu Treth Cyngor, gan ddarparu trosolwg o berfformiad presennol y trefniadau casglu a'r ffactorau sy'n dylanwadu arnynt. Ystyriodd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad, gan nodi'r heriau a'r risgiau perthnasol, a chyflwynodd sylwadau lle bo angen, gan amlygu ei gefnogaeth i'r trefniadau gweithredol a'r camau sydd mewn lle gan yr adran.

44. Yn ogystal, yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 15 Ionawr 2026, cyflwynwyd Polisi Lleihau Treth Cyngor o dan Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, gan roi trosolwg o'r sefyllfa bresennol a'r risgiau perthnasol sy'n deillio o gynnwys y Polisi. Ystyriodd y Pwyllgor y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet, gan drafod y goblygiadau ariannol a llywodraethu, a nododd briodoldeb y trefniadau, gan ddarparu goruchwyliaeth briodol fel rhan o'i rôl sicrwydd mewn perthynas â phenderfyniadau cyllidol y Cyngor.

45. Cyflwynwyd canfyddiadau archwiliad y Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) i drefniadau'r Cyngor mewn perthynas ag ymateb i geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol i'r Pwyllgor yn ystod ei gyfarfod ar 22 Mai 2025, gan ddarparu trosolwg o'r canfyddiadau a'r meysydd i'w gwella. Ystyriodd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad, gan nodi'r goblygiadau llywodraethu a'r angen am drefniadau cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon derbyn yr adroddiad ac yn cydnabod pwysigrwydd gweithredu'r camau priodol i gryfhau trefniadau ymateb, tryloywder a rheoli gwybodaeth y Cyngor.

46. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Pwyllgor hefyd adroddiadau penodol gan Archwilio Cymru mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau statudol a threfniadau llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys adroddiadau oedd yn archwilio sut mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn asesu cynaliadwyedd ei weithgarwch a'i flaenoriaethau strategol. Ystyriodd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiadau, ynghyd â'r ymatebion sefydliadol, a nodwyd bod y camau gweithredu arfaethedig yn briodol ac yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor.

47. Ar 11 Medi 2025, cyflwynwyd i'r Pwyllgor adroddiad Arolygiadau allanol perthnasol, yn cynnwys gwaith arolygu ar wasanaethau penodol. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad ar ganfyddiadau ac argymhellion yr arolygiad, gan nodi'r gwaith cadarnhaol a wnaed gan y gwasanaethau dan sylw. Lle bo'n briodol, awgrymwyd y dylid datblygu'r data a gyflwynir yn y dyfodol er mwyn cryfhau'r dystiolaeth perfformiad, gan gynnwys ystyriaeth o feysydd megis y ddarpariaeth Gymraeg.

48. Cyflwynwyd adroddiadau pellach gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor yn ystod 2025/26 yn ymwneud â gofal, gweithio mewn partneriaeth a gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, gan gynnwys gwaith ar y cyd ar lefel ranbarthol. Nodwyd bod y Cyngor yn chwarae rhan weithredol mewn trefniadau rhanbarthol, a bod llawer o'r canfyddiadau'n cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol Cyngor Gwynedd. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn cynnwys yr adroddiadau a gofyn am ddiweddariadau pellach ar gynnydd yn erbyn argymhellion lle bo hynny'n briodol.

49. Wrth gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 3 Chwefror 2026, ystyriodd y Pwyllgor fater capasiti ac ansawdd Archwilio Mewnol fel rhan o'i rôl darparu sicrwydd annibynnol. Codwyd pryderon ynghylch gallu'r Uned Archwilio Mewnol i gwrdd â disgwyliadau'r Cyngor, ac ystyriwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid a oedd yn amlinellu'r sefyllfa a'r risgiau posibl. Rhoddodd y Pwyllgor bwyslais ar yr angen i sicrhau bod gwaith Archwilio Mewnol yn parhau i fod o safon uchel, a chytunodd i gadw'r sefyllfa dan oruchwyliaeth barhaus er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheoli risg y Cyngor yn parhau'n gadarn.

50. Yn y cyfarfod ar 15 Ionawr 2026, ystyriodd y Pwyllgor adroddiadau Archwilio Cymru ar gynaliadwyedd ariannol, gan gynnwys adroddiadau cenedlaethol a lleol oedd yn asesu gallu awdurdodau lleol i ymateb i bwysau ariannol tymor canolig a thymor hir. Cyflwynwyd ymateb y Cyngor i'r argymhellion, gan gynnwys cynllun gweithredu. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd ymhlith materion eraill:

- Bod angen datblygu'r cynllun gweithredu ymhellach dros amser, gan gydnabod mai cychwyn y broses oedd y camau cychwynnol.
- Y posibilrwydd o dreialu dulliau newydd o gyllidebu, megis cyllidebu di-sylfaen, i gefnogi trawsnewid gwasanaethau.
- Bod yr adroddiadau'n ystyried y darlun strategol ehangach o gynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol.
- Bod sefyllfa cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cael ei derbyn, ond eu bod i'w defnyddio at ddibenion penodol, ac nid i gysgodi problemau strwythurol.

51. Cafodd hyfforddiant ei ddarparu I'r Pwyllgor ar y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (Global Internal Audit Standards) ar 29 Ionawr, 2026.

52. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiadau cenedlaethol a lleol a nodi ymateb y Cyngor i'r argymhellion a gyflwynwyd, gan bwysleisio'r angen am fonitro cynnydd a rhoi sicrwydd bod y camau gweithredu'n cael eu gweithredu'n effeithiol.

53. Wrth gyfarfod ar 15 Ionawr 2026, ystyriodd y Pwyllgor y Cynllun Ymateb i Adroddiad "Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder". Bu'r Pwyllgor yn craffu ar y trefniadau a gynnigwyd er mwyn ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad, gan ystyried y goblygiadau llywodraethu, atebolrwydd a chydraddoldeb. Darparwyd sicrwydd bod camau priodol wedi'u nodi, gyda mecanweithiau monitro mewn lle, a chytunodd y Pwyllgor i gadw goruchwyliaeth barhaus dros weithredu'r cynllun ymateb fel rhan o'i rôl sicrwydd annibynnol.

54. Cyflwynwyd Crynodeb Archwilio Blynyddol i'r Pwyllgor yn ystod 2025/26, oedd yn amlinellu'r gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Cymru ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol blaenorol. Nodwyd bod y crynodeb hwn yn rhan o ddyletswyddau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr adroddiad yn rhoi trosolwg clir a defnyddiol o'r gwaith archwilio allanol perthnasol i

Gyngor Gwynedd.

55. Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru “Llety dros dro – argyfwng hirdymor?” i’r Pwyllgor yn ystod cyfarfod 3 Chwefror 2026, gan roi trosolwg o’r canfyddiadau a’r heriau cynyddol sy’n wynebu awdurdodau lleol mewn perthynas â darpariaeth llety dros dro. Nodwyd bod yr adroddiad hwn yn rhan o waith archwilio cenedlaethol Archwilio Cymru, ac roedd y Pwyllgor yn cydnabod ei berthnasedd i drefniadau llywodraethu a rheoli risg y Cyngor. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr adroddiad yn tynnu sylw at oblygiadau ariannol a strategol hirdymor pwysig, a nododd bwysigrwydd cadw goruchwyliaeth briodol dros ymateb y Cyngor i’r materion a nodwyd.

56. Yng nghyfarfod Ionawr 15, 2026 cyflwynwyd Adroddiad Arolygiadau Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru, gan ddarparu trosolwg o ganfyddiadau arolygiadau diweddar a’u goblygiadau i wasanaethau’r Cyngor. Nodwyd bod yr adroddiad yn cefnogi rôl sicrwydd y Pwyllgor drwy dynnu sylw at feysydd o gryfder a meysydd i’w gwella, ac roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i lywio trefniadau llywodraethu a goruchwyliaeth. Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad, gan nodi’r canfyddiadau a’r camau priodol a nodwyd mewn ymateb i’r arolygiadau.

<u>Datganiad Llywodraethu Blynyddol</u>

57. Un o orchwylion blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw adolygu a chymeradwyo’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft. Er nad yw’r Datganiad yn rhan o’r cyfrifon ffurfiol, mae’n ddogfen statudol sy’n ofynnol i’w chyhoeddi ochr yn ochr â’r cyfrifon. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Chod Ymarfer CIPFA, rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau bod datganiad o reolaeth fewnol briodol yn ei le. Y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor sy’n arwyddo’r Datganiad, ond mae angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sydd â rôl allweddol yn herio a gwirio ei gynnwys.

58. Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2024/25 i’r Pwyllgor ar 11 Medi 2025. Bu’r Pwyllgor yn ystyried ac yn herio cynnwys y Datganiad, gan wneud arsylwadau ar lefelau a sgoriau risg penodol, yn enwedig y meysydd oedd yn parhau i gael eu nodi fel risgiau uchel neu risgiau canolig. Yn dilyn y drafodaeth, ac ar ôl ystyried yr eglurhad gan swyddogion, penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo’r Datganiad ac argymell bod Arweinydd y Cyngor a Phrif Weithredwr y Cyngor yn ei arwyddo.

59. Wrth symud ymlaen, nododd y Pwyllgor yr angen i barhau i ddatblygu’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel dogfen sy’n fwy hygyrch ac eglur i drigolion. Er bod y Datganiad yn cydymffurfio â chanllawiau CIPFA, awgrymwyd ystyried adolygu’r cwestiynau a’r strwythur, a hefyd y posibilrwydd o gryfhau’r cysylltiad rhwng y Datganiad a Hunanasesiad Blynyddol Cyngor Gwynedd, er mwyn osgoi dyblygu gwaith a sicrhau naratif mwy cydlynol ynghylch llywodraethu, risg a gwelliant parhaus.

<u>Gweithgor Gwella Rheolaethau</u>

60. Cynhaliwyd cyfarfod o’r Gweithgor Gwella Rheolaethau yn ystod 2025/26, gyda phwyslais ar gryfhau trefniadau rheoli a chydymffurfiaeth mewn meysydd gwasanaeth risg uchel. Roedd Cadeirydd y

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Carys Edwards, a'r Is-gadeirydd, Rhys Parry, ynghyd ag Aelodau Etholedig perthnasol, swyddogion Archwilio Mewnol a swyddogion o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, yn bresennol. Galwyd y materion gerbron y Gweithgor yn dilyn penderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gael sicrwydd pellach ynghylch gweithrediad argymhellion archwilio mewnol, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth ofal preswyl.

61. Adroddwyd yn ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod y trafodaethau wedi bod yn fuddiol, gan roi cyfle i swyddogion a rheolwyr gwasanaethau ymateb yn agored ac yn adeiladol i'r canfyddiadau archwilio. Nodwyd pryder parhaus ynghylch dibyniaeth ar staff asiantaeth a'r goblygiadau costus, a chytunwyd bod angen parhau i archwilio opsiynau i gryfhau trefniadau recriwtio a chadw staff o fewn trefniadau cyflogaeth y Cyngor, er mwyn lleihau costau a gwella sefydlogrwydd. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod rôl y Gweithgor Gwella Rheolaethau yn parhau'n werthfawr, a gwnaed awgrym i barhau i atgyfeirio materion perthnasol at y Pwyllgor Craffu Gofal, yn ogystal â sicrhau bod adroddiadau'r Gweithgor yn cynnwys crynodeb clir o'r materion allweddol a'r camau gweithredu cytunedig, er mwyn hwyluso goruchwyliaeth effeithiol yn y dyfodol.

<u>Cyd Bwyllgor Corfforedig y Gogledd – Sefydlu Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio</u>

62. Ar 9 Hydref 2025, cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth i'r Pwyllgor, gyda'r argymhelliad fod y Pwyllgor yn enwebu un Cynghorydd i wasanaethu ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, ac un Cynghorydd i weithredu fel dirprwy ar gyfer yr aelod hwnnw. Gofynnwyd i'r Pwyllgor hefyd benderfynu a oedd yn dymuno enwebu Aelod Lleyg i wasanaethu ar yr Is-bwyllgor perthnasol.

63. Penderfyniad y Pwyllgor oedd enwebu'r Cynghorydd Ioan Thomas i wasanaethu ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, ac enwebu'r Cynghorydd Richard Glyn Roberts i weithredu fel dirprwy. Yn ogystal, penderfynwyd enwebu Carys Edwards, Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd, i'w hystyried i wasanaethu ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd fel Aelod Lleyg.

**I adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion mewn modd effeithiol, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion**

64. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Cwynion a Gwella Gwasanaeth 2024/25 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod cyfarfod Medi 11 2025, er mwyn diweddaru'r Pwyllgor ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer ymdrin â chwynion, ynghyd â chynnwys Llythyr Blynyddol Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

65. Atgoffwyd yr Aelodau fod gan y Pwyllgor ddyletswydd statudol i sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion, a bod y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Nodwyd nad oedd unrhyw newidiadau sylfaenol wedi'u gwneud i'r Polisi Pryderon a Chwynion yn ystod y flwyddyn, ac felly bod y trefniadau'n parhau i weithredu o fewn y fframwaith a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

66. Cyfeiriwyd at y Llythyr Blynyddol gan yr Ombwdsman, a'r sylwadau a'r argymhellion a wnaethpwyd ynddo ynghylch perfformiad y Cyngor o ran ymdrin â chwynion. Nodwyd yn benodol yr anogaeth i'r Cyngor, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ddefnyddio'r data cwynion yn fwy effeithiol er mwyn

deall tueddiadau, adnabod patrymau, a gwerthuso pa mor dda y mae dulliau ymdrin â chwynion wedi'u gwreiddio ar draws gwasanaethau'r Awdurdod.

67. Ar ôl trafodaeth ar gynnwys yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr Adroddiad Blynyddol Cwynion a Gwella Gwasanaeth, gan nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd a chydnabod pwysigrwydd parhau i fonitro'r trefniadau, er mwyn sicrhau bod dysgu o gwynion yn cael ei ddefnyddio i wella gwasanaethau'r Cyngor a chryfhau ymddiriedaeth y cyhoedd.

**Arolygu a monitro trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod**

Rhaglen Waith Archwilio Mewnol

68. Cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig o Siarter Archwilio Mewnol i gyfarfod y Pwyllgor ar 22 Mai 2025. Yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (Global Internal Audit Standards), a ddaeth i rym yn y sector gyhoeddus o 1 Ebrill 2025, rhaid llunio Siarter Archwilio Mewnol sy'n adlewyrchu'r safonau newydd a'r Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol. Cyfrifoldeb y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw adolygu a chymeradwyo'r Siarter yn flynyddol fel rhan o'i rôl oruchwylio.

69. Tynnwyd sylw at y newidiadau sylweddol a wnaed i'r Siarter Archwilio Mewnol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, gan gynnwys egluro mandad y gwasanaeth, cryfhau trefniadau annibyniaeth ac atebolrwydd, a sicrhau bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn alinio'n gliriach â blaenoriaethau strategol a risgiau corfforaethol y Cyngor. Nodwyd hefyd fod pwrpas y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi parhau i ehangu, gan gynnwys pwyslais cynyddol ar sicrwydd, cynghori a chefnogi gwelliant.

70. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r goblygiadau llywodraethu, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol wedi'i diwygio. Derbyniwyd a chymeradwywyd cynnwys y Mandad a'r Siarter Archwilio Mewnol, eu mabwysiadu'n ffurfiol, a mynegi cefnogaeth y Pwyllgor i Archwilio Mewnol wrth gyflawni ei swyddogaethau yng nghyfarfod 3 Chwefror, 2026.

71. Yn yr un cyfarfod, cymeradwyodd y Pwyllgor Strategaeth Archwilio Fewnol a'r Cynllun Archwilio Blynyddol ar gyfer 2026/27, a gafodd eu llunio ar sail asesiad risg corfforaethol y Cyngor, y blaenoriaethau strategol a'r adnoddau archwilio mewnol oedd ar gael, er mwyn sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r adnoddau hynny.

72. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ar gynnydd Cynllun Archwilio Blynyddol 2025/26 yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys mewn cyfarfodydd ar 9 Hydref 2025 a Chwefror 2026. Cyfeiriwyd at statws y gwaith archwilio, lefel cwblhau'r cynllun, a'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Cymeradwyodd y Pwyllgor addasiadau priodol i'r Cynllun Archwilio, er mwyn adlewyrchu'r adnoddau oedd ar gael i'r gwasanaeth ac i sicrhau bod y gwaith yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd risg uchaf i'r Cyngor.

Rhaglen Waith Archwilio Cymru

73. Cyflwynwyd Cynllun Archwilio Manwl 2025 gan Archwilio Cymru i gyfarfod y Pwyllgor ar 11 Medi 2025. Roedd y Cynllun yn nodi'r gwaith yr oedd yr archwilwyr yn bwriadu ei wneud er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel archwilwyr allanol y Cyngor, yn unol â'u rôl o dan God Ymarfer Archwilio Cymru. Nodwyd y byddai'r archwiliad o'r datganiadau ariannol yn canolbwyntio ar risgiau allweddol y Cyngor a meysydd blaenoriaeth benodol, tra byddai'r gwaith archwilio perfformiad yn ystyried trefniadau sicrwydd, rheoli risg, a meysydd gwaith lleol priodol yn adlewyrchu'r heriau presennol sy'n wynebu'r Cyngor.

74. Cyfeiriodd y Cynllun Archwilio Manwl at risgiau sylweddol i'r datganiadau ariannol sy'n gyffredin i bob Awdurdod Lleol, gan gynnwys y risg o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, yn ogystal â meysydd penodol lle byddai'r gwaith archwilio yn canolbwyntio, megis prisiad tir ac adeiladau a phrisio rhwymedigaethau net Cronfa Bensiwn y Cyngor. Nodwyd bod y meysydd hyn yn parhau'n feysydd risg uchel sy'n gofyn am sylw penodol gan archwilwyr allanol.

75. Yn ystod 2025/26, cyflwynwyd diweddariadau chwarterol rheolaidd gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor ar gynnydd y gwaith archwilio a statws cyflawni'r Cynllun Archwilio Manwl. Roedd y diweddariadau hyn yn darparu sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch cynnydd y gwaith, unrhyw newidiadau i'r cwmpas neu'r amserlen, a bod y trefniadau archwilio allanol yn cael eu gweithredu yn unol â'r disgwyliadau statudol a phroffesiynol.

**Swyddogaethau Deddf 2021 – Perfformiad y Cyngor**

76. Mae'n ofyn statudol newydd yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fod y Cyngor yn cynhyrchu "adroddiad hunanasesu" sy'n nodi ei gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y gwnaeth y Cyngor fodloni'r gofynion perfformiad sydd wedi eu gosod allan yn y Ddeddf yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol. Mae'r un darn o ddeddfwriaeth yn nodi fod rhaid i'r Cyngor sicrhau bod fersiwn ddrafft o'i adroddiad hunanasesu ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio (Adran 91(6)).

77. Cyflwynwyd Adroddiad Hunanasesiad drafft Cyngor Gwynedd ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod ar 9 Hydref 2025, a chafwyd trafodaeth fanwl ar gynnwys yr adroddiad. Ar ôl ystyried y ddogfen, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr hunanasesiad drafft, gan nodi ei fod yn bodloni'r gofynion statudol, ond gwnaethpwyd nifer o sylwadau ac awgrymiadau gyda'r bwriad o gryfhau golwg, eglurder a gwerth y ddogfen i'r dyfodol.

78. Ymhlith y sylwadau a nodwyd gan y Pwyllgor roedd yr awydd i gael ei gynnwys yn gynharach yn y broses o lunio'r hunanasesiad, er mwyn sicrhau mewnbwn mwy ystyrlon a chyfle gwell i ddylanwadu ar gynnwys y ddogfen cyn iddi gael ei chwblhau. Awgrymwyd mai cynnal gweithdy gyda'r Aelodau fyddai ffordd briodol o hwyluso trafodaeth ddyfnach a chasglu argymhellion cliriach gan y Pwyllgor.

79. Awgrymodd y Pwyllgor hefyd y dylid ystyried trefniadau ymgynghori priodol yn y dyfodol, er mwyn sicrhau mewnbwn trigolion Gwynedd i'r broses hunanasesu. Yn ogystal, pwysleisiwyd wrth gyflwyno data a mesurau perfformiad fod angen eglurder llawn o ran cyd-destun ac effaith. Yn benodol, o ran y gwaith ar Gynyddu Cyflenwad Tai i Bobl Leol, awgrymodd y Pwyllgor y dylai'r adroddiad amlygu nid yn unig niferoedd, ond hefyd effaith y camau ar gymunedau a chynaliadwyedd tymor hir y Sir.

**Monitro ymateb a gweithrediad ar argymhellion archwilwyr allanol a rheoleiddwyr**

80. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar Argymhellion a Chynigion Gwella sy'n deillio o Adroddiadau Archwilio Allanol a Rheoleiddwyr yn y cyfarfod ar 9 Hydref 2025. Yn unol â'i rôl statudol, ystyrir ei bod yn hanfodol bod y Pwyllgor yn fodlon bod trefniadau priodol a chadarn yn eu lle er mwyn sicrhau bod yr holl argymhellion a chynigion gwella perthnasol yn cael eu gweithredu mewn modd amserol ac effeithiol.

81. Ar sail yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, ynghyd â'r gwaith herio a thrafodaethau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer ymateb i argymhellion archwilio allanol a rheoleiddwyr yn gadarn, gyda pherchnogaeth glir adrannol, prosesau adrodd sefydledig, a goruchwyliaeth briodol ar lefel gorfforaethol.

82. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn a nodi bod trefniadau a phrosesau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod cynigion gwella o adroddiadau archwilio allanol a rheoleiddwyr yn cael eu gweithredu a'u monitro. Croesawyd y trefniadau i adrodd ar gynnydd bob chwe mis i'r Pwyllgor, yn ogystal â'r dull diwygiedig o gyflwyno ymatebion adrannol i gyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad, gan gryfhau atebolrwydd ac yn sicrhau bod cynnydd yn erbyn argymhellion yn cael ei fonitro'n fwy systematig a thryloyw.

**Effeithiolrwydd y Pwyllgor**

83. Yn ystod 2025/26, derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ar y camau a gymerwyd i weithredu penderfyniadau'r Pwyllgor i bob un o'i gyfarfodydd, lle'r oedd hynny'n ymarferol. Credai'r Pwyllgor fod y drefn hon yn parhau i fod yn gam pwysig er mwyn sicrhau atebolrwydd, tryloywder a gweithrediad effeithiol o'i benderfyniadau.

84. Fel rhan o'i ymrwymiad i welliant parhaus, bu'r Pwyllgor yn parhau i adeiladu ar ganfyddiadau hunanasesiad blaenorol, gan ystyried ei effeithiolrwydd, ei gyfansoddiad a'i dulliau gwaith. Parhaodd y Pwyllgor i ddefnyddio canllawiau a safonau CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio fel fframwaith i werthuso ei waith, gan sicrhau bod trefniadau'r Pwyllgor yn alinio â'r arferion gorau a nodir yn Natganiad Safbwynt CIPFA.

85. Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Pwyllgor gynnydd yn erbyn y camau gweithredu a ddeilliodd o'r hunanasesiad, gan gytuno i barhau i gefnogi camau oedd yn cryfhau effeithiolrwydd y Pwyllgor, yn enwedig o ran perthnasoedd gweithio gyda rheoleiddwyr allanol ac Archwilio Mewnol, a rôl y Pwyllgor mewn herio ac ychwanegu gwerth.

86. Fel rhan o’r trefniadau i gefnogi effeithiolrwydd parhaus, cafodd y Pwyllgor flaenraglen dreigl ei chyflwyno i’w gyfarfodydd, gan alluogi cynllunio rhagweithiol, blaenoriaethu eitemau statudol a thematig, a sicrhau bod digon o amser ar gael i graffu materion allweddol. Roedd y Pwyllgor o’r farn bod y dull hwn yn cyfrannu’n gadarnhaol at effeithiolrwydd cyffredinol ei waith yn ystod 2025/26.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD** | **2 Gorffennaf 2026** |
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2025/26** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno'r adroddiad er sylw Aelodau'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Dylan Owen, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** |

## 1. Cefndir

1.1. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn flaenorol.

1.2. Diben yr adroddiad blynyddol yw nodi taith yr awdurdod lleol tuag at wella wrth ddarparu gwasanaethau i drigolion, y rheiny sy'n derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth, a'r unigolion a'r gofalwyr hynny sy'n derbyn gofal a chymorth.

1.3. O dan ofynion y Ddeddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant, gofynnir i mi fel Cyfarwyddwr ystyried yr ystod wybodaeth a phrofiadau sy'n effeithio ar allu Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dibynadwy, cynaliadwy, o'r safon uchaf, gan fynegi fy marn a'i gyflwyno i'r Cyngor. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at unrhyw wersi a ddysgwyd, ac yn amlinellu'r blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod. Mae hefyd yn egluro sut y gwnaethom asesu anghenion pobl, a'u cynnwys yn ganolog wrth siapio ein gwasanaethau a'n darpariaeth gofal.

1.4. Dilyna ffurf yr adroddiad ganllawiau a thempled cenedlaethol ac rydym yn asesu ein perfformiad fesul pedwar prif bennawd: **Pobl**, **Atal**, **Partneriaeth** a **Lles**.

1.5. Fel y nodir yn rhagair yr adroddiad, mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un o'r rhai mwyaf heriol yn hanes 30 mlynedd Cyngor Gwynedd. Fe wynebodd Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn arbennig yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, cyfnod o newid a her sylweddol yn dilyn canfyddiadau Adolygiad Ymarfer Plant *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder*, a amlygodd wendidau difrifol mewn trefniadau diogelu. O ganlyniad, bu angen canolbwyntio'n glir ar ddysgu, adfer ymddiriedaeth a sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwireddu.

1.6. Mae'r flwyddyn felly wedi gweld ffocws sylweddol ar ymateb i argymhellion *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder*. Mae gwaith wedi mynd rhagddo i gryfhau trefniadau sy'n sicrhau bod llais plant wrth galon penderfyniadau, datblygu a chryfhau'r fframwaith sicrwydd ansawdd, a chodi proffil diogelu ar draws y Cyngor. Mae'r craffu annibynnol a ddarparwyd drwy'r Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb wedi bod yn elfen bwysig o'r gwaith gwella, ac mae'r her adeiladol a'r

gefnogaeth a ddarparwyd wedi cael eu croesawu wrth helpu'r Cyngor i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu troi'n newid ymarferol a chynaliadwy.

1.7. Er bod y gwaith hwn wedi cymryd blaenoriaeth a chyfran helaeth o amser y cyfarwyddwr yn ystod y flwyddyn, mae'n bwysig cydnabod hefyd y cynnydd a'r llwyddiannau a gyflawnwyd ar draws ystod eang o wasanaethau. Mae'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu wedi parhau i ehangu cyfleoedd gwaith i unigolion, gan gynyddu nifer y bobl sydd ar lwybr tuag at gyflogaeth â thâl teg. Mae cydweithio llwyddiannus gyda Mantell Gwynedd a phartneriaid eraill wedi cryfhau cymorth cymunedol, tra bod gwaith arloesol y Tîm Awtistiaeth a thwf parhaus Dementia Actif Gwynedd yn dangos gwerth buddsoddi mewn dulliau creadigol ac ataliol sy'n gwella bywydau pobl.

1.8. Yn ystod y flwyddyn gwelir hefyd ddefnydd cynyddol o dechnoleg ac arloesedd i gefnogi pobl a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau. O deleofal, y gath robotig a'r adnodd hunanasesu *Helpu'n Hyn*, i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial drwy Beam Notes a datblygiadau megis Ap Niwro, mae technoleg yn cynnig ffyrdd newydd o hyrwyddo annibyniaeth a gwella effeithlonrwydd. Defnyddiwyd penwisgoedd realiti rhithwir i gefnogi hyfforddiant staff, tra bod dulliau newydd o gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth drwy gyfrif tics-tocs *Gwynedd yn Gwenu*, yn ein helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a rhannu straeon cadarnhaol am ofal a llesiant.

1.9. Cryfder mwyaf ein gwasanaethau, fodd bynnag, yw ein gweithlu. Mae'r straeon a'r dyfyniadau a geir drwy'r adroddiad yn dangos effaith uniongyrchol eu gwaith ar fywydau pobl. Yn ystod ymweliadau'r Cyfarwyddwr â thimau ar draws y sir, mae'r un neges wedi dod i'r amlwg dro ar ôl tro: mae'n gyfnod heriol, gyda phwysau gwaith yn drwm, trafferthion recriwtio a chymhlethdod cynyddol anghenion. Serch hynny, mae ymrwymiad, tosturi a phroffesiynoldeb y gweithlu yn parhau'n amlwg. O'r rhai sydd wedi ymroi i'r sector ers degawdau i'r rhai sydd newydd ddechrau eu gyrfa drwy'r Academi Gofal, mae'r un balchder a phenderfyniad i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl i'w weld. Estynnir diolch diffuant iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr.

1.10. Ceisir gyflwyno darlun cytbwys yr yr adroddiad hwn. Ochr yn ochr â'r llwyddiannau, rydym wedi ceisio bod yn agored ynghylch y meysydd lle mae angen gwneud mwy. O ganlyniad, mae pob adran yn cynnwys blychau "Sut y gallwn wneud pethau'n well?" sy'n amlygu'r prif feysydd ar gyfer gwelliant a datblygiad pellach.

1.11. Ymhlith y rhain mae datblygu rhagor o ddarpariaeth leol i blant drwy'r rhaglen cartrefi bychain a maethu di-elw, ehangu'r defnydd o daliadau uniongyrchol, cryfhau'r gefnogaeth i ofalwyr di-dâl, a gwella cydweithio o fewn y Cyngor a gyda phartneriaid allanol. Mae ymchwil *Llechen Lân* hefyd wedi amlygu'r angen i gryfhau cynllunio strategol a datblygu gwasanaethau mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd y meysydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol dros y flwyddyn i ddod.

1.12. Yn unol â'r drefn perfformiad mewnol y Cyngor, mi fydd y gwasanaethau perthnasol yn cael eu herio dros y flwyddyn nesaf ac bydd adroddiadau ar y

perfformiad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu yn rheolaidd. Bydd trosolwg o berfformiad y gwasanaethau am y flwyddyn gyfan hefyd ar gael yn Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd ar gyfer 2025/26.

## 2. Argymhelliad

2.1. Gofynnir i'r Cyngor nodi cynnwys yr adroddiad sydd wedi ei gyflwyno gan y Cyfarwyddwyr Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod.

## 3. Barn y Swyddogion Statudol

**Y Swyddog Monitro:**

*Mae cyflwyno yr adroddiad i'r Cyngor Llawn yn rhoi cyfle I ystyried y gwaith a'r heriau sydd yn wynebu'r "Gwasanaethau Cymdeithasol" o bersbectif y Cyfarwyddwr Statudol. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr adroddiad.*

**Pennaeth Cyllid:**

*Credaf fod yr wybodaeth ariannol sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol yn adlewyrchiad teg o sefyllfa'r Gwasanaethau Cymdeithasol am 2025/26. Rwyf yn fodlon na fydd cymeradwyo'r adroddiad blynyddol hwn yn golygu unrhyw ymrwymiad ariannol ychwanegol gan y Cyngor.*







# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

## 2025/26

CYNGOR GWYNEDD








# CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| Gair gan y Cyfarwyddwr | 3 |
| Trosolwg o'r flwyddyn a fu | 4 |
| Cyd-Destun: Arweinyddiaeth, Gweithlu, Arian a Mwy na Geiriau | 7 |

**ASESU PERFFORMIAD FESUL THEMA**

| | |
|---|---|
| Pobl: Llais a Rheolaeth | 14 |
| Atal | 21 |
| Partneriaeth ac Integreiddio | 28 |
| Lles | 35 |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth bellach | 42 |


- *Os ydych chi angen yr adroddiad yma mewn iaith neu fformat arall, ffoniwch ni ar 01766 771000 neu e-bostiwch Cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru*
- *If you require this report is an alternative language or format, please call us on 01766 771000 or e-mail Equality@gwynedd.llyw.cymru*
- Якщо вам потрібен цей звіт в іншому форматі або іншою мовою, зателефонуйте нам за номером 01766 771000 або надішліть електронну пошту Equality@gwynedd.llyw.cymru
- *Jeśli potrzebujesz tego raportu w innym języku lub formacie, zadzwoń do nas pod numer 01766 771000 lub wyślij e-mail do Equality@gwynedd.llyw.cymru*
- 如果您需要该报告用其它语言或格式，请致电 *01766 771000* 或发送电子邮件给我们： Equality@gwynedd.llyw.cymru
- إذا أردت هذا التقرير بلغة أو تنسيق (شكل) بديل، فيرجى الاتصال بنا على ٠١٧٦٦ ٧٧١٠٠٠ أو البريد الإلكتروني Equality@gwynedd.llyw.cymru

*** Er mwyn diogelu preifatrwydd unigolion, rydym wedi newid enwau yn y straeon sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn.***

# GAIR GAN Y CYFARWYDDWR

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un o'r rhai anoddaf i Gyngor Gwynedd ei hwynebu yn ei hanes 30 mlynedd. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol, ac yn enwedig yr Adran Gwasanaethau Plant, wedi bod drwy gyfnod o her a newid sylweddol, yn dilyn methiannau difrifol yn y gwasanaeth ac Adolygiad Ymarfer Plant, *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder*, a amlygodd wendidau mewn diogelu.

Bu newid mawr yn yr arweinyddiaeth ar draws y gwasanaethau i oedolion a phlant. Mae'n bwysig cydnabod bod pobl wedi dioddef ac wedi cael eu brifo yn ddifrifol, ac ar ran Cyngor Gwynedd, ymddiheuraf.

Ar yr un pryd, rwyf am gydnabod cryfder, ymroddiad a gwytnwch y gweithlu. Er gwaethaf cyhoeddusrwydd anodd a naratif negyddol am eu gwaith, mae'r staff wedi parhau i wneud eu gorau i gadw plant ac oedolion bregus yn ddiogel, ac i helpu pobl i fyw bywydau boddhaus yn eu cymunedau.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun cytbwys: mae'n onest am y methiannau a'r gwaith sydd dal i'w wneud, ond mae hefyd yn cydnabod y canlyniadau cadarnhaol a'r llwyddiannau a gyflawnwyd i unigolion ledled Gwynedd. Hoffwn ddiolch i'r gweithlu am eu gwaith caled a'u hymrwymiad, ac am helpu'r gwasanaethau cymdeithasol i barhau i wella, cryfhau a datblygu.



Dylan Owen

**Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol**

# TROSOLWG O'R FLWYDDYN A FU ...

**4,278** ⌄ 225

O GYSYLLTIADAU AR GYFER OEDOLION



**8,069** ⌃ 284

O GYFEIRIADAU PLANT



**540** ⌃ 163

O GYFEIRIADAU IECHYD MEDDWL



NIFER SY'N DERBYN GWASANAETH TELEOFAL (31.03.26)



**1,600** ⌃ 72

% SY'N DERBYN GWASANAETH DRWY DALIADAU UNIONGYRCHOL




**20%** ⌃ 3%

**293** ⌃ 12

O BLANT MEWN GOFAL



NIFER YR ORIAU GOFAL CARTREF SY'N CAEL EI DDARPARU FESUL WYTHNOS ....



**8,754** ⌃ 421

...OND, MAE

**62** ⌃ 12



O UNIGOLION YN AROS DROS 28 DIWRNOD AM OFAL CARTREF

NIFER O OEDOLION MEWN CARTREF PRESWYL NEU NYRSIO (31.03.26)



**833** ⌃ 47

**96%** ⌄ 1%

O GYNADLEDDAU ACHOS LLE BU CLYWED LLAIS / BARN Y PLENTYN (5 oed+)



**94%** ⌃ 2%

O GYFEIRIADAU DIOGELU OEDOLION YR YMATEBWYD IDDYNT O FEWN 7 DIWRNOD

**292** ⌃ 29 *

O OFALWYR WEDI EU HASESU



*Nodwyd yn anghywir yn Adroddiad 2024/25*

**143** ⌄ 20

O OFALWYR IFANC YN DERBYN CEFNOGAETH

(Darparwyd gan Gweithredu dros Blant)



**84%** ⌃ 2%

O GYFEIRIADAU DIOGELU PLANT YR YMATEBWYD IDDYNT O FEWN Y CYFNOD STATUDOL



NIFER O OEDOLION SYDD Â CHYNLLUN GOFAL (31.03.26)

**2,296** ⌄ [illegible]

# TROSOLWG O'R FLWYDDYN A FU ...

Bu'r flwyddyn hon yn brysur a braf yw cydnabod gwaith caled y gweithlu...

**MAI 2025**

## PENODI PENNAETH ADRAN OEDOLION

Penodwyd Pennaeth newydd, Mari Wynne Jones, i'r Adran Oedolion yn dilyn ymddeoliad y Pennaeth blaenorol.

**GORFFENNAF 2025**

## DIGWYDDIAD I HYRWYDDO PERTHNASAU IACH

Cydweithiwyd gyda *Men at Work* i gefnogi addysg i bechgyn ifanc am berthnasau iach drwy gynnal digwyddiad i weithwyr maes.

## YMESTYN CYNNIG GOFAL PLANT AM DDIM

Ymestynnwyd darpariaeth *Dechrau'n Deg* yn llwyddiannus ar draws y Sir.

**AWST 2025**

## GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AR TIKS-TOKS

Dros yr haf, lansiwyd ein cyfrif TiksToks newydd – Gwynedd yn Gwenu. Sgroliwch, hoffwch a dilynwch!

**HYDREF 2025**

## CAM YN NES AT GARTREF NYRSIO YM MHENRHOS

Sicrhawyd cyllid pellach gan Lywodraeth Cymru i symud ymlaen gyda chynlluniau ar gyfer cartref nyrsio a chartref dementia ar safle Penrhos.

## DEMENTIA ACTIF YN ENILL GWOBR

Bu Dementia Actif Gwynedd yn falch o ennill Gwobr Partner Diogelwch Cymunedol gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, gan gydnabod gwerth eu cydweithio i wella diogelwch a lles trigolion.

**IONAWR 2026**

## LANSIO AP NIWRO

Lansiwyd ap ffôn symudol newydd yn canolbwyntio ar niwrowahaniaeth, gyda'r nod o wella cymorth i unigolion a rhieni.

**MAWRTH 2025**

## ADEILADU CANOLFAN DOLFEURIG

Gwnaed cynnydd da ar ail-ddatblygu canolfan gwasanaethau anabledd dysgu yn Nolgellau, gyda'r disgwyl iddi agor yn ystod y flwyddyn i ddod.



Hyrwyddo'r Ap Niwro



Dementia Actif yn derbyn gwobr

# TROSOLWG O'R FLWYDDYN A FU ...

## CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru, *Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder*, yn yr hydref, lluniwyd cynllun ymateb cynhwysfawr gan Gyngor Gwynedd i fynd i'r afael â'r argymhellion, ynghyd â materion ehangach a nodwyd mewn archwiliadau ac ymchwiliadau cysylltiedig. Roedd hwn yn adroddiad heriol a damniol, ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwersi pwysig i'w dysgu.

Sefydlwyd Bwrdd Ymateb i oruchwylio'r gwaith, dan gadeiryddiaeth yr Athro Sally Holland, cyn Gomisiynydd Plant Cymru. Nod y Bwrdd yw sicrhau cynnydd cadarn a rhoi sicrwydd i'r Cyngor, aelodau etholedig a rhanddeiliaid fod camau pendant yn cael eu cymryd i gryfhau trefniadau diogelu ac i wella profiadau plant ac oedolion bregus yng Ngwynedd.

Ers hynny, mae'r bwrdd wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi elwa ar fewnbwn ac arweiniad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Estyn, Swyddfa Comisiynydd Plant a Llywodraeth Cymru. Ystyriwyd hefyd y dysgu o'r archwiliad ar y cyd gan AGC ac Estyn ym mis Tachwedd 2025. Mae yr Athro Sally Holland yn adrodd yn chwarterol i Gabinet y Cyngor, tra bod Grŵp Sicrwydd Gweinidogol Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

Erbyn Mawrth 2026, cyflawnwyd cynnydd cadarnhaol ar nifer o'r camau a nodwyd. Fodd bynnag, erys gwaith pellach, ac mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig i weithredu ar y dysgu a sicrhau gwelliannau parhaus. Yn hytrach nag ailadrodd yr hyn sydd eisoes wedi'i wneud a'r hyn sydd ar y gweill, cyfeirir at wefan sy'n darparu fersiwn syml a chrynodeb o raglen waith y Bwrdd fesul themâu: **Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb**

## HERIAU ERAILL I WASANAETHAU CYMDEITHASOL

Yn gyffredinol, cydnabuwyd bod y ffocws ar adroddiad *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder* a'r gwaith dilynol wedi cymryd y rhan fwyaf o'r amser a'r adnoddau oedd ar gael dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ei gwneud yn anodd rhoi sylw cyfartal i bob maes o'r gwasanaethau cymdeithasol.

Parhaodd nifer o heriau sylweddol drwy gydol y cyfnod, gan gynnwys:

- **Pwysau ariannol** parhaus (yn sgil costau cynyddol a chwyddiant)
- Nifer uchel o **swyddi gwag** a'r **anhawster o recriwtio** staff priodol
- **Agweddau negyddol** tuag at y gweithlu
- Heriau o ran **arweinyddiaeth** o fewn y gwasanaethau plant
- Newidiadau **demograffig.**

Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi dadansoddiad manylach o'r heriau hynny. Wrth symud ymlaen, bydd angen sicrhau gwell cydbwysedd o ran blaenoriaethu a chefnogi yn ystod y flwyddyn i ddod.

## Arweinyddiaeth

Mae’r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol, ond hefyd yn adeiladol, i arweinyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd. Bellach mae’r cyfarwyddwr wedi bod yn ei rôl ers tair blynedd, gan roi rhywfaint o sefydlogrwydd i’r gwasanaeth. Mae’r arweinyddiaeth a’r gefnogaeth gan Cyng. Menna Trenholme a Cyng. Dilwyn Morgan, yr Aelodau Cabinet sy’n gyfrifol am wasanaethau plant ac oedolion, wedi aros yn sefydlog ac yn gadarnhaol drwy gydol y flwyddyn.

Yn y gwasanaethau oedolion, mae pennaeth gwasanaeth newydd, Mari Wynne Jones, wedi’i phenodi. Mae hi’n weithwraig gymdeithasol profiadol sydd wedi treulio ei gyrfa yng Ngwynedd ac sy’n adnabod yr ardal a’i phobl yn dda iawn. Mae ganddi gynlluniau cyffrous ac adeiladol ar gyfer yr Adran Oedolion.


Mari Wynne Jones

Yn y gwasanaethau plant, yn dilyn adroddiad *Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder*, bu dau uwch-swyddog yn ymgymryd â rôl Pennaeth yr Adran am bron i flwyddyn. Buont yn cyflawni’r rôl hon yn llwyddiannus, ac mae’r Cyngor a’r cyfarwyddwr yn ddiolchgar iawn am eu cyfraniad. Erbyn diwedd y flwyddyn, cytunwyd nad oedd y trefniant hwn yn gynaliadwy, ac fe benodwyd pennaeth gwasanaeth dros dro i ddechrau ym mis Ebrill 2026.

Tua diwedd y flwyddyn, cynhaliwyd cyfarfod gyda’r Penaethiaid Adran a Phennaeth Cynorthwyol y gwasanaeth sy’n gyfrifol am gomisiynu a busnes i ystyried cynlluniau tymor hwy ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Roedd y ffocws ar sicrhau bod strwythur y gwasanaeth yn gywir, yn briodol ac yn hyfyw ar gyfer y dyfodol. Cytunwyd fod angen rhagor o drafodaeth dros y misoedd a’r blynyddoedd i ddod.

### Trefniadau Craffu a Herio

Mae trefniadau llywodraethu, craffu a herio yn rhan allweddol o sicrhau atebolrwydd ac ansawdd gwasanaethau. Yr Arweinydd a’r Cabinet sy’n gosod cyfeiriad strategol y Cyngor, gyda chynnydd yn cael ei fonitro’n rheolaidd drwy gyfarfodydd perfformiad gydag Aelodau Cabinet ac uwch-reolwyr.

Mae craffu democrataidd yn chwarae rôl ganolog wrth ddarparu her adeiladol a sicrhau tryloywder. Mae’r Pwyllgor Craffu Gofal yn monitro perfformiad gwasanaethau, yn cwestiynu cynnydd ac yn sicrhau bod risgiau, heriau a chyfleoedd i wella yn cael sylw priodol.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd adroddiadau perfformiad a dash-fyrddau data yn rheolaidd i’r Pwyllgor Craffu er mwyn galluogi aelodau i ddwyn gwasanaethau i gyfrif a monitro tueddiadau allweddol. Cynllunnir rhaglen waith y Pwyllgor ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod materion strategol a blaenoriaethau pwysig yn cael sylw amserol a phriodol.

# CYD-DESTUN: Y GWEITHLU

## Y Gweithlu: Cryfder wrth Wraidd y Gwasanaeth

Mae Cyngor Gwynedd yn parhau i gynnal gweithlu gofal cymdeithasol cryf, **gyda thua 1,500 o staff cyflogedig uniongyrchol** yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, staff gofal cartref a chartrefi preswyl, rheolwyr tîm a swyddogaethau cymorth gweinyddol. Trwy bartneriaethau â darparwyr annibynnol a'r trydydd sector, mae'r **cyfanswm gweithlu sy'n cefnogi darpariaeth gofal cymdeithasol yn cynyddu i oddeutu 3,000 o bobl.**

Dengys ymroddiad, proffesiynoldeb a gwydnwch sylweddol y gweithlu dros y flwyddyn, er gwaethaf pwysau allanol cynyddol. Parha adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd i adlewyrchu gwerthfawrogiad o ymrwymiad a charedigrwydd staff ar draws y gwasanaeth.

Mae Gwynedd yn parhau i fod yr unig awdurdod yng Ngogledd Cymru nad yw'n defnyddio gweithwyr cymdeithasol asiantaeth, sefyllfa sydd wedi'i chynnal ers dros ddegawd. Mae pob awdurdod arall yn y rhanbarth, ynghyd â'r mwyafrif llethol o gynghorau ledled Cymru, bellach yn dibynnu ar staff asiantaeth i ryw raddau. Tra bod hyn yn rhywbeth i'w ddathlu, daw yn her fwyfwy sylweddol bob blwyddyn.

Yn ystod ymweliadau y cyfarwyddwr â'r gweithlu drwy'r flwyddyn, adlewyrchir y cyd-destun heriol, yn enwedig o ran recriwtio, cynnydd mewn pwysau gwaith ac achosion mwy cymhleth. Serch hynny, mae hefyd yn amlwg bod cryfder y gwasanaeth yn gorwedd yn ei bobl: o unigolion sydd wedi ymrwymo i'r sector ers dros 40 mlynedd i'r rhai sydd newydd orffen ysgol ac yn dechrau eu gyrfa drwy'r Academi Gofal. Mae'r un lefel o frwdfrydedd, ymroddiad a balchder yn y gwaith i'w weld, ac estynnir diolch diffuant iddynt am eu cyfraniad parhaus.

## Geiriau o Werthfawrogiad

Bob dydd, mae ymroddiad a gofal y gweithlu yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl. Mae'r dyfyniadau canlynol yn rhoi cipolwg ar y gwahaniaeth hwnnw:

> *"Roeddwn eisiau rhoi ar bapur gymaint yr wyf wedi gwerthfawrogi fy Ngweithiwr Cymorth ar ôl fy ngwalfa iechyd meddwl. Rwyf wedi cwrdd ag ef bob dydd Gwener ers dod allan o'r ysbyty, ac mae wedi gweithio gyda mi am 18 mis ar fy nhaith hir tuag at wellhad. Ef yw'r person mwyaf caredig a thosturiol dwi wedi gweithio efo.*
>
> *Mae wedi bod yn amyneddgar iawn ... ar ôl arhosiad hir yn yr ysbyty mae llawer ohonom yn teimlo'n fregus ac yn bryderus wrth geisio gwneud hyd yn oed y tasgau mwyaf sylfaenol. Mae ein perthynas waith wedi bod fel perthynas rhwng brodyr, ac ni fyddaf byth yn anghofio ei dosturi na'i natur ofalgar, sydd mor angenrheidiol mewn swydd fel hon."*
>
> **Diolch i Weithiwr Cymorth, Tîm Iechyd Meddwl**

# CYD-DESTUN: Y GWEITHLU

*"Mae eich cred ynom ac eich parodrwydd i roi'r cyfle i ni wedi gwneud gwahaniaeth a newid bywyd i ni i gyd. Roedd gwybod eich bod wedi gwrando arnom, ein cefnogi ac ein trin â pharch wedi ein helpu i aros yn gryf yn ystod eiliadau a oedd yn teimlo'n llethol.*

*Nid aeth eich ymroddiad i'ch gwaith ac i'n teulu heb ei sylwi, a byddaf bob amser yn ddiolchgar am y rôl yr ydych wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod hwn. Diolch eto am bopeth yr ydych wedi'i wneud. Mae eich cefnogaeth wir wedi golygu'r byd i ni."*

**Diolch i Weithiwr Cymdeithasol, Gwasnaethau Plant**

*"Hoffem ddiolch fel teulu o waelod calon i holl staff Plas Maesincla am eu gofal tyner a di-flino o Mam ers iddi ddod atoch. Rydym yn hynod falch mai ym Mhlas Maesincla y treuliodd ei blynyddoedd olaf, lle cafodd ei thrin a pharch ac urddas. Derbyniodd y gofal gorau posib. Mae'r awyrgylch teuluol a chartrefol ynghyd a'r croeso cynnes i deuluoedd yn nodwedd arbennig o'r cartref"*

**Diolch i ofalwyr Cartref Preswyl, Plas Maesincla**

*"Hoffwn ddiolch i chi am bopeth rydych wedi'i wneud dros fy mhlant. Mae ganddynt y gofalwyr gorau, ac maent yn ffynnu."*

**Diolch i wasanaethau Plant**

## Llesiant y gweithlu

Mae llesiant staff wedi bod yn faes cynyddol o bryder dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda thueddiadau negyddol yn dod i'r amlwg ar y cyfryngau cymdeithasol yn arbennig tuag at staff rheng flaen sy'n gweithio dan bwysau cynyddol. Mewn cydweithrediad â Thîm Iechyd a Diogelwch y Cyngor, archebwyd ffobs diogelwch i staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain. Mae'r ddyfais yn cynnwys botwm SOS sy'n gallu recordio'r sgwrs ac sy'n cysylltu'n uniongyrchol â Galw Gofal mewn achos o bryder, gyda'r gallu i uwch-gyfeirio i'r Heddlu os oes argyfwng.

Fodd bynnag, mae'r mesurau hyn hefyd yn adlewyrchu patrwm ehangach o gynnydd mewn ymateb negyddol gan rai aelodau o'r cyhoedd tuag at wasanaethau. Yn ystod y flwyddyn, bu achosion o dargedu unigolion o fewn y gweithlu yn bersonol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig Facebook. Mae'r math hwn o ymddygiad wedi cael effaith ar unigolion a'u teuluoedd, ac wedi codi pryderon difrifol ynghylch llesiant emosiynol staff.

Yn sgil hyn, mae'r Cyngor yn datblygu polisi a chanllawiau penodol i gefnogi staff a rheolwyr i ymateb yn gyson ac yn briodol i achosion o'r fath, gan gynnwys eglurder ar brosesau adrodd, darpariaeth cymorth i unigolion, a mesurau diogelu.

# CYD-DESTUN: Y GWEITHLU




## Academi Gofal Gwynedd

Cyniga Academi Gofal Gwynedd ystod eang o gyfleoedd datblygu, gan gynnwys profiadau gwaith, ymweliadau safle, rolau hyfforddeion, a llwybrau datblygiadol i staff presennol. Erbyn hyn mae'r carfan cyntaf o hyfforddeion wedi bod ar y cynllun ers blwyddyn ac mae'r adborth am eu gwaith wedi bod yn gyson gadarnhaol. Gadawodd un unigolyn y cynllun i ddechrau cwrs nyrsio, ond maent yn dal i weithio'n achlysurol o fewn gwasanaeth dydd Anableddau Dysgu. Mae'r pum arall wedi ymgartrefu'n dda yn eu lleoliadau tymor hir.

Yn ystod y flwyddyn, recriwtiwyd chwe hyfforddai newydd, un i Hafan y Sêr, dau i Blas Pawb, a thri i Wasanaethau Oedolion. Defnyddiwyd dull recriwtio newydd eleni gyda mwy o bwyslais ar brofiadau ymarferol ac anghenion penodol gwasanaethau. Cynhaliwyd cyfweliadau mewn lleoliadau gwaith go iawn, gan gynnwys meithrinfa, cartrefi preswyl ac unedau gofal, er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i ymgeiswyr o natur y gwaith. Yn dilyn y broses gyfweld, cynhaliwyd digwyddiad recriwtio ychwanegol a sgyrsiau un-i-un i gefnogi ymgeiswyr aflwyddiannus i fanteisio ar cyfleoedd eraill yn y sector.

Llwyddwyd hefyd i ddatblygu cynlluniau "retainer" ar y cyd gyda Chyngor Môn a Phrifysgol Bangor ar gyfer myfyrwyr MA Gwaith Cymdeithasol, ynghyd â chynnig retainer i fyfyrwraig Therapi Galwedigaethol yng Nghaerdydd. Bwriedir adeiladu ar y dull hwn yn y dyfodol fel ffordd o gryfhau'r gweithlu a chynyddu niferoedd o fewn y sector.

## Yr Academi mewn niferoedd....

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **150** | *Digwyddiadau gyrfa i hyrwyddo'r Academi* | **110** | *Cyfnod profiad gwaith wedi'i drefnu* | **51** | *Wedi gwneud cais am Academi Gofal 2025/26* |
| **11** | *Hyfforddai bellach yn rhan o'r Academi Gofal* | **44** | *yn datgan diddordeb drwy SOS Gofalwyr* | **4** | *Aelod staff yn cael eu cefnogi i ddilyn cwrs gradd* |

# CYD-DESTUN: MWY NA GEIRIAU

Parha'r Cyngor i arwain yn gryf yn ei ddefnydd o'r Gymraeg, gyda gwasanaethau'n gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol yn cael ei weithredu gyda phawb sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaeth. Cryfha'r cynnig ymhellach drwy waith Grŵp Mwy na Geiriau Gwynedd i ddatblygu a chyhoeddi fideos sy'n amlygu'r effaith gadarnhaol o ddefnyddio'r Gymraeg ar unigolion.

Er bod heriau recriwtio staff Cymraeg mewn rhai meysydd, megis therapi galwedigaethol, mae'r Cyngor yn buddsoddi'n sylweddol mewn datblygu sgiliau iaith staff presennol. **Mynychodd 62 aelod o staff gyrsiau iaith yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys dysgu o'r newydd, cynyddu sgiliau a gloywi iaith.**

Parha Gwynedd i fod yn arloesol ym maes newid digidol, gan sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i ddatblygiadau systemau. Enghraifft o hyn yw'r gwaith o drosglwyddo o WCCIS i Mosaic. Er bod Mosaic yn system Saesneg yn wreiddiol, arweiniodd Cyngor Gwynedd ar sicrhau ei bod ar gael yn Gymraeg cyn ei mabwysiadu, gan osod safon genedlaethol y gall siroedd eraill ei dilyn.

Mae ystod o brosiectau eraill yn cyfrannu at hyrwyddo defnydd naturiol a dyddiol o'r Gymraeg, gan gynnwys gwelliannau mewn Teleofal, cefnogaeth i bobl â Dementia, datblygu grwpiau tai bychain plant, yn ogystal â mentrau megis yr Ap Niwro, podlediadau a'r Trelar Chwarae (gweithgareddau i blant).

Mae'r Cyngor yn barod i herio partneriaid i sicrhau eu bod hwythau hefyd yn gweithredu'r Cynnig Rhagweithiol yn llawn. Yn ddiweddar, codwyd pryder gyda Arolygiaeth Gofal Cymru ynghylch diffyg arolygwyr Cymraeg mewn rhai arolygiadau cartrefi gofal. Nid oedd rhai arolygwyr yn gallu cyfathrebu'n Gymraeg â phreswylwyr na staff, ac mewn rhai achosion gofynnwyd iddynt am adborth yn Saesneg yn unig. Mae'r mater wedi'i godi'n ffurfiol gyda'r Arolygiaeth a'r Comisiynydd, gan nad yw'r arfer hwn yn adlewyrchu'r Cynnig Rhagweithiol nac yn cefnogi arolygiadau effeithiol sy'n sicrhau llais llawn a chyfartal i breswylwyr a'r gweithlu.




Enghraifft o Fideo "Mwy Na Geiriau" Gwynedd

# CYD-DESTUN: ADNODDAU ARIANNOL

Mae cyllideb refeniw 2025/26 yn dangos bod Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn rheoli **cyllideb gros o £148m** (£112m o ran Oedolion a £36m o ran Plant), gan adlewyrchu maint a phwysigrwydd y gwasanaethau hyn o fewn economi leol y sir.

Cyhoeddwyd **ymchwil Llechen Lân**, a gynhaliwyd i gynllunio ar gyfer anghenion hirdymor gwasanaethau cymdeithasol. Dengys yr ymchwil y bydd newidiadau demograffig yn rhoi pwysau sylweddol ar y gwasanaethau, gyda rhagolygon o gynnydd aruthrol yn y galw a'r gost erbyn 2043. Nodwyd yr angen am fuddsoddiad ychwanegol ym mis Medi 2024, a llwyddwyd i sicrhau cyllid corfforaethol ychwanegol yn ystod 2025/26 i helpu i ymateb i'r pwysau cynyddol hyn.




Yn mis Mawrth 2025 derbyniwyd y rhagolygon poblogaeth cenedlaethol ac bydd y gwaith ymchwil yn cael ei ddiweddaru ymhellach yn seiliedig ar ddata poblogaeth newydd. Yr awgrym yw bydd yn dangos lefelau galw hyd yn oed yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol.

Eleni, darparwyd cyllid ychwanegol parhaol o dros £600k i gefnogi swyddi ychwanegol yn yr Adran Plant, er mwyn ymateb i *Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder* a chryfhau trefniadau diogelu plant. Manteisiwyd hefyd ar gyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau drwy grantiau cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF), sydd wedi galluogi cynlluniau newydd ac arloesol. Mae'r grantiau hyn yn dymor byr eu natur ac wrth i'r RIF ddod i ben, mae angen cynllunio ar gyfer y dyfodol, sy'n ychwanegu heriau pellach i gynllunio ariannol a sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau.

## Costau Ychwanegol

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd yr Adran Oedolion a'r Adran Plant ill dwy wedi gwario y tu hwnt i'w cyllidebau. Nid oedd hyn yn deillio o wario diangen, ond yn hytrach o'r angen i ddiwallu anghenion unigolion mewn sefyllfaoedd cymhleth, brys ac aml yn gostus iawn.

Roedd y pwysau ariannol mwyaf amlwg o fewn Gwasanaethau Plant, gyda gorwariant o £3.4M. Y prif ffactor oedd cost uchel lleoliadau arbenigol y tu allan i'r sir, sydd yn aml yn codi'n annisgwyl ac yn anodd eu cynllunio ymlaen llaw, ac sydd yn anochel mewn rhai achosion. Ysgoga'r pwysau hwn i'r Cyngor gyflymu gwaith ar ddatblygu cartrefi grŵp bychain, fel rhan o'r nod i gryfhau darpariaeth leol. Crëwyd rôl benodol i gefnogi a chyflymu'r rhaglen hon yn ystod 2026/27.

Yn yr un modd, mae gorwariant yr Adran Oedolion yn £1.4M o ganlyniad i gynnydd yn y galw am ofal mewn cartrefi preifat. Mae hyn yn rhannol gysylltiedig â heriau staffio cartrefi preswyl y Cyngor, sydd wedi lleihau capasiti ac wedi arwain at ddarpariaeth allanol gostus. Bu hefyd gynnydd anarferol yn nifer yr unigolion ag anghenion iechyd meddwl sydd angen gofal preswyl, ynghyd â phwysau parhaus ar wasanaethau gofal cartref, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac anodd eu gwasanaethu.

# CYD-DESTUN: FFRAMWAITH GOMISIYNU

Parha'r Cyngor i ddatblygu a chryfhau ei drefniadau comisiynu er mwyn sicrhau gwasanaethau gofal a chymorth cynaliadwy, o ansawdd uchel ac sy'n diwallu anghenion pobl Gwynedd. Yn ystod y flwyddyn, bu ffocws penodol ar weithredu gofynion y Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol, ymateb i newidiadau yn y maes caffael, a chryfhau ein perthynas â darparwyr gofal.


Defnyddir yr adnoddau sydd ar gael yn genedlaethol i weithredu'r Fframwaith Comisiynu, gan gynnwys y teclyn hunanasesu cenedlaethol. Mae'r gwaith hwn wedi adnabod meysydd lle mae ein trefniadau'n gryf, yn ogystal â nodi'r meysydd hynny lle mae cyfleoedd pellach i ddatblygu wrth weithredu gofynion y Cod Ymarfer. Yn ystod y flwyddyn bu angen ymateb i'r newidiadau deddfwriaethol yn y maes caffael er mwyn sicrhau bod ein dulliau comisiynu yn parhau'n gyson ac yn cydymffurfio â'r gofynion.

Un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol fu'r gwaith i gryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a darparwyr gofal. Dechreuodd trafodaethau ac ymgynghoriadau ynghylch ffioedd 2026/27 sawl mis ymlaen llaw ar draws ystod o wasanaethau, gan gynnwys gofal cartref, gofal preswyl a nyrsio, gwasanaethau i bobl hŷn a gwasanaethau anableddau dysgu. Mae'r dull hwn wedi galluogi trafodaethau mwy agored a chynhyrchiol, gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Defnyddir data a thystiolaeth fanwl i lywio penderfyniadau ynghylch ffioedd, gan gynnwys defnyddio **model CareCubed** i ddeall costau gofal unigol darparwyr. Lle bo darparwyr yn gallu dangos bod cost darparu gofal yn uwch na'r cyfraddau a gynlluniwyd o fewn cyllidebau'r Cyngor, mae trafodaethau pellach yn cael eu cynnal er mwyn ystyried y dystiolaeth a'r goblygiadau ariannol cyn dod i benderfyniad. Mae'r dull hwn wedi cyfrannu at berthynas fwy adeiladol a thryloyw gyda darparwyr, gan greu sail gryfach ar gyfer cydweithio er gwaethaf yr heriau ariannol sy'n wynebu'r sector a'r Cyngor fel ei gilydd.

Parha'r Cyngor i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae'r cyllid a ddarparwyd at y diben hwn wedi'i adlewyrchu'n llawn yn y cyfraddau chwyddiant a gynigiwyd i ddarparwyr ar gyfer 2026/27. Er bod rhai darparwyr wedi mynegi pryderon nad yw'r lefel ariannu yn adlewyrchu'r pwysau ehangach ar gyflogau o fewn eu sefydliadau, mae'r Cyngor yn gallu dangos bod y cyllid a drosglwyddwyd yn ddigonol i gyflawni'r ymrwymiad polisi ar gyfer y gweithwyr cymwys.

Wrth edrych ymlaen, bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu ei ddull comisiynu, gan ganolbwyntio ar sicrhau gwasanaethau cynaliadwy sy'n darparu'r canlyniadau gorau i bobl Gwynedd. Bwriedir weithio'n agos gyda darparwyr, partneriaid rhanbarthol a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein trefniadau comisiynu yn adlewyrchu anghenion lleol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cyfrannu at system gofal a chymorth gadarn ar gyfer y dyfodol.





# POBL

## LLAIS A RHEOLAETH

- *"Mae pobl yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt."*
- *"Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel, gyda gweithlu cymwysedig a hynod fedrus yn cael ei gefnogi i weithio tuag at weledigaeth a rennir."*

## CIPLUN MEWN RHIFAU:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **129** O UNIGOLION EFO ANABLEDD DYSGU AR Y LLWYBR TUAG AT WAITH | **96%** O GYNADLEDDAU ACHOS LLE BU CLYWED LLAIS / BARN Y PLENTYN (5 oed +) | **20** ADRODDIAD "HELPU'N HUN" Y MIS WEDI EI GYNHYRCHU DRWY WEFAN Y CYNGOR | NIFER SYDD YN DERBYN GWASANAETH GOFAL CARTREF (MAWRTH 2026) **811** |
| % SY'N DERBYN GWASANAETH DRWY DALIADAU UNIONGYRCHOL (MAWRTH 2026) **20%** | **1,600** YN DERBYN GWASANAETH TELEOFAL (31.03.26) | **82** NIFER O OEDOLION LLE DARPARWYD EIRIOLWR PROFFESIYNOL ANNIBYNNOL | NIFER SYDD YN AROS DROS 28 DIWRNOD AM OFAL CARTREF (MAWRTH 2026) **62** |

# GWERTH TELEOFAL A ROBOTEG: STORI ELEN



Roedd Elen yn byw mewn Cartref Anabledd Dysgu ac yn aml yn teimlo'n drist ac ansicr.



Weithiau roedd ei phryder yn ymddangos fel ymddygiad heriol neu anodd



Meddyliodd staff am ffordd dyner o gefnogi a helpu Elen ymdopi.



Drwy'r Gwasanaeth Teleofal cyflwynwyd cath "roboteg" i'r Cartref.



Dechreuodd Elen roi mwythau i'r gath, ei bwydo a gofalu amdani. Rhoddwyd enw i'r gath - "Pearl".



Mae gofalu am "Pearl" yn rhoi ymdeimlad o gyfrifoldeb a phwrpas i Elen. Mae hi llawer hapusach yn y cartref.

# POBL: LLAIS A RHEOLAETH

### Llais y Plentyn

Amlygodd adroddiad *Cyfiawnder Trwy ein Dewrder* wendidau lle nad oedd y Cyngor yn gweithredu'n gyson i wrando ar lais plant cafodd eu cam-drin. Yn dilyn adolygiad, cryfhaodd yr Adran Plant ei ymrwymiad i sicrhau bod llais plant bob amser yn cael ei glywed. Erbyn hyn mae gweithwyr cymdeithasol yn ymweld yn gyson â phlant sy'n ymwneud â honiadau diogelu er mwyn gwrando ar eu barn, gyda chydsyniad rhieni lle bo hynny'n briodol ac os nad yw'r rhieni'n rhan o'r honiad gwreiddiol.

Dylai lleisiau a blaenoriaethau plant fod wrth galon penderfyniadau Cynghorau, gan mai nhw yw dyfodol ein cymunedau. Yn ystod y flwyddyn cychwynwyd y gwaith o ddatblygu Strategaeth Llais y Plentyn newydd dan arweiniad yr adran Addysg a'r Fforwm Ieuenctid.

#### Sut y gallwn wneud pethau'n well?

Tra bod y Fforwm Ieuenctid yn parhau i dyfu o nerth i nerth, cydnabyddir **nad** yw'r dull presennol yn gynaliadwy nac yn cyrraedd pob plentyn yn gyson, yn enwedig y rhai nad ydynt yn ymgysylltu drwy strwythurau ffurfiol. Er mwyn cefnogi hyn, bwriedir recriwtio rôl newydd i gyrraedd mwy o leisiau, gan gynnwys plant mewn gofal a phlant eraill sy'n hysbys i wasanaethau cymdeithasol yn fuan yn 2026/27.





Gweithdy "Y Ffordd Gywir", Swyddfa Comisiynydd Plant

#### Y Ffordd Gywir - Gwreiddio Hawliau Plant

Yn ystod y flwyddyn, bu gwaith i archwilio'r posibilrwydd o achrediad "Dinasoedd sy'n Gyfeillgar i Blant" UNICEF, gan adlewyrchu'r dull a fabwysiadwyd gan Gyngor Caerdydd. Fodd bynnag, daeth yn glir nad oes cefnogaeth leol na strwythur cenedlaethol ar gael bellach i gefnogi symud tuag at yr achrediad, yn dilyn diwedd peilot UNICEF UK ym mis Mehefin 2025.

O ganlyniad, mae'r ffocws wedi symud at ddulliau amgen i gyflawni'r un amcanion. Mae "Y Ffordd Gywir" gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant wedi'i fabwysiadu fel y prif fframwaith cenedlaethol, gan ganolbwyntio ar wreiddio hawliau plant (UNCRC) ym mhob agwedd o bolisi, cynllunio a gwasanaethau. Ym mis Chwefror 2026, cynhaliwyd gweithdy "Y Ffordd Gywir" ar gyfer Aelodau'r Cabinet, Cadeiryddion Craffu, yr Uwch Dîm Rheoli a'r Fforwm Ieuenctid gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth a chryfhau dealltwriaeth o'r egwyddorion. Mae rhaglen waith pellach yn ei le ar gyfer 2026/27.

**Panel Rhiantu Corfforaethol**

Gweithreda'r Cyngor fel rhiant corfforaethol i blant mewn gofal, gyda'r Panel Rhiantu Corfforaethol yn cyfarfod yn chwarterol er mwyn darparu trosolwg, her a sicrwydd o ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r panel yn cynnwys Aelodau Cabinet, uwch swyddogion, Cyfarwyddwr, a chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd.

Yn Ebrill 2025 cyflwynodd y Panel adroddiad i'r Cabinet ar weithrediad Siarter Rhiantu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, gan gadarnhau bod y Cyngor yn gweithio'n gadarnhaol tuag at wireddu disgwyliadau'r siarter. Mae cryfhau llais plant mewn gofal wedi bod yn flaenoriaeth allweddol. Bellach, eistedda unigolyn sydd â phrofiad byw o'r system ofal fel aelod o'r Panel, gan sicrhau bod profiadau uniongyrchol plant a phobl ifanc yn llywio trafodaethau, her a goruchwyliaeth.

Yn ystod 2026/27, bwriedir adolygu'r Strategaeth Rhiantu Corfforaethol, gan sicrhau bod plant mewn gofal yn rhan ganolog o'r gwaith. Bydd y strategaeth yn cael ei llywio gan lais a phrofiadau plant a phobl ifanc mewn gofal neu wedi gadael gofal.

**Oedolion: Tîm Gwasanaethau Hybu Annibyniaeth**

Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd **Tîm Gwasanaethau Hybu Annibyniaeth** newydd er mwyn dod â meysydd taliadau uniongyrchol, teleofal, technoleg gynorthwyol, deallusrwydd artiffisial (AI) datblygu cwmnïau micro ynghyd.

Nod y gwaith yw sicrhau bod unigolion yn cael y gefnogaeth, y dechnoleg a'r dewisiadau sydd eu hangen i fyw mor annibynnol â phosibl, yn unol â'u dymuniadau a'u hamgylchiadau.



**Sut y gallwn wneud pethau'n well?**

Ni lwyddwyd i gyrraedd y targed o sicrhau nad oedd unrhyw berson yn aros mwy na 28 diwrnod am becyn gofal cartref yn dilyn asesiad. Er bod heriau staffio wedi cyfrannu at hyn, mae'r perfformiad yn dangos bod angen gwneud mwy i sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir.

Mae hyn yn amlygu'r angen i gyflymu gweithredu argymhellion adroddiad **Llechen Lân: Gwasanaethau Pobl Hŷn i'r Dyfodol,** yn enwedig y gwaith i sicrhau bod opsiynau amgen i ofal cartref traddodiadol yn cael eu cynnig yn gyson ar draws y sir. Drwy gryfhau'r dull hwn, gallwn roi mwy o lais a dewis i unigolion, lleihau dibyniaeth ar becynnau gofal traddodiadol, a sicrhau bod cefnogaeth fwy hyblyg ar gael yn gynt i ddiwallu anghenion pobl.

## Teleofal, Technoleg ac AI

Bellach, gall unigolion a'u teuluoedd wneud cais uniongyrchol am offer teleofal drwy wefan y Cyngor, gan hwyluso mynediad at gefnogaeth yn gynt ac yn haws. Ar yr un pryd, mae'r gwaith o drosglwyddo trigolion o systemau analog i dechnoleg ddigidol yn cyflymu. Cydweithia'r Cyngor yn agos gyda'r cymdeithasau Tai (Adra a Grŵp Cynefin) er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn a diogel i drigolion.

Mae teclyn therapi galwedigaethol rhithiol "Helpu'n Hyn" bellach yn fyw ar y wefan, ac yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol gan drigolion. Ar hyn o bryd, mae **tua 20 o ddefnyddwyr yn cynhyrchu adroddiadau bob mis**, gan alluogi unigolion i hunanasesu ac archwilio anghenion cymorth yn annibynnol o'u cartrefi. Amcangyfrifir y **gallai'r defnydd hwn fod wedi arbed tua 200 o gyfeiriadau ychwanegol,** gan ddangos ei effaith bosibl o ran gwella mynediad cynnar at wybodaeth a chefnogaeth, a lleihau'r angen am ymyrraeth ffurfiol yn y camau cynnar.

Gweler sut mae datblygiadau pellach ym maes deallusrwydd artiffisial (AI) yn dechrau trawsnewid y ffordd mae gwasanaethau'n gweithredu hefyd. Bu peilot **Beam Notes** (Magic Notes gynt) yn llwyddiannus gyda charfan o staff yn ystod dechrau 2026, a bwriedir ymestyn y defnydd o'r dechnoleg ar draws y gwasanaeth yn ystod 2026/27.

Mae technoleg fel Beam Notes yn helpu i leihau'r amser a dreulir ar waith gweinyddol a chofnodi, gan ryddhau mwy o amser i weithwyr cymdeithasol ganolbwyntio ar weithio'n uniongyrchol gydag unigolion a theuluoedd.

### Peilot Beam Notes mewn niferoedd....

| 3.38 awr | 61% | 35% | 95% |
|---|---|---|---|
| *amser wedi ei arbed fesul aelod staff bob wythnos (cyfartaledd)* | *o ostyngiad yn amser cyflwyno asesiad gofal* | *o welliant yng nghywirdeb a manylder nodiadau* | *o staff a ddywedodd fod amser gweinyddol wedi lleihau* |

## Taliadau Uniongyrchol

Parha'r defnydd o **daliadau uniongyrchol i gynyddu'n raddol, gyda 20% o drigolion bellach yn derbyn eu cefnogaeth drwy'r dull hwn, o'i gymharu â 17% yn 2024/25.**

Er bod y cynnydd yn araf, adlewyrcha symudiad cadarnhaol tuag at roi mwy o lais, dewis a rheolaeth i unigolion dros y ffordd y caiff eu gofal a'u cefnogaeth eu darparu.

Mae pob pecyn taliadau uniongyrchol newydd bellach yn cynnwys cynnig o gerdyn cyflogi, er bod newid trefniadau hirsefydlog unigolion sydd wedi defnyddio taliadau uniongyrchol ers blynyddoedd yn parhau i fod yn her mewn rhai achosion. Yn ystod y flwyddyn, profwyd rhai anawsterau gyda'r darparwr cardiau cyflogi presennol, ac mae gwaith ar y gweill i ymchwilio i ddarparwyr amgen er mwyn sicrhau gwasanaeth mwy dibynadwy a gwell dewis i ddefnyddwyr.

# POBL: LLAIS A RHEOLAETH

### Anabledd Dysgu: Ehangu Cyfleoedd Gwaith

Mae hyrwyddo cyfleoedd gwaith a chyflogaeth â thâl yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol o fewn y gwasanaeth Anabledd Dysgu, gan gydnabod pwysigrwydd gwaith o ran annibyniaeth, hyder, cysylltiadau cymdeithasol a llesiant unigolion. Gweithreda'r Cydlynydd Llwybr Gyrfa Anabledd Dysgu ar draws Gwynedd a Môn, gyda chefnogaeth tri Swyddog Cefnogol sy'n gweithio'n benodol i hyrwyddo cyfleoedd gwaith a chefnogi unigolion tuag at gyflogaeth â thâl teg.

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd cynnydd unwaith eto yn nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, **gyda 129 bellach ar y llwybr tuag at waith.** Mae cyflwyniadau i rwydwaith rheolwyr y Cyngor wedi ennyn diddordeb cadarnhaol. Yn ystod y flwyddyn llwyddodd dau unigolyn i sicrhau swyddi o fewn y Cyngor, gan ddangos bod y gwaith o godi ymwybyddiaeth a chreu cyfleoedd yn dechrau dwyn ffrwyth.



Cynhadledd IMPACT, Caerdydd

Mae'r gwaith hefyd wedi ennill cydnabyddiaeth genedlaethol, gyda'r tîm yn cael ei wahodd i gyflwyno yng nghynhadledd IMPACT "Gwella Gofal Oedolion Gyda'n Gilydd" yng Nghaerdydd. Roedd hyn yn gyfle i rannu arfer da Gwynedd, gan arddangos y dull arloesol o gefnogi pobl ag anableddau dysgu i mewn i waith ystyrlon, a chryfhau proffil y sir fel arweinydd yn y maes.

### Tîm Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol (PBS)

Mae'r Tîm Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol (PBS) yn cefnogi staff i ddeall anghenion a dulliau cyfathrebu unigryw unigolion, gan gydnabod bod ymddygiad yn aml yn ffordd o fynegi teimladau neu anghenion. Mae'r tîm yn helpu staff i ymateb mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'i lesiant.

Trwy gyfuniad o hyfforddiant, modelu ymarferol a gwaith ymgynghorol, mae'r tîm wedi helpu staff i wrando'n well ar yr hyn sy'n bwysig i'r bobl y maent yn eu cefnogi, cryfhau perthnasoedd a datblygu cymorth mwy person-ganolog. Mae'r dull hyfforddi dwys, sy'n cynnwys gweithio'n agos ochr yn ochr â thimau yn eu hamgylcheddau eu hunain, wedi bod yn arbennig o effeithiol. O ganlyniad, mae gwell cyfathrebu a dealltwriaeth wedi cyfrannu at well llesiant, mwy o gyfleoedd i wneud dewisiadau, a mwy o ymdeimlad o reolaeth dros fywyd bob dydd i'r bobl sy'n derbyn cymorth.

> *"Ers i ni ddeall y rheswm y tu ôl i'r ymddygiad, fe wnaethon ni roi'r gorau i geisio ei reoli a dechrau cefnogi'r angen oedd y tu ôl iddo. Mae'r newid wedi bod yn anhygoel."*
>
> **Adborth gan wasnaeth sydd wedi derbyn hyfforddiant gan y Tîm PBS**

## PA GYNNYDD A WNAED YN ERBYN ADDEWIDION LLYNEDD?

| Addewidion llynedd | Cynnydd |
|---|---|
| Lleihau ein rhestrau aros am becynnau gofal cartref newydd a sicrhau nad oes unrhyw berson yng Ngwynedd yn aros mwy na 28 diwrnod yn dilyn asesiad gofal. | |
| Datblygu ein defnydd o dechnoleg i gefnogi gofal ac annibyniaeth, hyrwyddo'r gwasanaeth Teleofal, ac archwilio potensial roboteg. | |
| Gwynedd Plentyn Gyfeillgar: Yn ystod y flwyddyn i ddod edrychir yn fanylach ar gynllun "Dinasoedd Blentyn Gyfeillgar" gan UNICEF. | |
| Bwriedir mabwysiadu Siarter Rhiantu Llywodraeth Cymru yn swyddogol gan weithio i gryfhau llais plant mewn gofal. | |
| Bwriedir ail-edrych ar yr adnodd sydd angen er mwyn sicrhau fod Dewis yn hygyrch, yn cael ei hyrwyddo ar draws y sir ac yn diwallu anghenion trigolion yn effeithiol. | |

## ADDEWIDION 2026/27

1. Gan gydnabod nad yw'r gwasanaethau wedi llwyddo eleni, byddwn yn parhau i geisio **lleihau ein rhestrau aros am becynnau gofal cartref newydd** a sicrhau n**ad oes unrhyw berson yng Ngwynedd yn aros mwy na 28 diwrnod** yn dilyn asesiad gofal.

2. Byddwn yn gweithio gyda'r Adran Addysg i **fabwysiadu a gweithredu Strategaeth Llais y Plentyn**, gan barhau i wreiddio dull sy'n hyrwyddo hawliau plant a gweledigaeth Gwynedd fel sir sy'n gyfeillgar i blant.

3. Byddwn yn penodi Swyddog Cyfranogiad pwrpasol er mwyn **cryfhau llais a chyfranogiad** plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, plant anabl a grwpiau eraill sydd angen cefnogaeth ychwanegol i sicrhau bod eu barn yn llywio gwasanaethau a phenderfyniadau.

4. Byddwn yn **ehangu defnydd o Beam Notes** ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn lleihau'r amser a dreulir ar waith gweinyddol, rhyddhau mwy o amser i staff weithio'n uniongyrchol gydag unigolion, a chefnogi ffyrdd mwy effeithiol o weithio.

5. Byddwn yn **diweddaru adroddiad Llechen Lân** yn dilyn cyhoeddi rhagamcanion demograffig newydd, a pharhau i weithredu'r argymhellion gyda ffocws ar ddatblygu dulliau ataliol a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau gofal traddodiadol.

6. Byddwn yn gweithio gyda phlant mewn gofal a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i ddiweddaru **Strategaeth Rhiantu Corfforaethol y Cyngor**, gan sicrhau ei bod yn rhoi cyfeiriad clir i'r Cyngor yn ei rôl fel rhiant corfforaethol.

*Mae rhestr o flaenoriaethau strategol Cynllun y Cyngor yma: **Gwynedd Ofalgar***

# ATAL

- *“Mae’r angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau ac nid yw anghenion yn cynyddu, gan sicrhau’r canlyniad gorau posibl i bobl.”*

- *“Mae cydnerthedd yn ein cymunedau yn cael ei hyrwyddo ac mae pobl yn cael eu helpu i gyrraedd eu potensial trwy annog a helpu pobl sydd angen gofal a chymorth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.”*

## CIPLUN MEWN RHIFAU:

| | | | |
|---|---|---|---|
| NIFER O OFALWYR WEDI EU HASESU **292** | **305** WEDI DERBYN CEFNOGAETH GAN DEMENTIA ACTIF | **245** O BECYNNAU AILALLUOGI A GWBLHAWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN | **510*** ASESIADAU NEWYDD LLE DIWALLWYD ANGHENION HEB ANGEN CYNLLUN GOFAL (*allan o gyfanswm o 2,135) |
| **143** O OFALWYR IFANC WEDI DERBYN CEFNOGAETH | **162** WEDI DERBYN CEFNOGAETH GAN TIM GAFAEL LLAW | **482** O OFALWYR NEWYDD WEDI CAEL CYMORTH GAN CYNNAL GOFALWYR | **133** O OFALWYR IFANC YN DEFNYDDIO AP AiDi |

# TÎM TROBWYNT AC YMYRRAETH GYNNAR: STORI ANNIE



Roedd Annie yn byw mewn hostel ac yn mynd trwy gyfnod anodd yn ei bywyd, gan ddibynnu ar alcohol a chyffuriau.



Daeth Annie yn feichiog. Roedd ei phlant hŷn eisoes mewn gofal ac rhoddwyd y babi ar y Gofrestr Amddiffyn cyn ei eni.



Cafodd Annie gefnogaeth ddwys gan y Tîm Trobwynt dros nifer o fisoedd.



Newidiodd bywyd Annie yn raddol - dim alcohol na chyffuriau, a pherthynas gefnogol



Roedd amheuaeth a fyddai Annie yn gallu cadw ei babi ond dangosodd ei bod yn gallu rhoi gofal diogel a chariadus.



Tynnwyd y plentyn oddi ar y Gofrestr Amddiffyn. Dengys stori Annie beth sy'n bosibl pan fo'r gefnogaeth gywir ar gael.

# ATAL

## Gofalu am ein Gofalwyr

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae **tua 10,500 o bobl yng Ngwynedd (9% o'r boblogaeth) yn ofalwyr di-dâl**. Mae cefnogi eu hiechyd a'u lles yn flaenoriaeth allweddol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda chefnogaeth yn cael ei chomisiynu drwy *Cynnal Gofalwyr* ar gyfer oedolion a *Gweithredu Dros Blant* ar gyfer plant a phobl ifanc. **Yn ystod 2025/26, manteisiodd 482 o oedolion sy'n ofalwyr di-dal newydd a 143 o blant ar y gefnogaeth hon.** Er hyn, mae angen gwneud mwy i sicrhau bod gofalwyr yn cael eu hadnabod a'u cefnogi'n briodol. Amlygwyd hyn yn adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, A ydym yn gofalu am ein gofalwyr? Ailymweld, a adolygodd drefniadau awdurdodau lleol.

Mae'r data lleol yn dangos bod her yn parhau. Dim ond **71 (4%)** o'r holl asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn oedd yn asesiadau gofalwyr, gyda **221 (12.6%)** pellach yn asesiadau ar y cyd lle cafodd anghenion y gofalydd eu hystyried ochr yn ochr ag anghenion yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Er nad oedd unrhyw un yn aros am asesiad gofalwr ar ddiwedd Mawrth 2026, cafodd nifer sylweddol o ofalwyr eu cefnogi'n uniongyrchol gan Cynnal Gofalwyr heb fod wedi cael asesiad statudol. Mae hyn yn awgrymu bod angen cryfhau ein trefniadau i adnabod gofalwyr yn gynt ac yn fwy cyson.

Mae gwaith yn mynd rhagddo'n lleol ac yn rhanbarthol i ymateb i'r heriau hyn. Mae hyn yn cynnwys datblygu cynllun gweithredu lleol i ofalwyr, gwella gwybodaeth a chyngor, codi ymwybyddiaeth o hawliau ac asesiadau gofalwyr, cefnogi staff sy'n ofalwyr di-dâl, a datblygu cyfleoedd seibiant mwy hyblyg. Yn ogystal, o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd, mae grŵp rhanbarthol yn arwain ar ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer Gogledd Cymru i wella'r ffordd y caiff gofalwyr eu hadnabod, eu hasesu a'u cefnogi, gan sicrhau mwy o gysondeb ar draws y rhanbarth.

### Sut y gallwn wneud pethau'n well?

Mae angen cryfhau adnabod a chefnogi gofalwyr yn gynharach, gan gynyddu'r defnydd o asesiadau gofalwyr. Dylid hefyd gryfhau cynllunio ar gyfer argyfwng, gan sicrhau bod trefniadau wrth gefn clir ar waith os na all gofalwr ddarparu gofal dros dro. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar system data Mosaic i wella cofnodi cynlluniau argyfwng, ac i ehangu defnydd y cynllun *Neges mewn Potel,* sy'n darparu ffordd syml i gofnodi manylion hanfodol ar gyfer sefyllfaoedd brys.

### Protocol Cwympo

Mae protocol cwympiadau clir yn sicrhau ymateb cyson, diogel ac amserol i unigolion sydd wedi cwympo, gan gefnogi gwneud penderfyniadau priodol ac atal neu leihau ymyriadau diangen. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd trafodaethau gyda Winncare ynghylch yr ap iStumble, sef adnodd digidol sy'n cefnogi ymateb effeithiol i gwympiadau. Er bod yr ap yn cynnig manteision sylweddol ac yn llawer mwy hwylus i'w ddefnyddio na fersiynau papur, nid yw ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd, sy'n cyfyngu ar ei ddefnydd yng Ngwynedd.

O ganlyniad, mae cais wedi'i wneud drwy rwydweithiau cenedlaethol i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu fersiwn ddwyieithog, gyda'r mater hefyd wedi'i godi gyda'r rhaglen cenedlaethol DiSC (Digital in Social Care) fel maes i'w ystyried ymhellach.

## Dementia Actif

Darpara Dementia Actif Gwynedd weithgareddau, gwybodaeth a chefnogaeth i unigolion sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd. Helpa'r gwasanaeth bobl i gadw'n weithgar, yn gysylltiedig â'u cymunedau ac i gael mynediad at gymorth ar ôl diagnosis, gan leihau unigedd a chefnogi llesiant a hyder unigolion a gofalwyr.

Mae'r effaith wedi bod yn sylweddol a gwelwyd cynnydd unwaith eto yn y nifer sy'n gwneud cyswllt â'r gwasanaeth: **ym Mawrth 2026, mynychodd 305 o unigolion – 55 yn byw gyda dementia, 61 yn ofalwyr di-dâl, a 189 arall yn elwa'n gymdeithasol.** Dengys hyn werth Dementia Actif wrth gynorthwyo unigolion i fyw'n annibynnol ac i gefnogi gofalwyr.

> *"Ar ôl cael diagnosis, y cwestiwn wedyn yw beth sy'n digwydd nesaf – pa help sydd ar gael, ble i fynd a phwy i gysylltu â nhw. Mae'n bwysig nad yw pobl yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain... Heblaw am Dementia Actif Gwynedd dwi ddim yn gwybod lle faswn i."*
>
> **Gofalydd di-dal sy'n mynychu sesiynau Dementia Actif efo'i Gŵr**





Rhai o weithgareddau Dementia Actif

## Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn

Yn dilyn arolygiad yn 2024, gweithredwyd cynllun gwella ar gyfer Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn, gyda chynnydd cadarnhaol mewn nifer o feysydd allweddol. Cryfhawyd trefniadau llywodraethu a goruchwyliaeth y bwrdd rheoli, gyda gwell presenoldeb a chyfranogiad gan bartneriaid.

Yn ystod y flwyddyn, parha'r defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys yn gryf, gyda'r mwyafrif helaeth o achosion yn cael eu datrys heb fynd gerbron y llys ieuenctid. Gwelwyd hefyd ostyngiad yng nghanran y merched sy'n ymwneud â'r system o'i gymharu â 2024/25. Prynwyd setiau penwisg realiti rhithwir (VR) i gynnig sefyllfaoedd hyfforddi realistig sy'n helpu staff i ddatblygu sgiliau ymateb mewn achosion heriol.

Mae gwaith yn parhau i gryfhau cydweithio rhanbarthol a sicrhau bod llais dioddefwyr yn cael ei gynrychioli'n briodol. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud wrth ymateb i anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant, mae bylchau yn y ddarpariaeth therapiwtig yn parhau ac yn cael eu codi'n rheolaidd gyda'r bwrdd iechyd a phartneriaid rhanbarthol.

> *“Cafodd (y plentyn) ei dynnu ffwrdd o’r gofrestr amddiffyn plant ac ddaru hynny fy atgoffa y diwrnod hwnnw pam bod ni yn gwneud y gwaith a sut mae unigolion yn gallu newid am y gorau pan mae’r ymyrraeth a’r gefnogaeth gywir ar gael iddynt.”*
>
> **Gweithiwr Tîm Trobwynt**

**Cefnogi Teuluoedd: Trobwynt a Tîm o Amgylch y Teulu**

Parha’r Gwasanaethau Cefnogi Teulu gyda’r nod o sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle gorau posibl i ffynnu o fewn ei deulu a’i gymuned. Mae’r dull hwn yn seiliedig ar egwyddor tegwch – sef cydnabod nad yw pob plentyn na theulu yn dechrau o’r un man, ac felly bod angen darparu gwahanol lefelau o gefnogaeth yn ôl amgylchiadau ac anghenion unigol.

Er bod nifer y plant mewn gofal wedi cynyddu, ac y bydd gofal bob amser yn opsiwn hanfodol pan fo angen sicrhau diogelwch plentyn, trwy ddarparu’r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir, ein nod yw cynyddu’r siawns y gall plant aros yn ddiogel gartref lle bo hynny’n briodol.

Yn ystod y flwyddyn roedd 77 o blant mewn prosesau amddiffyn plant ar ddechrau ymyrraeth Tîm Trobwynt, gyda’r nod o’u cefnogi i aros gartref gyda’u teuluoedd. Roedd yr ymyrraeth yn llwyddiannus i 64 o’r plant hyn, gan ddangos gwerth darparu cefnogaeth wedi’i theilwra i anghenion pob teulu.

**Sut y gallwn wneud pethau’n well?**

Mae’r galw cynyddol ar wasanaethau plant yn amlygu’r angen i barhau i gryfhau a buddsoddi llawer mwy mewn gwasanaethau ataliol a chymorth cynnar. Drwy ymyrryd yn gynharach a thargedu adnoddau gallwn leihau’r angen am ymyraethau mwy dwys ac argyfyngus yn nes ymlaen a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc ar draws y sir.

**Trawma Wybodus**

Mae’r Cyngor yn parhau i ddatblygu dull trawma-wybodus ar draws gwasanaethau, gan gydnabod effaith hirdymor trawma a’r angen i ddarparu cefnogaeth mewn ffordd sy’n osgoi ail-drawmateiddio. Mae nifer o dimau wedi nodi effaith gadarnhaol yr hyfforddiant a ddarparwyd, gan adrodd am newid yn eu dealltwriaeth a’u ffordd o weithio gydag unigolion.

Y bwriad clir yn gorfforaethol yw datblygu’r gwaith hwn ymhellach, ac mae’r Cyngor yn parhau i weithredu yn unol â’r fframwaith cenedlaethol drwy ehangu mynediad at hyfforddiant, yn enwedig i staff rheng flaen megis gweithwyr cymdeithasol, staff canolfannau cyswllt a thimau digartrefedd. Mae bwriad i’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Plant gwblhau’r hyfforddiant yn ystod 2026/27 er mwyn rhoi arweiniad.

# ATAL

**Sgyrsiau Lles - Tîm Gafael Llaw**

Llynedd lansiwyd y prosiect peilot "Gafael Llaw" i ymateb i'r pwysau ar wasanaeth Galw Gwynedd. Mae'r prosiect yn adlewyrchu gweledigaeth y Cyngor o fod yn sefydliad clên, caredig ac empathetig, gyda phwyslais ar gefnogaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'u cryfderau.

Drwy estyn allan yn rhagweithiol â rhai wnaeth gais am fathodyn glas, nod y gwaith yw adbabod arwyddion cynnar o angen a lleihau'r tebygolrwydd o fod angen ymatebion mwy dwys yn ddiweddarach. Yn ystod 2025/26 cefnogwyd 162 o drigolion drwy'r Tîm Gafael Llaw. Roedd pryderon am bwysau ariannol, iechyd, lles, unigedd, a mynediad at wybodaeth yn codi'n aml, a cynnigwyd ystod eang o gymorth i unigolion. Er bod heriau capasiti staffio cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant ar gynnal sgyrsiau cydweithredol a hyfforddiant ar ddarparu cyngor ariannol.

**Sut y gallwn wneud pethau'n well?**

Mae angen cyflymu'r gwaith o gysoni'r "drws ffrynt" ar gyfer gwasanaethau oedolion er mwyn sicrhau trefniadau mwy cyson ac effeithiol i bobl sy'n ceisio gwybodaeth, cyngor a chymorth. Bu oedi yn y gwaith hwn yn ystod y flwyddyn, ac felly bydd angen rhoi blaenoriaeth iddo yn ystod 2026/27.






Digwyddiad "Gyda'n Gilydd dros Berthnasau Iach"

***Men at Work* a Pherthnasau Iach**

Caiff dylanwadau ar-lein, cynnwys niweidiol a stereoteipiau am berthnasau a rhyw effaith gynyddol ar blant a phobl ifanc. O ganlyniad, mae angen cefnogi gweithwyr proffesiynol i gael y wybodaeth, yr hyder a'r sgiliau i gynnal sgyrsiau agored ac adeiladol gyda phobl ifanc am berthnasau iach, parch, hunanddelwedd a llesiant emosiynol.

Ym mis Gorffennaf, o dan arweiniad yr Aelod Cabinet Addysg, trefnwyd digwyddiad "Gyda'n Gilydd dros Berthnasau Iach" ym Mangor. Drwy gyfraniadau gan unigolion â phrofiad byw, arbenigwyr a sefydliadau partner, bu'r digwyddiad yn gyfle i rannu gwybodaeth, codi ymwybyddiaeth o arwyddion cynnar perthnasau niweidiol, a datblygu cydweithio er mwyn cefnogi pobl ifanc yn fwy effeithiol.

Yn ogystal, fe gomisiynwyd cyfres o sesiynau hyfforddi ychwanegol i staff gan *Men at Work*, sefydliad a sefydlwyd gan Michael Conroy, er mwyn rhoi mwy o hyder ac adnoddau ymarferol i weithwyr proffesiynol gynnal sgyrsiau adeiladol gyda bechgyn a dynion ifanc. Derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn gan staff, gyda'r hyfforddiant yn cael ei weld fel adnodd gwerthfawr i gefnogi gwaith gyda phobl ifanc.

# PA GYNNYDD A WNAED YN ERBYN ADDEWIDION LLYNEDD?

| Addewidion llynedd | Cynnydd |
|---|---|
| Cryfhau'r gefnogaeth i ofalwyr di-dâl drwy sicrhau eu bod yn cael eu hadnabod yn gynnar ac yn derbyn cefnogaeth lawn i'w helpu i barhau yn eu rôl heb beryglu eu lles eu hunain. | |
| Ail-edrych a symleiddio'r "drysau ffrynt" i greu profiad cyson a syml i drigolion wrth iddynt gael mynediad at wasanaethau cymdeithasol. | |
| Defnyddio system LIFT i nodi unigolion a theuluoedd mewn angen, eu cefnogi i hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, a chynnig cymorth pellach i leihau effaith tlodi ar fywydau pobl Gwynedd ***** | |
| Adolygu trefniadau presennol i gefnogi'r hybiau cymunedol, gan greu model mwy cynaliadwy a chydweithredol gyda phartneriaid ar gyfer y dyfodol.***** | |

***Adroddir yn fanylach ar y prosiectau hyn drwy drefniadau Rhaglen Cefnogi Pobl. Bydd Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Cefnogi Pobl 2025/26 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn mis Gorffennaf.*

# ADDEWIDION 2026/27

1. Byddwn yn **ehangu defnydd o'r cynllun 'neges mewn potel**' ac wedi sicrhau bod system newydd Mosaic yn cefnogi gyda **chofnodi trefniadau argyfwng gofalwyr di-dal.**

2. Byddwn yn **addasu trefniadau ein gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** (IAA) gan sicrhau bod y broses o gysylltu yn glir, yn rhwydd ac yn effeithiol er mwyn helpu trigolion gael mynediad at wasanaethau cymdeithasol.

3. Byddwn yn hangu'r rhaglen **hyfforddiant trawma wybodus ar draws gwasanaethau rheng flaen**, a sicrhau arweiniad corfforaethol clir. Bydd y Cyfarwyddwr a'r Aelod Cabinet yn cwblhau hyfforddiant yn ystod 2026/27.

4. Byddwn yn **adolygu strwythurau a threfniadau strategol ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol** er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol, gyda mwy o bwyslais ar atal, cynllunio hirdymor a chynaliadwyedd gwasanaethau.

*Mae rhestr o flaenoriaethau strategol Cynllun y Cyngor yma: **Gwynedd Ofalgar***




# PARTNERIAETH AC INTEGREIDDIO

- *"Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cynaliadwy a chwbl integredig o safon uchel i bobl."*

- *"Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at gynllunio a darparu eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal."*

# CYDEWITHIO I DDIOGELU: STORI MAI



# PARTNERIAETH AC INTEGREIDDIO

**Cyd-weithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Mae dros hanner y Timau Adnoddau Cymunedol bellach wedi'u cydleoli gyda staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gyda'r trefniadau hyn yn cryfhau cydweithio ac yn cefnogi gwaith integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Er bod y cydweithio yn gadarnhaol ar y cyfan, mae angen gwaith pellach i sicrhau bod systemau a phrosesau yn cyd-fynd, ac mae gweithdai penodol wedi'u cynllunio i gefnogi hyn.

Yn ystod y flwyddyn, datblygodd Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd ddangosfwrdd gwybodaeth byw ar gyfer unigolion yn Ysbyty Gwynedd sydd angen dychwelyd adref gyda chefnogaeth. Mae'r gwaith hwn, ynghyd â'r trefniadau diogelwch rhyddhau dros gyfnod y gaeaf, wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda'r systemau data cysylltiedig bellach yn cael eu mireinio a'u rhannu'n rhanbarthol ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae heriau parhaus hefyd ynghylch penderfyniadau Gofal Iechyd Parhaus a threfniadau rhannu costau o dan Adran 117 y Ddeddf Iechyd Meddwl. Yn ystod y flwyddyn, ariannodd y gwasanaethau cymdeithasol gefnogaeth gyfreithiol i herio nifer o achosion, ac mae hyn eisoes wedi cyfrannu at well cydweithio mewn rhai meysydd.

**Sut y gallwn wneud pethau'n well?**

Mae angen cryfhau trefniadau rhannu data gyda'r Bwrdd Iechyd ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol. Bu heriau diweddar yn y maes Rhiantu Corfforaethol a Phlant mewn Gofal o ran sicrhau data gan y Bwrdd Iechyd. Bwriedir codi'r mater hwn gyda Chadeirydd y Bwrdd er mwyn sicrhau trefniadau mwy dibynadwy a chyson ar gyfer rhannu gwybodaeth yn y dyfodol.

**Derwen: Tîm Integredig Plant Anabl**

Mae Derwen yn un o wasanaethau allweddol Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd sy'n cefnogi plant anabl a'u teuluoedd, ac fe'i hystyrir yn wasanaeth cadarnhaol a gwerthfawr gan ddefnyddwyr. Fodd bynnag, mae'r galw a dwyster y gwaith wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Gweler fod y cynnydd yma yn cael ei adlewyrchu yn nifer y plant sy'n derbyn budd-daliadau anabledd ac ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Ngwynedd.

Disgwylir ganlyniadau dau ddarn allweddol o waith sydd wedi cychwyn yn 2025/26.

1. Adolygiad o fynediad ac ymarfer yn edrych ar feini prawf Derwen a'i drefniadau gweithio, gyda'r nod o wella effeithlonrwydd y gwasanaeth ac ymateb i'r galw.
2. Ymchwil Llechen Las sy'n ystyried anghenion presennol ac hirdymor plant anabl yng Ngwynedd, a goblygiadau hynny ar addysg, gofal cymdeithasol ac addasiadau tai.

Oherwydd maint a chymhlethdod y gwaith, mae'r amserlen y ddau ddarn o waith wedi llithro rhywfaint, a disgwylir adrodd ar ganlyniad yn ystod 2026/27.

Mae'r gwasanaeth yn wynebu heriau parhaus o ran capasiti'r gweithlu ac argaeledd gweithwyr cymdeithasol. Mewn ymateb, mae cynllun gweithlu pum mlynedd wedi'i ddatblygu mewn ymdrech i sicrhau gweithlu medrus, a bydd ei weithredu'n dechrau dros y flwyddyn nesaf mewn cydweithrediad ag Academi Gofal Gwynedd.

# PARTNERIAETH AC INTEGREIDDIO

**Cydweithio efo Mantell Gwynedd**

Mae cydweithio gyda'r trydydd sector er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn effeithiol, yn briodol ac yn berthnasol i bobl leol yn hanfodol.

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

Darpara Mantell Gwynedd wasanaeth cydgysylltu a chefnogaeth effeithiol i'r trydydd sector yng Ngwynedd, ac mae Compact newydd wedi'i ddatblygu drwy weithio mewn partneriaeth. Disgwylir i'r ddogfen gael ei gyflwyno i Gabinet y cyngor i'w gymeradwyo yn 2026/27.

Byddai'n anghywir i ni beidio â nodi llwyddiant y bartneriaeth, ac i hynny gael ei adlewyrchu yng ngeiriau Mantell Gwynedd:

> *"Mae'n wir nodi fod y berthynas wedi gwella yn sylweddol ac mae'r newidiadau hyn wedi arwain at drafodaethau mwy agored ac adeiladol. Mae hyn, yn ei dro, wedi arwain at brosiectau newydd sydd yn gwella amgylchiadau a chyfleoedd i rai o unigolion bregus y Sir.*
>
> *Gyda chyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Mantell Gwynedd mae wedi arwain at adnabod cyfleoedd cydweithio a gwell dealltwriaeth o sut gall y trydydd sector gyfrannu at nodau ac amcanion Cyngor Gwynedd. Bu'r sgyrsiau hyn ar goll yn y gorffennol.*
>
> *Enghraifft o sut mae'r trafodaethau wedi arwain at well cydweithio yw prosiect Ffrindia Newydd. Roedd y cyngor yn adnabod cyfyngiadau ar ofalwyr cartref o ran darparu meddyginiaeth a Mantell Gwynedd yn gweld ffyrdd o ddatrys rhai o'r cyfyngiadau trwy brosiect cyfeillio. Arweiniodd hyn at arian prosiect o gronfa SPF i dreialu peilot prosiect cyfeillio. Mae'r prosiect peilot yn dod i ben fis Mehefin 2026 a Mantell Gwynedd bellach wedi adnabod cronfa fydd yn medru cefnogi'r gwaith yn y tymor hirach. Heb y cydweithio a'r peilot ni fyddai hyn wedi digwydd yn y lle cyntaf. Yn y pen draw mae hyn wedi golygu gwella amgylchiadau i unigolion bregus yng Ngwynedd ac, ar yr un pryd, wedi bod o fudd i wirfoddolwyr.*
>
> *Enghraifft arall yw prosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli. Eto, trwy drafodaethau gyda Chyngor Gwynedd adnabuwyd yr angen am adnodd fyddai yn cefnogi unigolion bregus i fynd ati i wirfoddoli. Bellach mae'r prosiect yma wedi cefnogi dros 180 o unigolion gydag anghenion ychwanegol i fynd ati i wirfoddoli. Mae arian Loteri bellach yn cefnogi'r prosiect am gyfnod o bedair blynedd. Eto, heb y cydweithio ni fyddai hyn wedi digwydd."*
>
> **Bethan Williams, Prif Swyddog Mantell Gwynedd**

# PARTNERIAETH AC INTEGREIDDIO

**Cyd-weithio â'r Adran Dai**

Er bod cydweithio â phartneriaid allanol yn bwysig, mae cydweithio mewnol rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol ac adrannau eraill y Cyngor, yn enwedig Tai, yn hanfodol.

Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol y llynedd, comisiynodd Gwasanaethau Oedolion a'r Adran Tai adroddiad ar y cyd i gynllunio darpariaeth llety a gofal hirdymor ar gyfer pobl hŷn yng Ngwynedd (Adroddiad Housing LIN). Mae rhywfaint o oedi wedi bod yn y gwaith, ond mae drafft cychwynnol o'r adroddiad bellach wedi'i dderbyn. Nod y gwaith yw archwilio anghenion presennol ac yn y dyfodol, llywio datblygiadau, a chreu un cynllun cynhwysfawr ar gyfer mapio gwasanaethau'r dyfodol, gan gynnwys gofal nyrsio, gofal dementia, tai gofal ychwanegol, tai gwarchod, byw â chymorth a thai cyffredinol i bobl hŷn.

Mae tai gofal ychwanegol yn faes penodol o bwys, ac yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymateb i'r heriau a nodwyd yn adroddiad **Llechen Lan**. Y bwriad presennol yw datblygu tri chynllun tai gofal ychwanegol newydd yng Ngwynedd, sef yng Nghaernarfon, Pwllheli (safle Penrhos sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd), Bangor ac ardal Dolgellau. Bydd adroddiad Housing LIN yn darparu sail dystiolaethol bwysig i lefel a natur yr angen, ac yn cefnogi'r cynlluniau hyn.

Yn ogystal, mae'r Uned Darparu Fewnol wedi comisiynu asesiadau o'r holl gartrefi preswyl a reolir gan y Cyngor er mwyn asesu eu haddasrwydd presennol a nodi'r datblygiadau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y dyfodol. Bydd canfyddiadau'r asesiad mewnol a'r Housing LIN yn cael eu cyfuno mewn un cynllun cynhwysfawr i bennu'r math o ddarpariaeth sydd ei hangen, y safonau gofynnol, a'r opsiynau llety hirdymor ar gyfer pobl hŷn ledled Gwynedd.



Datblygiad Tai Penrhos yn dod yn ei flaen

**MOSAIC: System Ddata Newydd**

Fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, roedd angen sicrhau system newydd gan fod y system ddata gwasanaethau cymdeithasol bresennol (WCCIS) yn dod i ben. Bu cydweithio â awdurdodau lleol ledled Gogledd Cymru i gwblhau'r broses dendro o fewn amserlen heriol, ac ers hynny mae system MOSAIC wedi ei phrynu. Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd gwaith helaeth o baratoi ar gyfer y trosglwyddiad, gan gynnwys cynllunio, gwaith technegol a pharatoi'r gweithlu. Mae'r amserlen weithredu bellach wedi llithro i Fawrth 2027. Disgwylir i MOSAIC wella cofnodi, rhannu gwybodaeth a chyfathrebu â thrigolion a phartneriaid.

# PARTNERIAETH AC INTEGREIDDIO

### Cyd-weithio â'r Adran Addysg

Adnabuwyd yn adroddiad *Cyfiawnder Trwy ein Dewrder* rai gwendidau yn y trefniadau cydweithio rhwng yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant. Ers hynny, mae newidiadau strwythurol wedi'u gwneud i gryfhau'r cysylltiadau gwaith rhwng y ddwy adran. Mae'r Adran Addysg wedi sefydlu Tîm Diogelu a Lles Ysgolion, ac mae'r Rheolwr yn mynychu cyfarfodydd y Tîm Rheoli Plant, gan wella'r trefniadau rhannu gwybodaeth a chydlynu ar draws gwasanaethau.

Un enghraifft o'r cydweithio gwell yw cyd-gomisiynu'r NSPCC i ddarparu hyfforddiant ar gamfanteisio ("grooming"). Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno mewn dau ran: modiwl sylfaenol i staff, llywodraethwyr ac aelodau etholedig, a sesiwn fwy arbenigol ar y cyd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, athrawon a phersonau dynodedig ysgolion. Y gobaith yw y bydd hyn yn cyfrannu at ddealltwriaeth fwy cyson ac at well cysondeb yn yr ymateb rhwng gwasanaethau.

### Gwasanaethau Trais yn y Cartref

Mae oddeutu **11.1 o bob 1,000 o boblogaeth Gwynedd (1.1%) yn profi trais domestig yn flynyddol,** sy'n tanlinellu'r angen am wasanaethau effeithiol a chydgysylltiedig.

Nodwyd yn ystod y flwyddyn yr angen i gryfhau cydweithio ar draws y Cyngor yn y maes Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), gan gynnwys gwell dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau a symud tuag at gomisiynu ar y cyd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn dilyn penderfyniad Grŵp Cynefin i ddod â Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorwel i ben, ac wrth ystyried trefniadau IDVA yn sgil bwriad Llywodraeth y DU i ddirwyn swyddogaethau'r Comisiynwyr Heddlu i ben dros y blynyddoedd nesaf. Ar hyn o bryd, Comisiynydd yr Heddlu sy'n ariannu gwasanaethau IDVA yng Ngogledd Cymru.

Er mwyn cefnogi hyn, mae'r Adran Tai, drwy gyllid Grant Cefnogi Tai, wedi comisiynu asesiad cynhwysfawr o'r gwasanaethau presennol ac anghenion y boblogaeth, gyda'r adroddiad i'w gwblhau erbyn diwedd Gorffennaf 2026 er mwyn llywio'r broses dendro ar gyfer y gwasanaeth newydd. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud i ystyried modelau arfer da, gan gynnwys trefniadau sydd ar y gweill yng Nghyngor Pen-y-bont ar Ogwr.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad cenedlaethol ar wasanaethau trais domestig, gan amlygu gwahaniaethau yn y modelau ariannu a darparu ar draws rhanbarthau. Mae'r ymgynghoriad yn gyfle i ystyried mwy o gysondeb cenedlaethol yn y dulliau gweithredu.

### Sut y gallwn wneud pethau'n well?

Mae angen cryfhau'r dull cyson o gomisiynu a darparu gwasanaethau VAWDASV ar draws y Cyngor, gan fod gwasanaethau hyd yma wedi cael eu comisiynu ar wahân heb ddarlun cyflawn o'r ddarpariaeth gyfan. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae Grŵp Gorchwyl aml-adrannol (Tai, Plant, Oedolion a Diogelwch Cymunedol) wedi'i sefydlu i ddod â'r gwaith ynghyd, gwella cydlynu, a datblygu darlun cliriach o'r gwasanaethau sydd ar gael.

# PA GYNNYDD A WNAED YN ERBYN ADDEWIDION LLYNEDD?

| Addewidion llynedd | Cynnydd |
|---|---|
| Cwblhau gweithredu'r system ddata newydd, gan sicrhau hyfforddiant cynhwysfawr i'r gweithlu. | |
| Adolygu a gwella'r systemau data sy'n cefnogi rhyddhau o'r ysbyty, adeiladu ar y berthynas gadarn tra bo newidiadau personél yn digwydd ar lefel strategol. | |
| Adolygu trefniadau Gwasanaeth Derwen er mwyn ceisio mynd i'r afael â amseroedd aros asesiadau nyrsio a seicoleg a cwblhau'r gwaith ymchwil i ddeall twf poblogaeth plant anabl. | |
| Ailafael a chryfhau partneriaethau gyda'r trydydd sector, gan gynnwys llunio Compact newydd i sefydlu sail glir i gydweithio. | |
| Comisiynu ymchwilwyr allanol i ddadansoddi tueddiadau a phenderfynu ar anghenion darpariaeth ychwanegol o ran llety gofal. | |

# ADDEWIDION 2026/27

1. Byddwn yn parhau â'r gwaith paratoi a gweithredu ar gyfer **trosglwyddo i system ddata newydd MOSAIC** erbyn Mawrth 2027.


2. Byddwn yn **cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i wella rhannu data ym maes Plant mewn Gofal**, er mwyn galluogi'r Panel Rhiantu Corfforaethol i wneud penderfyniadau gwybodus.

3. Byddwn yn derbyn canfyddiadau'r **adolygiad mynediad Derwen a'r ymchwil Llechen Las** ac yn gweithredu i wella'r model gwasanaeth.

4. Byddwn yn **creu cynllun llety hirdymor integredig ar gyfer pobl hŷn** ledled Gwynedd, er mwyn sicrhau dull strategol, cyson a chynaliadwy o ddiwallu anghenion tai a gofal y dyfodol.

5. Yn y maes Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol VAWDASV, byddwn yn **cryfhau cydweithio mewnol ar draws y Cyngor, cwblhau'r asesiad anghenion, a symud ymlaen i baratoi ar gyfer comisiynu gwasanaeth newydd** mwy cyson a chydgysylltiedig.

*Mae rhestr o flaenoriaethau strategol Cynllun y Cyngor yma:* ***Gwynedd Ofalgar***




- *"Mae pobl yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed."*


- *"Mae pobl yn cael eu helpu i reoli eu llesiant a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel y gallant gyrraedd eu potensial llawn a byw'n annibynnol cyhyd â phosibl."*

## CIPLUN MEWN RHIFAU:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **293** O BLANT MEWN GOFAL | **84%** O GYFEIRIADAU PLANT YR YMATEBWYD IDDYNT O FEWN Y CYFNOD STATUDOL | **94%** O GYFEIRIADAU DIOGELU OEDOLION YR YMATEBWYD IDDYNT O FEWN 7 DIWRNOD | **759** O DRAFODAETHAU STRATEGAETH GYCHWYNNOL |
| **193** O BLANT MEWN LLEOLIADAU MAETHU | **319** YN AROS AM ASESIAD DOLS | **8,069** O GYFEIRIADAU PLANT | **496** NIFER WEDI CAEL MYNEDIAD I GEFNOGAETH TÎM AWTISTIAETH: |

Tud. 104

# CEFNOGAETH PERSON-GANOLOG: STORI ALUN




# LLES

**Cyfeiriadau Gwasanaethau Plant**

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y cyfeiriadau at Wasanaethau Plant Gwynedd yn ystod y flwyddyn, er bod poblogaeth plant y sir yn lleihau. Derbyniwyd dros 8,000 o gyfeiriadau – y nifer uchaf erioed i'r Cyngor – gan roi pwysau sylweddol ar y gweithlu a'r adnoddau. I ymateb, cytunodd y Cyngor i fuddsoddi dros £600,000 ychwanegol yn y flwyddyn nesaf, gan alluogi creu swyddi newydd, gan gynnwys rôl sicrwydd ansawdd, i gryfhau gwasanaethau a sicrhau bod llais y plentyn yn ganolog i'r gwaith.

Gall y cynnydd hwn hefyd adlewyrchu effaith gadarnhaol ymwybyddiaeth gynyddol o ddiogelu, gyda mwy o bryderon yn cael eu hadnabod a'u cyfeirio'n gynnar. Mae'n hanfodol bod pryderon yn cael eu cyfeirio'n briodol er mwyn sicrhau diogelu effeithiol.

I gryfhau'r ymateb corfforaethol, penodwyd Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol i atgyfnerthu'r neges bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb, a gwella ymwybyddiaeth, hyder staff, a chydymffurfiaeth â hyfforddiant mandadol. Yn ystod y flwyddyn cafodd dulliau hyfforddi mwy hygyrch, gan gynnwys fformat fideo, eu datblygu, gyda'r bwriad o'u lansio yn ystod 2026/27.




**Adran Plant: Fframwaith Sicrwydd Ansawdd**

Un o'r datblygiadau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn oedd cyflwyno fframwaith sicrwydd ansawdd newydd ar gyfer Gwasanaethau Plant. Mae'r fframwaith yn gosod gweledigaeth glir, gan egluro ei werthoedd, ei bwrpas a'r egwyddorion sy'n sail i'r gwaith, gyda phwyslais cryf ar sicrhau bod llais y plentyn yn ganolog.

Mae hefyd yn diffinio rolau a chyfrifoldebau staff o fewn trefniadau diogelu ac amddiffyn plant, gan gryfhau dulliau sicrhau ansawdd a darparu sicrwydd cliriach ar safon y gwasanaeth. Bwriedir ei hyrwyddo ymhellach i staff a'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n gyson ac yn effeithiol ar draws pob maes.

# LLES


### Plant Mewn Gofal


Gwelwyd cynnydd yn nifer y plant mewn gofal yn ystod 2025/26, gyda 12 yn fwy mewn gofal ar ddiwedd y flwyddyn o gymharu â llynedd. Bu rhaid defnyddio trefniadau lleoliadau heb gofrestriad (OWR) ar gyfer 4 o blant oherwydd diffyg lleoliadau addas ar draws y Deyrnas Unedig. Nid yw hon yn her unigryw i Wynedd, gyda llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru a'r DU yn wynebu'r un pwysau. O ganlyniad, mae rhai plant wedi'u lleoli y tu allan i'r sir, yn bell o'u teuluoedd a'u cynefin, mewn lleoliadau nad ydynt bob amser yn addas yn ddiwylliannol ac sy'n gostus iawn i'r Cyngor.

Mae datblygu cartrefi grŵp bychain ar draws y sir yn flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023–28 er mwyn galluogi mwy o blant i aros yn lleol. Tra bod dau gartref eisoes yn weithredol ym Morfa Bychan a Deiniolen, gyda'r plant wedi setlo'n dda, ni lwyddwyd i gyrraedd y targed gwreiddiol ar gyfer agor y cartref yn Edern, gan fod gwaith adnewyddu sylweddol angen ei gwblhau ar yr adeilad. Prynwyd tŷ arall yng Nghricieth yn y cyfamser, ac mae'r cartref yn mynd drwy'r broses gofrestru gydag Archwilio Gofal Cymru (AGC), gyda'r bwriad o agor yn ystod 2026/27.

### Sut y gallwn wneud pethau'n well?

Mae angen cyflymu'r gwaith ar gryfhau darpariaeth leol, gan gynnwys ehangu cyfleoedd maethu, lleihau'r ddibyniaeth ar leoliadau costus y tu allan i'r sir, a sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn gallu aros yn agos at eu teuluoedd, eu hysgolion a'u cymunedau. Crëwyd rôl benodol ym mis Mawrth 2026 i arwain ar y rhaglen, gan gefnogi agenda Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant.


Llwyddiant Ap Niwro




### Ap Niwro

Parha Tîm Awtistiaeth Gwynedd i arloesi a lansiwyd Ap Niwro Cymru yn Ionawr 2026 fel adnodd hygyrch a defnyddiol i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae'r ap yn cynnig gwybodaeth glir a dibynadwy, gweithgareddau lleddfol, manylion digwyddiadau lleol ac ystod eang o adnoddau a chymorth. Ers ei lansio, mae wedi denu nifer sylweddol o ymholiadau a thua 1,000 o lawrlwythiadau, gan adlewyrchu galw cynyddol am y gefnogaeth hon.

Mae'r Tîm Awtistiaeth yn cael ei gydnabod fel tîm cryf ac effeithiol. Dena model gwaith sylw mewn cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol, gyda diddordeb gan naw sir arall yn edrych i efelychu'r dull gweithredu – gwych yw gweld arfer da yng Ngwynedd yn cael ei gydnabod a rannu'n eang.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu'r Sir**

Mae gwasanaethau dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Ngwynedd wedi parhau i ddatblygu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn, gyda modelau amrywiol ar draws y sir yn diwallu anghenion lleol ac yn hyrwyddo lles unigolion.

Yng Nghaernarfon, mae mentrau fel Siop Galwch Acw a gweithgareddau yn Glynllifon yn darparu cyfleoedd i unigolion ddatblygu sgiliau crefft a chynhyrchu, yn ogystal â chyfrannu at y gymuned drwy waith garddio a chynnal yr amgylchedd lleol. Mae Llwybrau Llesiant, a ariennir drwy'r grant rhanbarthol, yn rhoi pwyslais ar yr hyn sy'n bwysig i unigolion, gan gynnig dewis a rheolaeth dros ystod o weithgareddau megis teithiau, clybiau cymdeithasol, nosweithiau allan a grwpiau trafod.


Yn ardal Pwllheli a Phen Llŷn, lle mae trafnidiaeth yn her ychwanegol, mae Canolfan y Gwystl yn parhau'n enghraifft lwyddiannus o wasanaeth sy'n darparu cyfleoedd ystyrlon a chynhyrchiol. Yn ystod ymweliad diweddar, nodwyd y gweithlu ymroddedig sydd wedi cefnogi'r gwasanaeth dros nifer o flynyddoedd, gyda'r ganolfan yn cynnig ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys Popty Prysur (busnes pobi a gwerthu cacennau), tyfu tatws ar gyfer gwerthiant lleol, ynghyd â chlybiau cymdeithasol a chreadigol.

Yn Nolgellau, bu cyfnod o newid gyda dymchwel safle Dolfeurig er mwyn datblygu canolfan newydd. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd cynnydd da wedi'i wneud ar yr adeilad, a fydd yn cynnwys canolfan hyfforddi, gwasanaeth dydd a chaffi cymunedol i'w redeg gan yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Disgwylir i'r datblygiad hwn gryfhau cyfleoedd lleol a chysylltiadau cymunedol ymhellach yn ystod 2026/27.

*"Byddaf yn mynd i glwb nos Trilogy am y tro cyntaf erioed heno. Bydd yn wych cael profi awyrgylch clwb nos gyda thîm lles gwych Llwybrau Llesiant. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r tîm anhygoel am yr holl waith maent yn ei wneud i drefnu gweithgareddau a sesiynau amrywiol. Hebddynt, ni fyddai'r cyfleoedd gwych hyn ar gael yn y lle cyntaf. Diolch o galon i chi gyd!."*

**Defnyddiwr Gwasanaeth Llwybrau Llesiant (Tim Anabledd Dysgu)**


Noson Clwb Nos Trilogy, Llwybrau llesiant



# LLES

**Gwasanaeth Iechyd Meddwl**

Yn adroddiad y llynedd, adroddwyd ar sefydlu gwasanaeth iechyd meddwl newydd o fewn y gwasanaethau cymdeithasol. Er nad yw'r gwasanaeth wedi'i integreiddio'n llawn â'r gwasanaeth iechyd, fe'i sefydlwyd i weithio mewn partneriaeth agos â chydweithwyr yn y bwrdd iechyd. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth a gwasanaethau cymdeithasol yn hytrach na thriniaethau meddygol neu glinigol.

Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i sicrhau nad oedd rhestr aros ar gyfer asesiadau iechyd meddwl a cafodd y mwyafrif helaeth o unigolion eu hasesu o fewn tua 10 diwrnod, gyda dim ond nifer fach yn aros hyd at bythefnos. Yn ogystal, comisiynwyd nifer o leoliadau preswyl ar gyfer unigolion â phroblemau iechyd meddwl, gan sicrhau bod cymorth priodol ar gael pan oedd ei angen.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r adran yn adolygu sut y dylai'r gwasanaeth ddatblygu ymhellach, gan gynnwys rôl gweithwyr cefnogol ac ymarferwyr gofal, er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael a cheisio cefnogi bobl i allu byw yn eu cymunedau mor annibynnol a sy'n bosib.

**Sut y gallwn wneud pethau'n well?**

Mae rhai sefyllfaoedd lle mae unigolion ag anghenion cymhleth yn syrthio rhwng gwasanaethau, gan arwain at oedi a thrafodaethau ynghylch cyfrifoldeb am eu gofal. Mae hyn yn cynnwys achosion megis unigolion ag awtistiaeth nad ydynt yn bodloni meini prawf anabledd dysgu, pobl ifanc sy'n pontio i wasanaethau oedolion, a sefyllfaoedd cymhleth fel celcio (hording). Amlyga hyn yr angen am well cydlynu a chydweithio i sicrhau bod unigolion yn derbyn y gefnogaeth briodol ar yr adeg gywir.

**Rhestr Aros Asesiad Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS)**

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd pwyslais ar sicrhau bod unigolion sydd heb y gallu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain yn cael eu diogelu'n briodol, tra'n parchu eu hawliau wrth weithredu trefniadau Amddifadu o Ryddid. Er bod y penderfyniadau hyn yn gymhleth ac yn heriol, mae'n hanfodol sicrhau nad yw unigolion yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghywir nac yn anghyfreithlon. Nodwyd bod y system yn parhau i fod yn gymhleth, gyda pheth oedi oherwydd biwrocratiaeth a diffyg cynnydd mewn datblygiadau deddfwriaethol.

Yn ystod y flwyddyn, darparodd y Cyngor fuddsoddiad ychwanegol gwerthfawr i'r gwasanaeth, ond wynebwyd heriau recriwtio sylweddol am gyfnod. Erbyn diwedd y flwyddyn, llwyddwyd i recriwtio dau aelod staff newydd, sydd bellach wedi cwblhau eu hyfforddiant, cymhwyso, ac wedi dechrau ar eu llwyth achos, gan gyfrannu at welliant yn y capasiti. O ganlyniad, mae perfformiad wedi gwella'n raddol, gyda chynnydd yn nifer yr achosion a awdurdodwyd a gostyngiad yn y rhestr aros.

Erbyn 31 Mawrth 2026, **roedd 319 o unigolion yn aros am asesiad DoLS, o gymharu â 356 y flwyddyn flaenoro**l. Y nod yw parhau i wella'r sefyllfa, gan anelu at sicrhau nad oes neb yn aros mwy na 21 diwrnod am asesiad, drwy barhau i fuddsoddi adnoddau a lleihau'r ôl-groniad ymhellach.

# PA GYNNYDD A WNAED YN ERBYN ADDEWIDION LLYNEDD?

| Addewidion llynedd | Cynnydd |
|---|---|
| Bydd y Cyngor yn cwblhau'r gwaith o baratoi ac agor dau dŷ ychwanegol yn Ninorwig ac Edern, gan ymestyn y gallu i gynnig gofal preswyl lleol i blant gydag anghenion cymhleth. | |
| Bwriedir recriwtio dau Asesydd Budd Gorau newydd er mwyn lleihau'r ôl-groniad o asesiadau DoLS sydd angen eu cwblhau. | |
| Bydd y Cyngor yn datblygu cynllun strategol i gynnal ac uwchraddio safonau ein cartrefi gofal preswyl, gan sicrhau amgylcheddau cynnes, diogel a pharchus i'r preswylwyr. | |

# ADDEWIDION 2026/27

1. Byddwn yn defnyddio'r buddsoddiad ychwanegol o £600k i **gryfhau capasiti yn yr Adran Plant**, gan gynnwys creu swyddi newydd a phenodi rôl benodol ar gyfer rheolwr sicrwydd ansawdd.

2. Byddwn yn **gwreiddio'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ar draws pob tîm yn yr Adran Plant** er mwyn sicrhau dull cyson o weithio, gyda phwyslais clir ar ansawdd a llais y plentyn.

3. Byddwn yn **cyflymu gweithredu yr agenda "dileu elw"** drwy ehangu darpariaeth fewnol gynaliadwy, gan gynnwys datblygu maethu lleol a chynyddu'r ddarpariaeth o gartrefi grŵp bychain ar draws y sir.

4. Byddwn yn **cwblhau ac agor Canolfan Dolfeurig** ar ei newydd wedd, gan gryfhau'r ddarpariaeth leol o wasanaethau dydd a chyfleoedd cymunedol.

5. Byddwn yn parhau i **leihau'r ôl-groniad a chyflymu amseroedd asesiadau DoLS**, gan wella effeithlonrwydd a sicrhau bod unigolion yn cael asesiadau amserol.

*Mae rhestr o flaenoriaethau strategol Cynllun y Cyngor yma:* ***Gwynedd Ofalgar***

# GWYBODAETH BELLACH

# ARCHWILIADAU AC ADOLYGIADAU

Parhaodd y berthynas agos rhwng Cyngor Gwynedd ac Arolygaeth Gofal Cymru (AGC), Estyn ac Archwilio Cymru drwy gydol 2025/26. Cynhaliwyd gweithdy blynyddol fel arfer gyda chynrychiolwyr o'r prif sefydliadau archwilio, gan gryfhau'r dull o adolygu ac asesu gwasanaethau'n barhaus.

Yn ystod y flwyddyn, bu nifer o arolygiadau ac adolygiadau pwysig ar draws gwasanaethau plant. Fel y nodwyd eisoes yn yr Adroddiad Blynyddol, cyhoeddwyd Adolygiad Ymarfer Plant *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder* yn hydref 2025, gan amlygu nifer o wendidau mewn ymarfer. Mae gwaith sylweddol yn parhau i ymateb i'r argymhellion, gyda chynnydd yn cael ei oruchwylio drwy **Fwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb** gydag Adroddiad Chwarterol i Gabinet gan Gadeirydd y Bwrdd,yr Athro Sally Holland.

> *"Hoffwn gydnabod yr ymrwymiad a ddangoswyd gan aelodau'r Bwrdd yn ystod cyfnod o waith sydd wedi bod yn gymhleth ac yn sensitif. Mae presenoldeb a chyfranogiad yn parhau ar lefel uchel. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod cryfhau trefniadau diogelu ac ymgorffori dull o ganolbwyntio ar y plentyn, sy'n seiliedig ar hawliau ar draws system gyfan, yn cymryd amser, arweinyddiaeth barhaus a chraffu gofalus.*
>
> *Mae'n galonogol gweld y cynnydd sy'n cael ei wneud a'r parodrwydd i ddysgu ac addasu. Mae'r Rhaglen yn uchelgeisiol a bydd yn parhau i fynnu amser ac adnoddau eraill uwch swyddogion er mwyn bod yn llwyddiannus. Bydd y Bwrdd yn parhau i ddarparu cefnogaeth adeiladol a throsolwg gadarn i'r Cabinet wrth i'r gwaith fwrw yn ei flaen, gyda ffocws barhaus ar effaith, tryloywder, a phrofiadau byw plant a phobl ifanc."*
>
> **Yr Athro Sally Holland, Adroddiad Chwarterol (10 Mawrth 2026)**

Ym mis Tachwedd 2025, cynhaliwyd adolygiad ar y cyd gan **Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn ar drefniadau diogelu'r Cyngor**. Er bod yr arolygiad wedi nodi llawer o arferion cadarnhaol, amlygwyd pedwar maes i'w cryfhau, gan gynnwys sicrhau mwy o gysondeb wrth ystyried llais y plentyn, datblygu trefniadau sicrwydd ansawdd, cryfhau hyfforddiant diogelu, a gwella rhai trefniadau gweithredol a chomisiynu. Mae gwaith eisoes ar y gweill i ymateb i'r canfyddiadau hyn, gan gynnwys datblygu Strategaeth Llais y Plentyn a gweithredu Fframwaith Sicrwydd Ansawdd newydd. Gellir weld yr Ymateb i'r Argymhellion ym mhapurau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mis Chwefror 2026: **Eitem 11.**

Cafodd y Gwasanaethau Mabwysiadu, Derwen a Maethu eu harolygu gan AGC hefyd yn ystod y flwyddyn, gyda chanlyniadau cadarnhaol ar y cyfan. Roedd adroddiad y Gwasanaeth Derwen yn cydnabod safon uchel y gwasanaeth a'r canlyniadau a gyflawnir. Mae gwaith yn parhau i weithredu'r argymhellion perthnasol er mwyn cryfhau'r gwasanaethau ymhellach.

Ni fu archwiliadau allanol o Wasanaethau Oedolion yn ystod 2025/26. Fodd bynnag, mae'r adran yn parhau i weithredu argymhellion archwiliadau blaenorol, gyda threfniadau monitro rheolaidd mewn lle i adolygu cynnydd a sicrhau gwelliant parhaus.

# CWYNION

Er bod y Gwasanaethau yn ymdrechu'n gyson i ddarparu gofal o'r safon uchaf bosib, mae'n anochel y bydd achlysuron lle mae pethau'n mynd o'i le. Mae'r drefn gwynion statudol yn cynnig ffordd ffurfiol i unigolion leisio pryderon, gan alluogi'r Adrannau i ddysgu gwersi ac osgoi ailadrodd camgymeriadau.

Yn ystod 2025/26, derbyniwyd cyfanswm o 31 o gwynion ffurfiol a aeth drwy Gam 1 o'r Drefn Gwyno, sef 3 yn fwy na blwyddyn diwethaf. Symudodd 5 ymlaen i Gam 2 (o'i gymharu â 3 cwyn yn 2024/25), ac ni chafodd unrhyw gwyn ei gyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Adlewyrcha hyn y dull rhagweithiol o fynd i'r afael â phryderon yn gynnar ac yn effeithiol, gan gynnwys cydweithio agos rhwng y Swyddogion Gofal Cwsmer, timau gwasanaeth, rheolwyr a'r Gwasanaeth Cyfreithiol.

| | Cwyn Ffurfiol (Cam 1) | Cwyn Cam 2 | Cwyn Corfforaethol | Ombwdsman |
|---|---|---|---|---|
| **Oedolion** | 15 | 2 | 4 | 0 |
| **Plant** | 16 | 3 | 7 | 0 |

Yn yr Adran Plant, gweler fod nifer sylweddol o gwynion yn cael eu cyflwyno tra bo achosion cysylltiedig yn destun prosesau llys. Yn unol â'r canllawiau perthnasol, mae'n rhaid gohirio ystyried y cwynion hyn nes bod y broses gyfreithiol wedi'i chwblhau, gyda'r unigolion dan sylw yn cael eu cynghori i godi eu pryderon drwy eu cynrychiolwyr cyfreithiol yn ystod y trafodion.

Ni adroddwyd unrhyw batrwm yn yr Adran Oedolion eleni, gyda natur y cwynion yn amrywiol ac yn adlewyrchu amgylchiadau unigryw pob achos.

Un tueddiad mwy amlwg yw'r cynnydd yn nifer y Ceisiadau Mynediad at Ddata Personol (SAR), gyda thua 20 yn fwy yn cael eu derbyn nag yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r ceisiadau hyn yn aml yn ymwneud ag unigolion sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r Adran Plant dros gyfnodau hir neu sydd wedi derbyn gofal am nifer o flynyddoedd. O ganlyniad, gall y gwaith o adfer, adolygu a rhyddhau gwybodaeth fod yn gymhleth ac yn ddwys o ran adnoddau, gan greu pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth wrth sicrhau bod ceisiadau'n cael eu prosesu'n gyflawn ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol.

Mae'r broses o ddysgu gwersi yn ganolog i'r drefn gwynion, gyda phob achos yn cael ei adolygu gan y Timau Rheoli Adrannol i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd yn amserol. Yn ogystal ym mis Rhagfyr, sefydlodd y Pwyllgor Craffu Gofal grŵp tasg a gorffen i edrych yn fanylach ar y trefniadau cwynion (**Eitem 8**). Roedd yr aelodau'n awyddus i wella eu dealltwriaeth o natur y cwynion a dderbynnir, y broses gwyno, y defnydd o'r Gymraeg wrth gwyno, a'r gefnogaeth sydd ar gael i staff sy'n delio ag achwynwyr cyson.

Bydd yr Adroddiad Cwynion Blynyddol llawn â rhagor o fanylion yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Tachwedd 2026 ac ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor, fel rhan o'n hymrwymiad i dryloywder ac atebolrwydd. Gweler yr adroddiadau cwynion blaenorol yma: **Adroddiad Blynyddol Cwynion**

## Dolenni gwybodaeth pellach

Mae'r adran olaf hon yn rhestru lleoedd i gael mwy o wybodaeth am rai o'r pethau y sonnir amdanyn nhw yn yr adroddiad hwn.

- Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28
- Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd
- Trefn gwynion a chanmoliaeth
- Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn
- Pwyllgor Craffu Gofal
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru
- Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
- Arolygaeth Gofal Cymru
- Helpu'n Hun



# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **2 Gorffennaf 2026** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

### 1. PENDERFYNIAD

Gofynnir i'r Cyngor Llawn i dderbyn yr adroddiad

### 2. Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?

2.1 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn yn flynyddol yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr.

2.2 Yn unol a gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:

- Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth
- Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl,
- Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.

2.3 Mae adroddiad blynyddol eleni yn un cryno ac yn canolbwyntio ar y datblygiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag amlinellu'r holl gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau. Yn ogystal mae'n amlinellu'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

2.4 Dymunaf ddiolch i chi aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am eu sylwadau adeiladol yn ystod ein cyfarfodydd dros y flwyddyn. Mae nifer o

dimau o fewn y Cyngor yn fy nghynorthwyo i ddarparu’r gefnogaeth orau bosib i chi, a dymunaf ddiolch i bawb am eu gwaith, ond rwyf am ddiolch yn benodol i swyddogion y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith, sef eich prif gyswllt dydd i ddydd, i’r tîm dysgu a datblygu, a’r holl swyddogion eraill sy’n cynorthwyo i’ch cefnogi yn eich rôl.

## 3. Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn argymell y penderfyniad

Cyflwynwyd drafft o’r adroddiad blynyddol i gyfarfod 16eg o Fehefin o’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ac addaswyd y cynnwys yn dilyn eu sylwadau.

## 4. SYLWADAU’R SWYDDOGION STATUDOL:

### **Swyddog Monitro**:

Rwy’n gwerthfawrogi y cyd weithrediad agos sydd yn digwydd rhwng Gwasanaethau Cyfreithiol a’r Gwasanaethau Democrataidd .Wrth baratoi ar gyfer yr etholiad a thu hwnt bydd y cyd weithio yma yn allweddol i gefnogi yr aelodau baratoi ar gyfer y tymor newydd. Rwy’n croesawu yr adroddiad yma.

### **Swyddog Cyllid Statudol**:

Nid yw’r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd a nid oes gennyf sylwadau pellach i’w hychwanegu.

# Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

2025/2026



# RHAGAIR

Rwyf bellach wedi bod yn fy rôl fel Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yng Ngwynedd ers 4 o flynyddoedd. Dros y cyfnod rwyf wedi dysgu llawer ac wedi gwerthfawrogi eich sylwadau i fod yn gwella'r gwasanaeth ar eich cyfer. Mae'r byd yn newid yn barhaus ac rydym yn ceisio ein gorau i fod yn addasu'r gefnogaeth sydd ar gael yn unol a'r heriau newydd.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy adroddiad blynyddol yn amlinellu'n gryno iawn y gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr Gwynedd.

Mae fy niolch yn benodol i'r Cynghorydd Anne Lloyd-Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, ynghyd ag aelodau'r pwyllgor hwnnw am eu mewnbwn a sylwadau craff. Diolch hefyd i'r holl swyddogion sy'n gweithio'n galed yn cefndir.

Edrychaf ymlaen i gyd-weithio gyda chi dros y flwyddyn i ddod wrth baratoi at etholiad Mai 2027.

Diolch a chofion,
Ian



*Ian Jones,*

**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

# CEFNOGAETH I CHI FEL CYNGHORWYR

Mae nifer o dimau ar draws y Cyngor yn cynnig cefnogaeth i chi fel Cynghorwyr. Fodd bynnag, mae'r prif ddarpariaeth yn dod gan y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith. Mae rhai newidiadau wedi bod yn ystod 2025/26, felly dyma drosolwg o'r newidiadau diweddaraf:

**Ymddeoliad Eirian**



Bu i Eirian Roberts ymddeol wedi bron i 40 mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2025.

Mae Sian wedi bod yn gyfrifol am y gwaith dinesig yn cefnogi'r Arglwydd Raglaw a'r Cadeirydd, yn ogystal a dyletswyddau amrywiol eraill. Bydd cyfnod ymddeoliad hyblyg Sian yn dod i ben diwedd Gorffennaf 2026. Pob dymuniad da i ti Sian a diolch.



**Ymddeoliad Sian**

**Penodiad Courtney**



Mae Courtney Jones yn Swyddog Democratiaeth a Dinesig, ac wedi cychwyn yn y rôl ers Mehefin 2025. Bydd Courtney yn cyflawni dyletswyddau dinesig i'r dyfodol.

Croesawyd Gwen Roberts fel Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth yn ystod cyfnod yr haf 2025. Mae Gwen bellach yn gyfrifol am gefnogi cyfarfodydd y Cabinet.



**Penodiad Gwen**

**Penodiad Sera**




Mae Sera Whitley hefyd wedi ymuno gyda'r tîm gan gymryd cyfrifoldeb am gefnogi pwyllgorau Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd.

Penodwyd Catrin Meirion Owen i rôl Swyddog Datblygu Aelodau yn y Tîm Dysgu a Datblygu ystod y flwyddyn. Dymunwn yn dda i Cara Williams yn ei rôl newydd.



**Penodiad Catrin**

**Cymorth i Grwpiau Gwleidyddol**



Bu i ni groesawu a ffarwelio â swyddog a fu'n cynorthwyo grwp Plaid Cymru yn ystod y flwyddyn. Edrychwn ymlaen i gael cefnogaeth lawn i'r grwpiau dros y flwyddyn i ddod.

Llongyfarchiadau i Lowri Elin Evans sydd wedi cymhwyso fel cyfieithydd gyda'r tîm cyfieithu. Efallai nad ydych yn ei gweld yn aml, ond mae nifer ohonoch yn ei chlywed yn cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd amrywiol. Llongyfarchiadau Lowri!



**Cymhwyso Lowri**

*Gwelir fod nifer o newidiadau wedi bod eto eleni, ac rwy'n dymuno llongyfarch y gwasanaeth ar barhau i gynnig gwasanaeth i'r safon uchaf tra'n anwytho staff newydd i'w rolau*

# CEFNOGAETH I AELODAU ETHOLEDIG



# LLWYDDIANNAU 2025/26

**Mae'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith yn eich gwasanaethu yn eich rôl fel Cynghorwyr trwy gydol y flwyddyn.**

**Mae gan y gwasanaeth ddau fesurydd perfformiad.**

**Cyhoeddi taflenni Penderfyniad o fewn 5 diwrnod gwaith.**

Mae gofyn cyfreithiol i'r gwasanaeth gyhoeddi taflenni penderfyniad ar gyfer pob cyfarfod pwyllgor, a hynny er mwyn cael datganiad clir o'r penderfyniad er tryloywder i'r cyhoedd. Cyhoeddwyd 98% o'r Taflenni Penderfyniad o fewn 5 diwrnod gwaith yn 2025/26, sy'n gynnydd ar y 94% yn 2024/25. Roedd y man lithriadau yn sgil y system ddim yn gweithio ac aros am sylwadau gan swyddogion penodol.

**Bodlonrwydd Aelodau gyda gwasanaeth y Tîm Democratiaeth.**

Nododd 88% o Gynghorwyr Gwynedd bod gwasanaeth gan y Tîm Democratiaeth yn dda iawn, gyda 12% yn nodi 'da'. Roedd hyn yn gynnydd o'r 97% nododd da iawn neu da yn 2024/25, a'r 91% yn 2023/24.

*Gweler isod lwyddiannau eraill sy'n rhan o waith dydd i ddydd y gwasanaeth:*

- Cynnal y rhaglen bwyllgorau ar gyfer y flwyddyn, dros 150 o gyfarfodydd i gyd, yn gyfarfodydd rhithiol ac aml-leoliad gan sicrhau gwe ddarlledu y cyfarfodydd perthnasol i gyd.

→ *Bu i dros 22 mil o bobl wylio'r gweddarllediadau dros y flwyddyn.*

- Cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn a dau gyfarfod arbennig o bwyllgorau craffu er mwyn sicrhau cyfle i'r holl aelodau roi mewnbwn i ymateb y Cyngor i'r Adroddiad Cyfiawnder drwy ein dewrder.

→ *Dros 14 awr o graffu'r cynllun yn ei gyfanrwydd cyn i'r Cabinet ei ystyried.*

- Darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn holl bwyllgorau'r Cyngor ac mewn cyfarfodydd anffurfiol, a chynnig gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig i holl adrannau'r Cyngor.

→ *Yn 2025/26, fe wnaeth y tîm gyfieithu 4.5miliwn gair mewn dogfennau. Yn ogystal, darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn 55 cyfarfod y mis ar gyfartaledd.*

- Cynnig cefnogaeth benodol i Gadeirydd ac is-Gadeirydd y Cyngor yn ogystal a Chadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau'r Cyngor trwy hyfforddiant penodol, ateb ymholiadau yn ystod pwyllgor a pharatoi taflenni briffio ar eu cyfer.

- Darperir cefnogaeth trwy'r Fforwm Craffu i'r Cadeiryddion Craffu, yn ogystal a'r gefnogaeth dydd i ddydd iddynt ar gyfer pob cyfarfod o'r pwyllgor.

→ Cynnal 4 cyfarfod o'r Fforwm Craffu dros y flwyddyn i roi cyfle i'r Cadeiryddion drafod datblygiadau ym maes craffu a chefnogi a herio ei gilydd.

- Croesawu dau Gynghorydd newydd yn ystod y flwyddyn, gan sicrhau fod darpariaeth TG a gwybodaeth gyfredol ar gael iddynt.

- Gweinyddu cyflogau a chostau Cynghorwyr a chyhoeddi'r wybodaeth yn unol a'r gofynion statudol.

- Cynnal rhaglen lawn o hyfforddiant i Gynghorwyr ac ymgynghori ar gynnwys y rhaglen hyfforddiant gyda'r Cynghorwyr.

→ Cynhaliwyd 17 sesiwn yn ystod y flwyddyn.

- Blaenoriaethu a chynnal sesiynau briffio ar bynciau pwysig i'r holl aelodau, gan eu recordio a'u gosod ar y mewnrwyd aelodau hefyd i gynorthwyo rhai sy'n gweithio.

→ Cynhaliwyd a recordiwyd 8 sesiwn friffio yn ystod y flwyddyn.

- Gweinyddu pwyllgorau rhanbarthol, yn arbennig Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd a'i is-fyrddau. Cyfrannu'n helaeth at waith datblygu Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd a'i is-fyrddau.

- Cynnal sesiynau hyfforddiant ar drefniadau democratiaeth y Cyngor ar gyfer aelodau o staff er mwyn sicrhau eu bod yn deall y trefniadau.

→ *Peilot wedi ei gynnal a chyfres o'r sesiynau wedi eu trefnu ar gyfer 2026/27.*



# CYFLAWNI AR FLAENORIAETHAU 2025/26

**Bu i mi nodi blaenoriaethau penodol ar gyfer 2025/26 yn ychwanegol i'r gwaith dydd i ddydd. Dyma diweddariad yn erbyn yr hyn y bu i mi ei addo.**

---

## Beth wnaethom ei addo?

**Cychwyn paratoi at Etholiad Mai 2027 gan edrych ar :**

- **Drefniadau cyn etholiad**
- **Trefniadau diwrnod yr etholiad**
- **Trefniadau croesawu ac anwytho**
- **Trefniadau y 6-12 mis cyntaf ac amlinelliad o drefniadau'r ail flwyddyn**
- **Cefnogaeth gyffredinol i Gynghorwyr**

## Diweddariad

Mae'r gwaith wedi cychwyn yn y cefndir i adnabod yr holl wahanol gamau sydd angen eu cyflawni fesul pob un o'r teitlau uchod.

Yn ogystal, penderfynwyd fod angen ymgynghori gydag aelodau felly mae grŵp bychan o gynghorwyr o bob plaid wedi gwirfoddoli i gymryd rhan mewn trafodaethau penodol fesul maes i rannu eu profiadau hwy. Mae'n cynnwys 4 aelod o bob grŵp gyda hanner wedi ymuno cyn 2022 a'r gweddill ar ôl 2022. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo a bydd cynnydd ar y gwaith yn cael ei adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor Gwasanaethau democratiaeth dros y misoedd nesaf.

**Beth wnaethom ei addo?**

**Byddwn yn adolygu y ddarpariaeth yn y siambrau o ran cyfarpar ac ansawdd y profiad. Byddwn yn anelu i ddatblygu astudiaeth dichonolrwydd a chynllun gwella yn ystod tymor yr Hydref, 2025.**

## Diweddariad

Rydym wedi asesu ein darpariaeth yn y siambrau o ran cynaliadwyedd y cyfarpar cyfredol, yn ogystal ac ansawdd y profiad i'r defnyddwyr (boed yn ddefnyddiwr y siambr neu'n ddefnyddiwr y system).

Daeth yn glir fod y ddarpariaeth gyfredol yn ein siambrau yn fregus iawn, ac yn golygu risg uchel i'r Cyngor o allu parhau i ddarparu cyfarfodydd aml-leoliad a chynnal trefniadau democratiaeth y Cyngor. Rydym wedi profi nifer o fethiannau yn gyson, ac wedi llwyddo er waethaf y system.

Mae nifer fawr o aelodau hefyd wedi rhannu eu rhwystredigaeth o'u profiad o gyfarfodydd aml-leoliad, ac mae'r swyddogion sy'n cynnal yr holl broses yn gorfod gweithio'n galed i ddatrys gwahanol broblemau fesul cyfarfod.

Cyflwynwyd bid am arian trwy'r trefniadau arferol, fodd bynnag, mae adroddiad manylach wedi ei gyflwyno bellach er mwyn bwrw ymlaen gyda mynd allan i'r farchnad i chwilio am ddarparwr priodol. Bydd bwrdd prosiect yn cael ei sefydlu i yrru'r gwaith ymlaen yn y ffordd orau posib.

## Beth wnaethom ei addo?

**Gwneud gwell defnydd o amser a chefnogaeth cynorthwywyr y grwpiau gwleidyddol. Rhesymoli'r rhaglen hyfforddiant a rhaglen briffio ar gyfer Cynghorwyr er mwyn gwneud y defnydd gorau o amser Cynghorwyr ac adnoddau'r Cyngor.**

## Diweddariad

Bu'n flwyddyn ansefydlog o ran cefnogaeth cynorthwywyr y grwpiau gwleidyddol gyda chyfnodau heb swyddogion yn y rolau. Mae fy niolch yn fawr i weddill y gwasanaeth am ymgymryd gyda rhai o'r tasgau sy'n cael eu cyflawni gan y swyddogion hyn dros y flwyddyn diwethaf. Gobeithio y bydd modd symud ymlaen gyda chyflawni mwy ar yr elfen yma yn ystod 2026/27 a 2027/28.

Mae camau sylweddol wedi eu cymryd i resymoli'r rhaglen hyfforddiant a'r rhaglen sesiynau briffio – gyda chanmoliaeth i'r sesiynau briffio byr ac i bwrpas.

## Beth wnaethom ei addo?

**Codi ymwybyddiaeth Cynghorwyr o'r angen i adrodd ar unrhyw ddigwyddiad neu fygythiad gan lenwi a dychwelyd y ffurflenni perthnasol (HS11).**

## Diweddariad

Yn anffodus mae diogelwch i Aelodau Etholedig yn parhau'n bwnc sydd angen sylw'n gyson. Mae cefnogaeth benodol gan swyddog dynodedig yn Heddlu Gogledd Cymru ac maent wedi cynnig nifer o sesiynau rhithiol i aelodau o ran ystyried eu diogelwch. Yn ogystal, mae'r swyddog wedi cynorthwyo a chynghori rhai aelodau unigol pan fo materion wedi codi.

Mae cefnogaeth wedi ei gynnig i nifer o aelodau unigol pan fo materion diogelwch neu lles wedi codi, gan gyfeirio at yr arweiniad sydd ar gael ar y mewnrwyd aelodau, a chynorthwyo eraill mewn modd ymarferol. Rydym yn ymwybodol fod nifer o Gynghorwyr yn wynebu bygythiadau yn eu cymunedau ac yn annog pawb i adrodd ar hyn.

Nid ydym wedi hyrwyddo llenwi'r ffurflenni HS11 sy'n casglu gwybodaeth am fygythiadau a digwyddiadau gan fod system electroneg wedi ei datblygu dros y flwyddyn a fu. Rydym wedi treialu'r trefniadau newydd gydag un aelod yn ddiweddar, a byddwn yn cynnal hyfforddiant ar y trefniadau adrodd i'r holl aelodau yn fuan yn 2026/27.

**Beth wnaethom ei addo?**

**Mabwysiadu 8fed maes o hyfforddiant craidd i Gynghorwyr, sef Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

## Diweddariad

Mae'r meysydd hyfforddiant craidd wedi eu hadnabod er mwyn arfogi Cynghorwyr i gyflawni yn eu rôl yn llwyddiannus ac yn ddiogel. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar y 3ydd o Orffennaf 2025 cafodd yr 8fed maes craidd ei fabwysiadu yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.

Ers hynny, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi bod yn cadw golwg ar nifer yr aelodau sydd wedi cyflawni pob maes o'r hyfforddiant craidd. Trafodwyd siom aelodau'r pwyllgor fod cynifer o aelodau heb gyflawni'r 8 maes hyfforddiant craidd, er bod modd i aelodau wneud hynny yn eu amser eu hunain ar lein bellach. Codwyd risg i'r Cyngor fod rhai yn parhau heb gyflawni meysydd allweddol ee y cod ymddygiad a diogelu.

Yn sgil cais aelodau'r Pwyllgor, mae'r Rheolwr Dysgu a Datblygu yn adolygu'r meysydd hyfforddiant ac yn datblygu Strategaeth Hyfforddi i Aelodau Etholedig ar gyfer 2027/28 ac ymlaen. Bydd y Strategaeth yn nodi'r disgwyliadau ar aelodau'n glir, gyda'r pwyslais ar alluogi Aelodau i gyflawni'n llwyddiannus a diogel yn eu rôl.

# BLAENORIAETHAU AR GYFER 2026/27

Rwy'n gyfforddus fod trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer cefnogi Aelodau Etholedig yng Ngwynedd, a byddwn yn parhau i adeiladu ar y seiliau cadarn hyn yn ystod y blynyddoedd i ddod. Mae'n amser i gychwyn edrych a meddwl am drefniadau Mai 2027 ac ymlaen, ac mae'r blaenoriaethau isod i gyd ynghlwm â chychwyn paratoi mewn da bryd:

**Paratoi at Etholiad Mai 2027**

Byddwn yn parhau gyda'r gwaith sydd eisoes wedi cychwyn yn edrych ar

- Drefniadau cyn etholiad
- Trefniadau diwrnod yr etholiad
- Trefniadau croesawu ac anwytho
- Trefniadau y 6-12 mis cyntaf ac amlinelliad o drefniadau'r ail flwyddyn
- Cefnogaeth gyffredinol i Gynghorwyr.

**Diweddaru'r adnoddau yn y siambrau**

Bydd y prosiect yn dilyn y trefniadau caffael angenrheidiol er mwyn diweddaru'r cyfarpar yn y siambrau er mwyn galluogi cyfieithu ar y pryd, mynediad o bell, pleidleisio a gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor o'r siambrau. Rydym am sicrhau fod y profiad i ddefnyddwyr y siambrau, i bobl Gwynedd sy'n gwylio'r gweddarllediadau ac i staff y Cyngor sy'n gyfrifol am ddefnyddio'r system am fod yn hawdd i'w ddefnyddio ac effeithiol. Bydd rhaid amserlenu'r gwaith yn ofalus, ac mae'n debygol y bydd peth effaith ar bwyllgorau wrth anelu i'r cyfan fod mewn lle i groesawu Cynghorwyr tymor 2027 ac ymlaen. Fodd bynnag, nid oes gennym unrhyw warant y byddwn yn gallu cwblhau o fewn yr amserlen hon.



# I GLOI

Mae'n debyg y bydd pob un ohonoch fel Aelodau Etholedig yn ystyried yr hyn yr ydych chi am ei wneud ar gyfer tymor 2027. Dymunaf ddiolch i bob un ohonoch am eich mewnbwn dros y blynyddoedd, a dymuniadau gorau i bawb sy'n sefyll yn yr etholiad nesaf neu'n penderfynu sefyll i lawr.



# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor Llawn |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 2 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL YR EITEM** | Datganiad Cyngor Gwynedd Ynghylch Hybu Amrywiaeth Mewn Democratiaeth |
| **PWRPAS** | Cyflwyno Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ynghyd â'r Rhaglen Waith. |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | Ian Jones – Pennaeth Democratiaeth |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Argymhellir i'r Cyngor Llawn fabwysiadu y Datganiad Amrywiaeth Mewn Democratiaeth ar ei newydd wedd ynghyd â'r rhaglen waith i gefnogi gweithredu ar y datganiad.

## 2. CEFNDIR A RHESYMEG

**Rhagair**

3. Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gefnogol i hybu amrywiaeth mewn democratiaeth, gyda nifer o gamau wedi eu cymryd dros y blynyddoedd i geisio annog mwy o bobl o amrywiol gefndiroedd i sefyll mewn etholiadau.

4. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar y 7fed o Hydref, 2021 bu i Gyngor Gwynedd fabwysiadu Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth – gan ddatgan yn glir a chyhoeddus ein ymrwymiad ni yma yng Ngwynedd.

5. Gydag etholiadau Llywodraeth Leol Cymru ar y gweill ym mis Mai 2027, mae'n amserol adolygu'r datganiad cyhoeddus fod Cyngor Gwynedd yn hybu a hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth. Er nad yw'n ofyn statudol rydym yn grediniol fod aelodau etholedig cyfredol Cyngor Gwynedd yn awyddus i sicrhau cynrychiolaeth deg o'r gymdeithas yng Ngwynedd i sefyll yn yr etholiadau ac felly'n annog unigolion o bob cefndir i wneud hynny.

6. Mae adolygiad o'r datganiad yn **atodiad 1.** Nid oes newid sylweddol yn y datganiad, namyn mân ddiweddaru er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol. Fodd

bynnag, mae’n bwysig ein bod yn ail ddatgan ein ymrwymiad i hybu amrywiaeth mewn democratiaeth cyn etholiad Llywodraeth Leol 2027.

7. Mae **atodiad 2** yn cynnwys rhaglen waith i sicrhau fod y Cyngor yn cymryd camau penodol i geisio hybu amrywiaeth mewn democratiaeth a gwireddu’r datganiad uchod.

8. Gofynnir felly i’r Cyngor Llawn fabwysiadu y Datganiad Amrywiaeth Mewn Democratiaeth (ar ei newydd wedd) ynghyd â’r rhaglen waith i gefnogi gweithredu ar y datganiad.

**9. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Cyflwynwyd y datganiad ar ffurf drafft i Bwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth y Cyngor ar 16/06/2026 a derbyniwyd sylwadau cefnogol i’r datganiad a’r rhaglen waith, gan argymell y datganiad i’r Cyngor llawn ei fabwysiadu.

**SYLWADAU’R SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**
Fel y nodir yn y cynllun gwaith bydd timau y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cyfrannu at a chefnogi y gwaith yma tuag at etholiad 2027.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd**

Mae'r Cyngor hwn yn ymrwymo i fod yn Gyngor Amrywiol. Trwy hynny, rydym yn awyddus i fod yn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi gan geisio cynyddu'r niferoedd o ferched, pobl ifanc, pobl anabl, pobl o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phobl sy'n adnabod fel LGTBQ+ sy'n sefyll etholiad i fod yn Gynghorydd Gwynedd.

Rydym yn ymrwymo i

- Ddarparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth mewn democratiaeth
- Ddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, a hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf
- Hybu gweithrediadau fel Cyngor Amrywiol cyn etholiadau lleol 2027.
- Ddangos ymrwymiad i ddyletswydd gofal dros Gynghorwyr
- Ystyried sut i ddarparu hyblygrwydd ym musnes y cyngor drwy adolygu ein trefniadau ymarferol
- Barhau i annog fod yr holl aelodau yn derbyn y lwfansau a'r cyflogau y mae ganddynt hawl eu derbyn, ac yn benodol unrhyw ad-daliadau am gostau gofal, fel bod yr holl aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth deg am eu gwaith ac nad yw rôl yr aelodau yn gyfyngedig i'r rhai all ei fforddio.
- Weithio tuag at sicrhau bod cynghorwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu cynrychioli pryd bynnag fo'n bosibl mewn rolau proffil uchel a dylanwad uchel.

**Gwynedd Council Diversity Statement**

*This Council commits to being a Diverse Council.  Therefore, we wish to reflect the community in which we live by increasing the number of females, young people, disabled people, people from the Black, Asian and minority ethnic communities and people who identify as LGBTQ+ who stand in the elections to be a Gwynedd Councillor.*

*We commit to*

- *Provide a clear public commitment to improving diversity in democracy*
- *Demonstrate an open and welcoming culture to all, promoting the highest standards of behaviour and conduct*
- *Promote actions as a Diverse Council ahead of the 2027 local elections*
- *Demonstrate a commitment to a duty of care for Councillors*
- *Consider how to provide flexibility in council business by reviewing our practical arrangements*
- *Continue to encourage all members to take up the allowances and salaries to which they are entitled, particularly any reimbursement for costs of care, so that all members receive fair remuneration for their work and that the role of member is not limited to those who can afford it.*
- *Work towards ensuring that councillors from under-represented groups are represented whenever possible in high profile, high influence roles.*

**ATODIAD 2 – RHAGLEN WAITH DDRAFFT**
**Wrth ymrwymo i fod yn Cyngor Amrywiol, rydym am:**

| Ymrwymiad | Beth ydym am ei wneud? | Amserlen |
|---|---|---|
| *Ddarparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth mewn democratiaeth* | Cyngor llawn yn mabwysiadu adolygiad o'r datganiad amrywiaeth.<br><br>Holi aelodau am eu profiadau, gan gynnwys pa rwystrau sydd wedi eu hwynebu a pha gamau ychwanegol y gellir eu cymryd i ddileu'r rhwystrau hyn.<br><br>Diweddaru safle we 'bod yn gynghorydd' gan weithio gyda'r tîm etholiadau.<br><br>Parhau i godi ymwybyddiaeth o rôl cynghorydd gan weithio gyda'r tîm etholiadau a'r tîm cyfathrebu i godi sylw at fuddion pleidleisio a chodi ymwybyddiaeth o etholiadau Llywodraeth Leol ar yr un pryd. Y cyfan yn annog unigolion i ystyried bod yn gynghorydd.<br><br>Parhau i weddarlledu cyfarfodydd er mwyn bod yn agored a thryloyw. Ystyried datblygu ffyrdd o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal a'r eitemau sy'n cael eu trafod. | 07/2026<br><br>Tachwedd/ Rhagfyr 2026<br><br>Medi / Hydref 2026<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus |
| *Dangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, a hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf* | Cyngor Llawn yn datgan cefnogaeth i ymgyrch Un Llais Cymru, NALC a SLCC 'Adduned Parch a Chwrteisi' yn sgil rhybudd o gynnig Arweinydd y Cyngor.<br><br>Codi ymwybyddiaeth arweinyddion y grwpiau gwleidyddol cyfredol i'r posibiliadau o hybu amrywiaeth mewn democratiaeth a'r gofynion ynghylch hyrwyddo'r safonau ymddygiad o'r lefel uchaf yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021,<br><br>Datblygu rhaglen anwytho gynhwysfawr yn seiliedig ar fframwaith anwytho Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnwys hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad (gan gynnwys parch at eraill), a Chydraddoldeb ac amrywiaeth (gan gynnwys hunan ymwybyddiaeth ac ymddygiad).<br><br>Datblygu Strategaeth Hyfforddi i Aelodau a fydd yn amlinellu trefniadau penodol i Aelodau er mwyn cynnig datblygiad parhaus. | Mehefin 2026<br><br>Hydref 2026<br><br>Ebrill 2027<br><br>Ebrill 2027 |
| *Hybu gweithrediadau fel Cyngor Amrywiol cyn etholiadau lleol 2027* | Cynnal rhaglen barhaus o weithgareddau ar lein er mwyn hyrwyddo rôl Cynghorwyr a chodi ymwybyddiaeth i etholiadau Llywodraeth Leol gan annog unigolion i ystyried sefyll<br><br>Cynnig sesiwn cwestiwn ac ateb ar gyfer pobl sy'n ystyried sefyll. Bydd yn cynnwys esboniad o rôl cynghorydd, disgwyliadau, ymrwymiad, cyfleon, cefnogaeth ayyb. Bydd fideos o wahanol gynghorwyr yn rhannu eu profiadau yn debygol o fod yn rhan o'r gweithgaredd. | Hydref 2026 – Etholiad<br><br>Ionawr / Chwefror 2027 |

| Ymrwymiad | Beth ydym am ei wneud? | Amserlen |
|---|---|---|
| *Ddangos ymrwymiad i ddyletswydd gofal dros Gynghorwyr* | Ystyried cynnal hyfforddiant penodol i Gynghorwyr newydd ar weithio'n unig, diogelwch personol, balans bywyd a gwaith, bwlio a'r cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'r rhaglen anwytho dros y flwyddyn gyntaf.<br><br>Darparu cefnogaeth ac arweiniad ar faterion ymarferol o safbwynt gosod gweithfan yn gywir – gwybodaeth ar safle mewnrwyd y cynghorwyr.<br><br>Rhoi'r cynnig rhagweithiol i Gynghorwyr i'w holi a ydynt yn dymuno cyhoeddi eu cyfeiriad cartref ac/neu rif ffôn ar y wefan, neu beidio – gan gyhoeddi cyfeiriad e-bost swyddogol yn unig os mai dyna dymuniad Aelod unigol.<br><br>Codi ymwybyddiaeth arweinyddion gwleidyddol o'r dyletswydd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ynghylch hyrwyddo ymddygiad da. | Ebrill 2027<br><br>Rŵan / parhaus<br><br>Rŵan / parhaus<br><br>Tachwedd 2026 |
| *Ystyried sut i ddarparu hyblygrwydd ym musnes y cyngor drwy adolygu ein trefniadau ymarferol* | Gweithredu cyfarfodydd hybrid a chyfarfodydd rhithiol llwyr er mwyn gwneud gwell defnydd o amser Cynghorwyr.<br><br>Cynnal holiadur yn dilyn etholiad 2027 ar amseru cyfarfodydd prif bwyllgorau'r Cyngor.<br><br>Ystyried cyfnodau gwyliau ysgol (gan eu hosgoi lle bo'r modd) wrth lunio calendr cyfarfodydd blynyddol y cyngor gan ymgynghori gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth cyn cyflwyno i'r Cyngor llawn ei fabwysiadu.<br><br>Sicrhau hyfforddiant a chymorth i Gynghorwyr i fod a'r sgiliau technegol i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol ac/neu hybrid. | Rŵan / parhaus<br><br>2027/28<br><br>Blynyddol<br><br>parhaus |
| *Parhau i annog fod yr holl aelodau yn derbyn y lwfansau a'r cyflogau y mae ganddynt hawl eu derbyn, ac yn benodol unrhyw ad-daliadau am gostau gofal, fel bod yr holl aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth deg am eu gwaith ac nad yw rôl yr aelodau yn gyfyngedig i'r rhai all ei fforddio* | Gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol i fod yn rhan o'r sesiynau i'r cyhoeddus, yn wybodaeth ar ein safle we, a gwybodaeth a fydd yn cael ei gyflwyno i'r aelodau yn y sesiynau anwytho.<br><br>Cyflogau yn cael eu talu yn awtomatig i Gynghorwyr yn unol â dyfarniad Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru , oni bai fod Cynghorydd unigol yn nodi yn wahanol.<br><br>Atgoffa Cynghorwyr yn gyson o'r ad-daliad costau gofal sydd ar gael – trwy'r Bwletin Aelodau a gan yr Arweinyddion Grwpiau gwleidyddol. | Hydref 2026 ymlaen<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus |
| *Gweithio tuag at sicrhau bod cynghorwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu cynrychioli pryd bynnag fo'n bosibl mewn rolau proffil uchel a dylanwad uchel* | Gweithio gydag arweinyddion y grwpiau gwleidyddol i sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei roi i grwpiau a dangynrychiolir ar gyfer rolau proffil a dylanwad uchel. | 2027/28 |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyngor Llawn |
| **DYDDIAD** | 2 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL** | **Polisi Adrodd Cyfrinachol ( “Canu’r Gloch” ) Aelodau** |
| **AWDURON** | Catrin Thomas - Cyfarwyddwr Corfforaethol<br>Iwan Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Llio Owen Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfreithiol a’r Gymraeg |
| **Pwrpas:** | I argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Polisi Adrodd Cyfrinachol ( “Canu’r Gloch” ) Aelodau i'w osod yn y Cyfansoddiad |

## 1. Argymhelliad

**Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Polisi Adrodd Cyfrinachol ( “Canu’r Gloch” ) Aelodau i'w osod yn y Cyfansoddiad**

## 2. Cefndir

2.1 Ar yr 20fed o Ionawr 2026 bu i’r Cabinet fabwysiadu Polisi Canu’r Gloch newydd ar gyfer staff. Adroddwyd ar y Polisi drwy addasiad Cyfansoddiad i’r Cyngor Llawn ar 5ed o Fawrth 2026. Mae’r polisi hwnnw yn benodol ar gyfer staff cyflogedig y Cyngor ac eraill mewn sefyllfa gyflogaeth/gwirfoddoli ac yn deillio o’r *Public Interest Disclosure Act 1998* ac felly nid yw’n berthnasol ar gyfer Aelodau Etholedig.

2.2 Felly, cydnabuwyd ar y pryd fod angen ystyried polisi fyddai yn galluogi i Aelodau Etholedig hefyd gyflwyno yn gyfrinachol pryderon o’r un natur a’r hyn a gynhwysir mewn Polisi Canu’r Gloch arferol h.y. materion allai fod yn droseddol, yn gamymarfer sylweddol neu’n ymddygiad amhriodol difrifol, boed hynny gan Aelod neu swyddog. Fodd bynnag rhaid hefyd amlygu fod y drefn Canu’r Gloch ar gyfer staff yn seiliedig ar ddeddfwriaeth cyflogaeth. Mae’n creu fframwaith o hawliau, gwarchodaeth a chanlyniadau cyfreithiol nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y gyd berthynas rhwng aelodau etholedig a’r Cyngor.

2.3 Wrth lunio Polisi o’r math yma mae’n rhaid cydnabod fod aelodau yn dod i gyswllt a’r Cyngor am sawl rheswm. Gall hyn fod er mwyn codi pryder ar ran etholwyr, cwyno am drefniadau Adran neu wasanaeth neu ddatgan anfodlonrwydd am ansawdd gwaith tîm penodol . Mae hyn yn ran o waith beunyddiol y Cyngor ac ymdrinnir a hwy dan ystod o drefniadau a Protocolau. Mae’r rhain yn faterion na fyddai yn rhan arferol o ymwneud staff a’i cyflogwr neu gontractwyr. Ymdrinnir a hwy drwy drefniadau arferol y Cyngor. Nid dyna sydd dan sylw yma ond codi materion sydd o bryder fwy dwys a difrifol.

2.4 Mae angen hefyd amlinellu yr hyn sydd yn y Côd Ymddygiad Aelodau a’r gofynion sydd ar aelodau i adrodd ar faterion penodol. Felly, mae’n ofyn dan y Côd i aelodau adrodd i’r

Swyddog Monitro os ydynt o'r farn fod aelod wedi torri y Côd Ymddygiad. Nid yw hyn yn ddewisol a gall fod gofyn i aelod gyfeirio y mater i'r Ombwdsman. Yn ogystal mae darpariaeth bellach o fewn y Côd Ymddygiad sydd yn gosod gofyn cyfreithiol ar aelodau sydd yn canfod ymddygiad troseddol yng ngwaith y Cyngor adrodd i unai y Cyngor drwy drefn adrodd cyfrinachol neu'r asiantaeth gorfodi berthnasol. Pwysleisir hefyd fod ymddygiad troseddol sydd o fewn cwmpawd hyn yn gallu cynnwys ystod o faterion all fod yn droseddol. Er enghraifft, troseddau anonestrwydd, iechyd a diogelwch a materion megis ymosodiadau. Eithrir materion Diogelu oherwydd fod cyfundrefn benodol ar gyfer adrodd ar faterion o'r fath fyddai yn cyfarch y dyletswydd dan y Côd. Fodd bynnag, tu hwnt i hyn mae achosion lle mae yn briodol i Aelodau dderbyn sicrwydd o gyfrinachedd wrth amlygu camymddwyn difrifol penodol.

2.5 Mae mabwysiadu'r polisi hwn yn gam hollbwysig i gryfhau diwylliant o dryloywder ac atebolrwydd, ac mae wedi'i nodi'n gyson fel blaenoriaeth uchel yn dilyn cyhoeddi yr Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant: Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder. Mae cefnogaeth gan y Bwrdd Ymateb hefyd i'w fabwysiadu, gan adlewyrchu consensws cryf ar draws y sefydliad ynghylch a'i bwrpas a'i werth.

**3. Trefniadau eraill ar gyfer gwahanol fathau o bryderon**

2.1 Yn ogystal â'r Polisi a Gweithdrefn Datgelu Pryderon (Canu'r Gloch) hwn, mae nifer o lwybrau clir eraill yn bodoli eisoes gan y Cyngor ar gyfer adrodd pryderon o wahanol fathau (e.e. diogelu, twyll, neu faterion Côd Ymddygiad Aelodau a Swyddogion). Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau mae'n hanfodol gallu gwarchod cyfrinachedd y sawl sy'n gwneud yr honiad, yn enwedig er mwyn creu yr hyder i godi pryderon, a sicrhau bod gwybodaeth sensitif yn cael ei drin yn briodol.

3.2 Er mwyn cefnogi Aelodau ac i sicrhau cysondeb, mae Atodiad 2 yn rhoi trosolwg defnyddiol o'r gwahanol lwybrau ar gyfer ymholiadau, cwynion neu ddatgelu pryderon. Mae'r trosolwg cryno hwn yn ymgais i grisialu'r gwahanol lwybrau mewn un lle defnyddiol i Aelodau a bydd yn cael ei gynnwys yn y Llawlyfr Aelodau yn y dyfodol. Bydd hefyd yn sail i hyfforddiant anwytho Aelodau newydd yn dilyn Etholiad Llywodraeth Leol 2027.

3.3 Gweler isod hefyd linc i ddogfen lawn pob un o'r prosesau a amlygir ar y trosolwg yn Atodiad 2:

| **Math o 'Bryder / Ymholiad'** | **Dogfen berthnasol:** |
|---|---|
| Datgelu Ymddygiad / Pryderon Difrifol | Y Cyfansoddiad<br><br>(i'w adolygu ar ôl cyfarfod y Cyngor 02/07/2026) |
| Diogelu | Polisi-Diogelu-Ionawr-2025-Cymraeg.pdf |

| | |
|---|---|
| Cwyn am ymddygiad Aelod arall | Adran-18---Cod-ymddygiad-aelodau.pdf |
| Twyll | Strategaeth Gwrth-dwyll: Atodiad 1 - Strategaeth.pdf |
| Cwyn am Swyddog / Prif Swyddog | Protocol ar gysylltiadau Aelodau / Swyddogion Adran-21---Protocol-ar-gyfer-cysylltiadau-aelodau-a-swyddogion.pdf |
| Cwyn am Wasanaeth ar ran etholwyr | Polisi Cwynion: Polisi Pryderon a Chwynion Cyngor Gwynedd |
| Cais am wasanaeth ar ran etholwyr | Protocol ar gysylltiadau Aelodau / Swyddogion Adran-21---Protocol-ar-gyfer-cysylltiadau-aelodau-a-swyddogion.pdf |
| Ymholiad cyffredinol / cais am wybodaeth am wasanaethau'r cyngor | Galw Gwynedd neu gysylltu yn uniongyrchol â'r gwasanaeth neu wybodaeth ar y wefan<br><br>Adran-21---Protocol-ar-gyfer-cysylltiadau-aelodau-a-swyddogion.pdf |

**4,. Ymgysylltu**

4.1 Wrth lunio'r polisi, cafwyd trafodaethau a mewnbwn gan y Grŵp Tasg Ymholiadau Aelodau oedd eisoes wedi trafod y drefn hon wrth edrych ar gyswllt cyffredinol Aelodau a Swyddogion. Ymgysylltwyd hefyd gyda'r holl Aelodau a cafwyd un ymateb yn unig oedd yn nodi ei fod "eglur a hunan esboniadwy".

4.2 Yn ogystal, ymgynghorwyd hefyd gyda Sefydliad *Protect* sydd yn gorff elusennol sydd yn arbenigo mewn materion canu'r gloch dan y Deddf i adnabod cyfleon i fanteisio ar eu cefnogaeth. Derbyniwyd adborth cadarnhaol o'r Polisi ar y cyfan ond gyda awgrymiadau ar gyfer addasu a chryfhau ambell agwedd. Mae'r newidiadau yma wedi eu nodi ac wedi eu tanlinellu yn yr atodiad. Yr unig agwedd ble ystyriwyd nad oedd cyfiawnhad addasu oedd o amgylch darparu y rhestr o ffynhonnell posib ymddygiadau fyddai yn berthnasol i'r Polisi. Mae'r rhestr yma wedi ei chynnwys yn rhannol oherwydd gofynion penodol y Côd Ymddygiad ac hefyd i roi cyd destun. Fodd bynnag mabwysiadwyd yr awgrym i ymestyn y rhestr i gynnwys ymddygiadau gan y cyhoedd a busnesau fel tarddiad pryderon yn y drafft, para 5.3. Yn ogystal mae'r geiriad wedi ei ddiwygio i ddarparu gwell eglurdeb ynglŷn a amcan y rhestr.

**Pwyllgor Safonau**

Ceisiwyd barn  Pwyllgor Safonau ar yr 8fed o Fehefin ble datganwyd eu cefnogaeth i'r Polisi .

**Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi**

Ystyriwyd y  Polisi gan y Pwyllgor ar y 18fed o Fehefin 2026 ble nodwyd:

"PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn datgan cefnogaeth i'r polisi gan ofyn i'r Swyddog Monitro wneud newidiadau yn unol â'i ymateb i sylwadau'r aelodau.."

Gofynnodd y Pwyllgor yn benodol i egluro'r cyfeiriad at drefniadau diogelu yn Rhan 3.1  yn yr ystyr ei fod yn ymwneud â chyfeirio pryderon am unigolion nid materion polisi ehangach. Yn ogystal, gofynnwyd am addasiadau i dynnu sylw  nad oedd y Polisi yn atal Aelodau rhag adrodd am fater yn allanol yn uniongyrchol . Mae'r newidiadau hyn wedi'u hymgorffori.

**Sylwadau Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Cyd Awdur

**Prif Swyddog Cyllid**

"Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir; nid oes oblygiadau ariannol uniongyrchol.

**Gwybodaeth Cefndir**

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi 19 Ionawr 2026 Rhaglen ar gyfer Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar Dydd Llun, 19eg Ionawr, 2026, 10.30 y.b.

Cabinet 20 Ionawr 2026 Rhaglen ar gyfer Y Cabinet ar Dydd Mawrth, 20fed Ionawr, 2026, 1.00 y.h.

Cyngor Llawn 5 Chwefror 2026 Rhaglen ar gyfer Y Cyngor ar Dydd Iau, 5ed Chwefror, 2026, 1.30 y.h.

Pwyllgor Safonau 8 Mehefin 2026 Rhaglen ar gyfer Pwyllgor Safonau ar Dydd Llun, 8fed Mehefin, 2026, 10.30 y.b.

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi Rhaglen ar gyfer Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar Dydd Iau, 18fed Mehefin, 2026, 10.30 y.b.

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Polisi Adrodd Cyfrinachol (Canu'r Gloch) Aelodau (drafft)

Atodiad 2 – Trosolwg Llwybrau Adrodd ar bryderon i Aelodau

# Polisi Adrodd Cyfrinachol ( "Canu'r Gloch" ) Aelodau

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae Cyngor Gwynedd fel sefydliad, yr Aelodau a'r Swyddogion sy'n gwasanaethu'r Cyngor, wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o onestrwydd, priodoldeb ac atebolrwydd ym mhob agwedd o swyddogaethau y Cyngor.

1.2 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad Aelodau a Chod Ymddygiad Staff ac wedi ymrwymo i gynnal yr ymddygiadau hyn ym mhob agwedd o'i waith. (Yn y ddogfen hon mae cyfeiriad at "Aelod" neu "Aelodau" yn golygu unrhyw un sydd ymrwymedig I'r Cod Ymddygiad Aelodau neu unigolion eraill sydd wedi eu cyfethol gan y Cyngor i unrhyw bwyllgor neu gorff arall )

1.3 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Polisi Canu'r Gloch i staff yn unol â darpariaeth y Public Interest Disclosures Act 1998.

1.4 Mae'r ddogfen hon yn adeiladu ar hynny gyda gweithdrefn adrodd gyfrinachol y Cyngor er mwyn rhoi llwybr clir i Aelodau allu adrodd ar faterion allai fod yn droseddol, yn gamymarfer sylweddol neu'n ymddygiad amhriodol difrifol. <u>Mae wedi ei gynllunio i ddarparu arweiniad eglur i unrhyw aelod all fod a pryderon . Mae Chwythu'r Chwiban yn cynorthwyo i amddiffyn gwasanaethau ac rydym am glywed am unrhyw bryderon sydd gennych fel bod modd gweithredu i'w datrys</u>

1.5 Mae pharagraff 18.3.6 (B) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau yn nodi fod rhaid iddynt:-

> " adrodd pa un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, am unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi gredu ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw, at ddibenion y paragraff hwn, yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellid eu cosbi trwy gosb benodedig)."

1.6 Pwrpas y weithdrefn hon yw darparu'r weithdrefn adrodd gyfrinachol y cyfeirir ato uchod a rhoi eglurder i Aelodau ar y broses ar gyfer codi pryderon o'r fath o fewn y Cyngor.

## 2 Cwmpas y weithdrefn hon

2.1 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i bob Aelod

2.2 "Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i bryderon yn ymwneud ag ymddygiad (rhestr ddim yn gynhwysfawr):-

(i) Staff Cyngor;

(ii) Staff y Cyngor;
(iii) Gweithwyr asiantaeth, ymgynghorwyr a chontractwyr sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor;
(iv) Gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan yn y broses o ddarparu gwasanaethau gan y Cyngor.
(v) Aelodau o'r cyhoedd a busnesau yn eu cysywllt a'r Cyngor.

2.3 Mae gan y Cyngor sawl proses llwybr arall sy'n galluogi i Aelodau gyflwyno pryderon dydd i ddydd am berfformiad, polisi, penderfyniadau ayb ac nid pwrpas y Weithdrefn hon yw disodli y prosesau hyn. Er mwyn osgoi unrhyw amryfusedd mae'r Weithdrefn benodol hon yn berthnasol ar gyfer:

(i) Materion allai fod o natur troseddol
(ii) Camymarfer sylweddol
(iii) Ymddygiadau amhriodol difrifol
(iv) Ymddygiadau anghyfreithlon

**3 Materion nad yw'r Weithdrefn hon yn gymwys iddynt**

Ni fydd y weithdrefn hon yn gyffredinol yn berthnasol yn yr achosion canlynol gan eu bod neu wedi u hymchwilio neu fod cyfundrefnau eraill ar gyfer codi pryderon a dylid dilyn y trefniadau yma:-

(i)Materion sy'n destun ymchwiliad cyfredol neu gaeedig ; (naill ai'n fewnol neu'n allanol);
(ii)Cwynion sy'n deillio o dorri'r Protocol ar Gysylltiadau Aelod/Swyddogion;
(iii) Honiadau fod aelod wedi tramgwyddo Cod Ymddygiad Aelodau.
(iii)Pryderon am ddiogelwch a / neu les person (plentyn neu oedolyn) y dylid eu **hadrodd I'r drefn cyfeirio** yn unol a'r Polisi Diogelu Corfforaethol ;

**4 Cyfrinachedd**

4.1 Mae adroddiadau neu atgyfeiriadau a wneir o dan y weithdrefn hon yn cael eu trin gan y Cyngor fel rhai a wneir yn gyfrinachol ac yn gyffredinol ni fyddant yn cael eu gwneud yn gyhoeddus (nac yn cael eu cyfathrebu i Aelodau neu swyddogion eraill) oni bai: ei fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith, yn ofynnol oherwydd gweithdrefnau ymdrin ac ymchwilio honiadau neu, mewn amgylchiadau lle mae hyn yn angenrheidiol, megis darparu tystiolaeth neu wneud cwyn i'r awdurdod ymchwilio priodol. Trafodir hyn gyda'r Aelod ar bob achlysur,

4.2 Bydd disgwyl i Aelod sy'n gwneud adroddiad o dan y weithdrefn hon gadw ei adroddiad yn gyfrinachol a bydd yn sicrhau nad yw unrhyw ymchwiliad yn cael ei rwystro gan ddatgelu'r adroddiad neu'r gŵyn y maent wedi'i wneud.

## 5 Adrodd Pryderon

5.1 Dylid rhoi gwybod am weithgarwch y mae'r weithdrefn hon yn berthnasol iddo i Swyddog Monitro'r Cyngor a fydd yn penderfynu sut i fynd â'r mater ymhellach ac yn dod i gasgliad os yw'r mater dan sylw yn briodol ar gyfer y weithdrefn hon neu ar gyfer proses neu weithdrefn gydnabyddedig arall.

5.2 Os yw'r pryder yn ymwneud a thwyll neu lygredd yna bydd y Swyddog Monitro yn cyfeirio y mater i'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn y lle cyntaf

5.3 Gellir gwneud adroddiadau ar lafar neu'n ysgrifenedig. Rhaid marcio adroddiadau ysgrifenedig yn glir yn GYFRINACHOL. Gellir defnyddio e-bost y Cyngor neu e-bost bersonol i godi pryder.

5.4 Petai gwrthdrawiad buddiannau gan y Swyddog Monitro dylid cyfeirio y mater at y Prif Weithredwr

5.5 Os oes gwrthdrawiad buddiannau gan y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro, yna dylid cyfeirio'r mater at y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol.

5.6 Mewn achos eithriadol lle bod buddiant gan y Swyddog Monitro, y Prif Weithredwr a'r Pennaeth gwasanaethau Corfforaethol, gellir cyfeirio'r mater i sylw Swyddfa Archwilio Cymru yn y lle cyntaf.

5.7 Yn ddibynnol ar amgylchiadau'r achos dan sylw, bydd modd i'r Swyddog Monitro (neu yn achos 5.4,5.5 a 5.6 y swyddog perthnasol) drefnu i ymchwiliad ddigwydd yn fewnol neu gyfeirio y mater i gorff neu ymchwilydd annibynnol yn ôl y gofynion priodoldeb arferol. Gall hefyd gynghori Aelod mewn achosion perthnasol i gyfeirio y mater yn allanol e.e. i sylw yr Heddlu neu yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus.

5.8 Cydnabyddir y gall codi pryderon ynghylch camymddwyn difrifol fod yn gam anodd i Aelodau, a bydd unrhyw un sy'n defnyddio'r polisi hwn fod â mynediad at gymorth a chyngor annibynnol drwy wasanaethau Medra a Protect, cyn, yn ystod, neu ar ôl gwneud datgeliad.

**5.9 Er yr anogir Aelodau i godi pryderon drwy drefniadau'r Cyngor nid yw y Polisi yma yn rhwystro gallu Aelodau i adrodd yn uniongyrchol at unrhyw gorff neu reoleiddiwr allanol sydd a chyfrifoldeb am ymchwilio testun y pryder.**

## 6 Camau gweithredu yn dilyn derbyn adroddiad gan aelod

6.1 Unwaith y bydd y Swyddog Monitro neu swyddog arall wedi derbyn adroddiad gan Aelod o dan y weithdrefn hon, bydd yn ystyried y mater ac yn penderfynu pa gamau pellach sydd eu hangen, os o gwbl. Gall hyn gynnwys ymchwiliad gan swyddog priodol fel Tîm Archwilio'r Cyngor neu Dîm Iechyd a Diogelwch. Byddent yn cydnabod derbyn ac yn gwneud cyswllt

cychwynnol gyda'r Aelod dim hwyrach na 7 diwrnod gwaith o ddyddiad y cyfeiriad.

6.2 Fel arall, bydd y Swyddog Monitro yn dod i benderfyniad os yw'r mater yn gofyn am gyfeiriad Heddlu neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu gorff arall, rheoleiddiwr neu asiantaeth gorfodi. Gall drefnu cyfeiriad ffurfiol neu gyfarwyddo'r aelod i gyfeirio'r mater.

6.3 Ble yn briodol bydd y Swyddog Monitro yn rhoi gwybod i'r Aelod sy'n adrodd am ganlyniad unrhyw ymchwiliad. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl ym mhob achos. Yn dibynnu ar natur y mater sy'n achosi'r pryder, efallai y bydd angen i unrhyw fanylion pellach o'r ymchwiliad aros yn gyfrinachol ac felly bydd yn cael ei atal rhag roi gwybod i'r Aelod sy'n adrodd . Neu gall fod yn nwylo corff gorfodi neu reoleiddiwr allanol . Esbonnir hyn i'r Aelod hyd y gellir yn briodol gwneud.

## 7. Erledigaeth

7.1 Petai unrhyw Aelod yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn wael gan aelod o staff oherwydd gwneud datgeliad, rhowch wybod i'r Swyddog Monitro neu unrhyw un arall o'r swyddogion rhestredig. Gall hyn gynnwys triniaeth negyddol fel sylwadau negyddol, anwybyddu neu ddileu gwaith, a gwrthod cydweithredu ag Aelod oherwydd eu bod wedi codi pryder. Nid yw ymddygiad o'r fath yn dderbyniol ac er nad yw'r amddiffyniadau statudol yn berthnasol i Aelodau, mae'n bwysig bod ymddygiad o'r fath yn cael ei ddwyn i'r amlwg a'i datrys.

## Cysylltiadau

| Swyddogaeth | Enw | e-bost | Ffôn |
|---|---|---|---|
| Swyddog Monitro | Iwan Evans | iwangdevans@gwynedd.llyw.cymru | 07435741322 |
| Prif Weithredwr | Dafydd Gibbard | dafyddgibbard@gwynedd.llyw.cymru | 01286 632001 |
| Pennaeth Gwasnaethau Corfforaethol | Ian Jones | ianjones@gwynedd.llyw.cymru | 07795823944 |
| Rheolwr Archwiio | Luned Fon Jones | lunedfonjones@gwynedd.llyw.cymru | 01286 634687 |

**Archwilio Cymru**

Chwythu'r chwiban | Audit Wales

***Gwasanaeth Cwnsela Medra***

Edrych ar ôl lles fy hun / Looking after my wellbeing

**Protect** – *"Speak Up to Stop Harm "*

*"Mae Protect yn rhedeg llinell gyngor cyfreithiol am ddim, cyfrinachol i'r rhai sydd â phryderon chwythu'r chwiban."*

Protect | Speak Up, Stop Harm

**Atodiad 2: Trosolwg Llwybrau Ymholi ac Adrodd  i Aelodau**

| **Math o 'Bryder / Ymholiad'** | **e.e.** | **Trefn adrodd** |
|---|---|---|
| Datgelu Ymddygiad / Pryderon Difrifol neu Droseddol | Datgeliad ymddygiad troseddol yn unol a'r gofyn yn y Còd Ymddygiad; fyddai yn cynnwys llygredd, twyll a troseddau megis  iechyd a diogelwch | Trefn newydd i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 2 Gorffennaf 2026<br>Y Cyfansoddiad<br>(i'w adolygu ar ôl cyfarfod y Cyngor 02/07/2026)<br>Yn unol â'r Polisi Canu'r Gloch Aelodau (NEWYDD)<br>Adrodd i sylw y Swyddog Monitro neu yn unol a rhan 5.4-5.7 o'r Weithdrefn |
| Diogelu | Camdriniaeth corfforol, rhywiol, seicolegol, teimladol neu ariannol<br>Esgeuluso corfforol, rhywiol, seicolegol, teimladol neu ariannol | Yn unol â'r Polisi-Diogelu-Ionawr-2025-Cymraeg.pdf<br>Sef<br>Cysylltu â'r Heddlu (999) os oes plentyn neu oedolyn mewn perygl<br>Gysylltu gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd<br>Polisi-Diogelu-Ionawr-2025-Cymraeg.pdf |
| Cwyn am ymddygiad  Aelod arall | Dwyn anfri ar y swydd a'r awdurdod, amharch, defnyddio swydd yn amhriodol, camddefnyddio adnoddau'r Awdurdod, torri cyfrinachedd, peidio tynnu sylw at achos o dorri'r côd. | Yn unol ag :<br>Adran-18---Cod-ymddygiad-aelodau.pdf<br>Adrodd i sylw y Swyddog Monitro |
| Twyll | Cynrychiolaeth ffug; methu datgelu gwybodaeth yn fwriadol neu dwyll dry gamddefnyddio swydd | Yn unol â'r Cod Ymddygiad a'r Strategaeth Gwrth-dwyll: Atodiad 1 - Strategaeth.pdf<br>Adrodd i sylw y  Rheolwr Archwilio |

| | | |
|---|---|---|
| Cwyn am Swyddog / Prif Swyddog | Bod yn amharchus at aelod, anwybyddu gohebiaeth, torri cyfrinachedd neu weithredu yn groes i'r Protocol Aelodau a Swyddogion | Yn unol ag Adran-21---Protocol-ar-gyfer-cysylltiadau-aelodau-a-swyddogion.pdf<br>Adrodd i reolwr llinell y swyddog; trefniadau uchafu i'r Pennaeth Adran / Cyfarwyddwr os nad yw'n cael ei ddatrys. |
| Cwyn am y Prif Weithredwr / Swyddog Monitro | Ymddygiad sydd yn groes i'r Protocol Aelodau a Swyddogion, neu'n dorri o'r Cod Ymddygiad i Swyddogion. | Yn unol ag Adran-21---Protocol-ar-gyfer-cysylltiadau-aelodau-a-swyddogion.pdf |
| Cwyn am Wasanaeth ar ran etholwyr | Casgliadau gwastraff yn cael eu methu yn rheolaidd mewn ardal, oedi mewn | Yn unol â'r Polisi Pryderon a Chwynion Cyngor Gwynedd<br>Datrysiad Anffurfiol drwy adrodd i'r Rheolwr / Pennaeth Adran Perthnasol<br>Cyflwyno Cwyn Ffurfiol drwy'r pwynt cyswllt cwynion canolog – Galw Gwynedd, gwefan neu ebost cwynion. |
| Cais am wasanaeth ar ran etholwyr | Cais am fin newydd, cais am newid lamp stryd, adrodd ar dwll mewn lôn | Cais drwy unrhyw gyfrwng sy'n ddewisol i'r aelod ee E-bostio / ffonio'r gwasanaeth yn uniongyrchol, drwy Galw Gwynedd; drwy'r wefan gyhoeddus ; drwy Hunanwasanaeth aelodau. |
| Ymholiad cyffredinol / cais am wybodaeth am wasanaethau'r cyngor | Holi ar pa ddiwrnod mae'r bin yn cael ei gasglu, cyngor ar gais cynllunio, ceisiadau treth Cyngor | Cysylltu drwy Galw Gwynedd neu gysylltu yn uniongyrchol â'r gwasanaeth neu wybodaeth ar y wefan |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **2il Gorffennaf 2026** |
| **TEITL:** | **Newidiadau I'r Cyfansoddiad Adran 22 – Polisi Canu'r Gloch - Staff** |
| **AWDUR** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |

**1. ARGYMHELLIAD**

**Derbyn yr wybodaeth am y diwygiadau i Adran 22 o'r Cyfansoddiad a nodir yn Atodiad 1**

**2. Cefndir:**

2.1 Yn unol a'r paragraff 2.6.3 y Cyfansoddiad mae gennyf hawl i ymgorffori newidiadau deddfwriaethol yn y Cyfansoddiad.

**" 2.6.3 Newid Deddfwriaethol**

Caiff y Swyddog Monitro ddiwygio unrhyw ran o'r Cyfansoddiad lle y mae diwygiad o'r fath yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol. Bydd diwygiadau o'r fath yn dod i rym pan fydd y Swyddog Monitro yn penderfynu felly neu pan fydd y ddeddfwriaeth (lle y bo'n berthnasol) yn darparu ar gyfer hynny. Bydd newidiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn er gwybodaeth."

2.2 Ar y 6ed o Ebrill eleni daeth Adran 23 o Deddf Hawliau Cyflogaeth 2025 i rym . Yn ôl yr adran ychwanegwyd at yr ymddygiadau all gael eu cynnwys o fewn y diffiniad o ddatgeliadau gwarchodedig ("protected disclosures") yn Neddf Hawliau Cyflogaeth 1996. Y Ddeddf yma sydd yn cael ei diwygio i gynnwys darpariaethau a gwarchodaeth yn deillio o'r Public Interest Disclosure Act 1998. Er mwyn ymateb I'r newid statudol yma rwyf wedi gweithredu i gynnwys "aflonyddu rhywiol "yn y Polisi Canu'r Gloch i adlewyrchu y diffiniad statudol diweddaraf o ddatgeliad gwarchodedig.

**ATODIAD 1**

## 22.1 Cwestiynau Cyffredin

### “Beth allaf godi pryder amdano?

Gellir codi pryder am unrhyw beth o fudd i’r cyhoedd, megis:

- twyll neu gamddefnyddio arian cyhoeddus
- camdriniaeth neu esgeulustod tuag at gwsmeriaid neu gleientiaid
- llygredigaeth neu gamddefnyddio awdurdod
- perygl i iechyd a diogelwch
- cuddio gwybodaeth bwysig neu gamymarfer
- **aflonyddu rhywiol**

**22.5.3** Gall cwynion fod ynghylch rhywbeth y credir ei fod o fudd i'r cyhoedd gan gynnwys rhywbeth

- Sydd yn anghyfreithlon, yn dwyllodrus neu yn lygredigaeth;
- Sydd yn gyfystyr â chamweinyddu fel a ddiffinnir gan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Mae Camweinyddu yn cwmpasu, er enghraifft, oedi di-gyfiawnder, methiant i ddilyn rheolau’r awdurdod neu’r gyfraith, rhagfarn, defnyddio ystyriaethau amhriodol, rhoi gwybodaeth anghywir a nifer o faterion tebyg a sydd yn achosi anghyfiawnder.
- sydd yn groes i, neu sydd heb fod yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor, ei Reoliadau Ariannol neu'i bolisïau, ei godau ymarfer neu ei ymrwymiadau cyfreithiol;
- nad yw'n cyrraedd y safonau ymarfer sefydledig;
- sydd yn torri unrhyw gôd ymarfer statudol;
- **sydd yn gyfystyr ag aflonyddu rhywiol**
- sydd yn gyfystyr ag ymddygiad amhriodol;
- sydd yn gyfystyr â cham-drin cleientiaid yn rhywiol, yn gorfforol neu yn emosiynol;
- sydd yn peryglu iechyd a diogelwch unigolyn;
- sydd yn achosi, neu sy'n debygol o achosi niwed i'r amgylchedd;
- sydd yn aflwyddiant cyfiawnder;
- sydd yn gamddefnydd o rym neu'n ddefnydd o rym ac awdurdod y Cyngor ar gyfer rhyw ddiben anawdurdodedig;
- sydd yn methu ag unioni neu gymryd camau rhesymol i adrodd am fater sy'n debygol o olygu cost fawr y gellid ei hosgoi neu golli canlyniad i'r Cyngor neu a fyddai fel arall yn peryglu'r Cyngor, neu
- sydd yn ymgais i guddio unrhyw rai o'r enghreifftiau uchod.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **2ail o Orffennaf 2026** |
| **AELOD CABINET:** | **Llio Elenid Owen, Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg** |
| **TETL:** | **Trothwyon Caffael ac Addasiadau i'r Rheoliadau Gweithdrefn Contractau** |
| **SWYDDG CYSWLLT:** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro<br>Arwel Evans Rheolwr Caffael** |

**1. Argymhelliad**

**1.Cynyddu'r trothwyon caffael fel a ganlyn:**

- **Caffaeliadau hyd at £10,000, ddyfynbris sengl .**
- **Caffaeliadau rhwng £10,000 a £100,000 gofyn am dri dyfynbris .**
- **Caffaeliadau o dros £100,000 cais agored am ddyfynbrisiau neu dendrau**

**2. Gwneud y mân newidiadau i Reolau Gweithdrefn Gontract y Cyngor fel y nodir yn Atodiad 1.**

**2. Y Rheswm Pam Fod Angen I'r Cyngor Wneud Y Penderfyniad:**

2.1 Mae'n amserol i adolygu ein trothwyon tendro a dyfynbrisiau yn sgil newid i ddeddfwriaeth cytundebu a chaffael cenedlaethol a chynnydd sylweddol yng nghostau nwyddau a gwasanaethau oherwydd chwyddiant.

2.2 Cyflwynwyd yr eitem gan bod y cais i gynyddu'r trothwyon a gwneud man newid i drefniadau caffael a chontractau yn golygu addasu'r Rheolau Gweithdrefn Contractau sydd yn Adran 17 o'r cyfansoddiad y Cyngor.

**3. Cyflwyniad A Rhesymeg**

3.1 Trothwyon caffael yw'r terfyn sy'n pennu pryd mae angen cynnal cystadleuaeth ffurfiol i benodi contractwyr neu ddarparwyr gwasanaeth, a phryd mae gofyn am ddyfynbrisiau yn unig yn ddigonol. Mae'r trothwyon caffael presennol wedi bod yn ei lle ers 1996. Ers hynny, mae prisiau a chwyddiant wedi cynyddu ar gyfartaledd tua 3% y flwyddyn. O ganlyniad, mae prisiau heddiw oddeutu 2.4 gwaith yn uwch nag oedden nhw bryd hynny.

**Trothwyon cyfredol**

3.2 Mae ein trothwyon caffael cyfredol yn cynnwys y trefniadau canlynol:

- Pryniant hyd at £5,000 un dyfynbris.
- Pryniant rhwng £5,000 a £50,000 cais am dri dyfynbris.

- Pryniant dros £50,000 cais agored am ddyfynbrisiau neu dendrau.

Mae'r dull o gyfrifo'r gwerth y cytundeb hefyd wedi newid yn ddiweddar ble mae TAW yn gynwysedig. Mae hyn wedi golygu gostyngiad yn y trothwyon mewn gwirionedd.

**Rheoliadau Caffael Cenedlaethol**

3.3 Mae'r dull o gaffael nwyddau a gwasanaethau yn cael ei rheoli gan y Ddeddf Caffael 2023 ddoeth i rym yn Chwefror 2025. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Rheolau Gweithdrefn Contractau sydd yn gosod trefniadau ar gyfer gweithred leol o'r rheoliadau hyn. O Ebrill 2026, bydd y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) hefyd mewn grym yn llawn.

3.4 Gwerth ariannol y cytundeb yn bennaf sydd yn penderfynu ba raddfa mae'r rheoliadau cenedlaethol yn berthnasol. Mae'r trothwyon rheoliadau cenedlaethol yn cael ei adolygu bob dwy flynedd, gyda'r cyfnod adolygiad nesaf yn Ionawr 2028. PPN 11/23: New Thresholds - GOV.UK <https://www.gov.uk/government/publications/ppn-1123-new-thresholds>

3.5 Er bod modd i ddylanwadu a gosod trefniadau lleol ar gyfer cytundebau sydd â gwerth o dan y trothwyon cenedlaethol, mae dal angen cydymffurfio gyda'r egwyddorion caffael cenedlaethol. Mae'r egwyddorion caffael yn ceisio sicrhau bod holl bryniant y sector cyhoeddus yn cael ei wneud mewn ffordd gyfartal, deg, tryloyw a heb wahaniaethu.

3.6 Mae ein trefniadau caffael a chytundebu hefyd yn ceisio sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian gan ddarparwyr sydd yn cyflawni i safon, yn ddiogel ac yn gyfreithlon.

**Tirwedd Genedlaethol**

3.7 Er bod sefydliad cyhoeddus yn cael ei lywodraethu gan yr un Ddeddf Caffael, mae trefniadau caffael a chytundebu amrywio. Yn 2022, mi ddaru'r Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ymchwilio i gymharu trefniadau a throthwyon caffael Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

3.8 Mae'n ymddangos bod rhai awdurdodau wedi gosod trothwyon i gyd fynd gyda'r Nodyn Polisi Llywodraeth Cymru WPPN 013 <https://www.llyw.cymru/wppn-013-caffael-syn-gyfeillgar-i-fusnesau-bach-a-chanolig> ac eraill gyda throthwy uwch. Mae'r trothwyon uwch ar gyfartaledd o gwmpas £75,000 gyda rhai yn gwahaniaethu rhwng nwyddau a gwasanaethau a'r trothwy ar gyfer gwaith (adeiladwaith).

3.9 Mae'r Nodyn Polisi Llywodraeth Cymru yn annog i gyfleoedd dendro gael ei hysbysebu'n agored dros £25,000 + TAW. Mae hyn i annog cystadleuaeth agored ac i geisio sicrhau bod busnesau yn fwy ymwybodol o'r cyfleoedd ac yn ymgeisio am waith. Nid oes bwriad gan Lywodraeth Cymru na'r Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gysoni'r trothwyon ar draws Awdurdodau Lleol Cymru.

Er gwybodaeth dyma'r trothwyon rhai o gynghorau'r Gogledd:

| **Awdurdod Lleol** | **Trothwyon Tendro Cyfredol** | |
|---|---|---|
| | **Nwyddau a Gwasanaethau** | **Gwaith (Adeiladwaith)** |
| Cyngor Conwy | £50,000 | £50,000 |
| Cyngor Dinbych | £25,000 | £250,000 |
| Cyngor Fflint | £25,000 | £250,000 |
| Cyngor Gwynedd | £50,000 | £50,000 |
| Cyngor Ynys Môn | £214,904 | £5,372,609 |
| Cyngor Wrecsam | £25,000 | £75,000 |

**4. Ystyriaethau**

4.1 Mae yna nifer ffactorau i'w ystyried wrth addas y trothwyon, byddwn yn rhagdybio buasai newidiadau yn golygu;

Trothwyon is:
- Cystadleuaeth agored a sicrwydd gwerth
- Trefniadau gwobrwyo a phenodi tryloyw wrth ddatgan meini prawf
- Proses cynhwysfawr sydd yn rhoi cyfle i asesu agweddau cyflawn y pryniant

Trothwyon uwch:
- Mwy o benodiadau uniongyrchol
- Trefniadau penodi cynt gyda'r angen am lai o adnoddau gweinyddu
- Cystadleuaeth gyfyngedig i gyflawni sicrwydd gwerth

4.2 Mae trothwyon uwch yn gyfle i gefnogi busnesau lleol wrth roi hyblygrwydd yn ein gweithdrefnau i wahodd cwmnïau lleol i gyflwyno dyfynbrisiau. Buasai hefyd cyfle i gynnwys yn y gweithdrefnau trefniadau i annog cystadleuaeth agored ble mae nifer o fusnesau lleol yn bodoli hefyd. Buasai hefyd angen bod yn wyliadwrus bod cwmnïau newydd lleol yn cael cyfle i ymgeisio am waith a bod trothwyon uwch ddim golygu bod dim angen adolygu trefniadau cyn adnewyddu cytundebau. Mae angen tynnu sylw bod rhan helaeth o gytundebau'r Cyngor yn uwch na'r trothwyon cenedlaethol.

**Meysydd Adeiladwaith a Gwaith Adeiladwaith**

4.3 Mae yna drothwyon cenedlaethol gwahanol i nwyddau a gwasanaethau yn y meysydd Gofal ac Adeiladwaith (gwaith). Mae'r trothwyon ble mae'r rheoliadau cenedlaethol yn berthnasol yn £663k ar gyfer meysydd gofal a £5.3m ar gyfer gwaith adeiladwaith.

4.4 Ar gyfer cysondeb ac i symleiddio trefniadau ein rheolau gweithdrefn contractau, byddwn yn argymell bydd y holl feysydd rydym yn caffael yn dilyn yr un trothwyon dyfynbrisiau a thendro.

**5. Newidiadau I'r Rheoliadau Gweithdrefn Contractau**

5.1 Mae'r man newidiadau i'r rheoliadau i bwrpas codi ymwybyddiaeth o'r gwerth y cytundeb ble mae angen cyhoeddi hysbyseb manylion contract.

5.2 Mae cynnwys hicyn ar ymgynghori gyda'r Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid ar gyfer awdurdodi penodiadau uniongyrchol i sicrhau cydymffurfiaeth a defnydd priodol a'r trefniadau hyn.

**6. PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

6.1 Cyflwynwyd yr argymhelliad i ystyriaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a benderfynodd:

"PENDERFYNIAD
- Derbyn yr adroddiad
- Cefnogi newidiadau i'r Trothwyon Caffael
- Argymell i'r Cyngor Llawn gymeradwyo Addasiadau i'r Cyfansoddiad – Adran 17: Rheoliadau Gweithdrefn Contractau"

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:**
**Swyddog Monitro:**
Cyd Awdur yr aDroddiad
**Pennaeth Cyllid:**
O safbwynt priodoldeb ariannol, rwyf yn croesawu'r adolygiad hwn o'r Rheoliadau Gweithdrefn Contractau, gan gynnwys y trothwyon sydd wedi eu hamlinellu ynddynt. Fel mae'r adroddiad yn eu egluro, nid yw'r trothwyon wedi cael eu hadolygu ers beth amser ac mae hyn, dros amser, wedi arwain at greu rhwystrau biwrocrataidd sy'n arafu gweinyddiaeth llyfn yr Awdurdod. Mae'n amserol a phriodol fod y materion hyn yn cael eu hadolygu.
**ATODIAD**

Atodiad – Tabl newidiadau Rheolau Gweithdrefn Contractau

**Adolygiad o'r Rheolau Gweithdrefn Contractau – Tabl Newidiadau**

| | |
|---|---|
| **17.2.1** | Mae diffiniad o *Adroddiad Cyfiawnhad Dyfarnu Uniongyrchol* wedi'i ychwanegu. |
| **17.2.5** | Mae'r cyfrifoldeb wedi'i newid o'r *Adran Gyfreithiol* i'r *Swyddog Monitro*. |
| **17.7.2(a)** | Mae'r trothwy ar gyfer un dyfynbris wedi newid o £5,000 i £10,000. |
| **17.7.2(b)** | Mae'r trothwy ar gyfer 3 dyfynbris wedi newid o £5,000-£50,000 i £10,000-£100,000. |
| **17.8.1** | Mae gwerth contractau sydd angen eu tendro allan wedi newid o £50,000 i £100,000. |
| **17.8.1** | Mae'r gofyniad wedi'i ddiwygio o "o leiaf tri thendr i'w gwahodd" i gynnwys trwy **gystadleuaeth agored**. |
| **17.9.4** | Mae cymal newydd wedi'i ychwanegu i adlewyrchu gofynion cyhoeddi o dan y *Ddeddf Caffael 2023*:<br>Rhaid cyhoeddi *Hysbysiad Manylion Contract* ar gyfer contractau a ddyfernir o dan y Ddeddf sydd â gwerth o **£30,000 neu fwy**. |
| **17.17.3** | Mae cyfeiriad at yr angen am *Adroddiad Cyfiawnhad Dyfarnu Uniongyrchol* wedi'i ychwanegu i gyd-fynd â gofynion *Deddf Caffael 2023*. |
| **17.17.5** | Mae cyfeiriad penodol at yr amgylchiadau ac amodau pryd y caiff dyfarniad uniongyrchol ei ddefnyddio wedi'i ychwanegu. |
| **17.17.5** | Mae gofyniad newydd wedi'i gyflwyno i ymgynghori â'r **Rheolwr Caffael** (ar gyfer gwerth contract/ estyniad sy'n fwy na £50,000) **a'r Swyddog Monitro a'r Pennaeth Cyllid** (ar gyfer gwerth contract/ estyniad sy'n fwy na £100,000) cyn ymgymryd ag unrhyw drefniadau dyfarnu uniongyrchol. |
| **17.17.6** | Mae cymal newydd wedi'i ychwanegu i nodi hawl dirprwyo y Swyddog Monitro. |
| **17.25.6** | Mae geirfa'r drothwy gwerth contract wedi newid o £25,000 + TAW i **£30,000** sydd yn cynnwys VAT. Mae'n gofyn am gyhoeddi *Hysbysiad Manylion Contract* wedi'i gynnwys yn benodol. |